Dadansoddi ar gyfer Polisi

YMCHWIL GYMDEITHASOL Y LLYWODRAETH

GOVERNMENT SOCIAL RESEARCH

Analysis for Policy

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

RHIF YMCHWIL GYMDEITHASOL:
69/2017
DYDDIAD CYHOEDDI:
15/11/2017

# Adolygiad o'r Canllawiau Statudol ar Amddiffyn Plant a Phobl Ifanc rhag Camfanteisio Rhywiol yng Nghymru

OGL © Hawlfraint y Goron ISBN Digidol 978-1-78859-797-5

Teitl: Adolygiad o’r Canllawiau Statudol ar Amddiffyn Plant a Phobl Ifanc rhag Camfanteisio Rhywiol yng Nghymru

Awdur(on): Sophie Hallett, Anne Crowley, Kat Deerfield, Eleanor Staples ac Alyson Rees

(Canolfan Ymchwil CASCADE, Ysgol y Gwyddorau Cymdeithasol, Prifysgol Caerdydd)

Hallett, S; Crowley, A; Deerfield, K; Staplau, E; a Rees, A. 2017. *Adolygiad o’r Canllawiau Statudol ar Amddiffyn Plant a Phobl Ifanc rhag Camfanteisio Rhywiol yng Nghymru.* Caerdydd: Llywodraeth Cymru, rhif adroddiad Ymchwil Gymdeithasol y Llywodraeth 69/2017.
Ar gael yn: http://gov.wales/statistics-and-research/review-wales-safeguarding-children-young-people-sexual-exploitation/?lang=cy

Barn yr ymchwilwyr a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid o reidrwydd barn Llywodraeth Cymru

Am ragor o fanylion cysylltwch ag:
Rebecca Cox
Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ
Ffôn: 0300 025 9378
E-bost: Rebecca.Cox@llyw.cymru

## Tabl cynnwys


Rhestr o ffigurau ....................................................................................................3
Rhestr o acronymau.................................................................................................4

**1. Cyflwyniad .........................................................................................................5**
**2. Dull ..................................................................................................................8**
**Adolygiad llenyddiaeth...........................................................................................8**
**Sampl ..................................................................................................................9**
*Cynnwys barn pobl ifanc*......................................................................................11
**Casglu data – rhanddeiliaid proffesiynol .................................................................12**
**Casglu data – pobl ifanc.........................................................................................13**
**Dadansoddi data ...................................................................................................15**
**Ystyriaethau moesegol...........................................................................................15**
**3. Canfyddiadau – Adolygiad o'r Llenyddiaeth............................................................17**
**Diffinio camfanteisio'n rhywiol ar blant ...................................................................17**
*Cyd-destun Hanesyddol*........................................................................................17
*Cyd-destun Polisi Presennol* ..................................................................................18
*Datblygiadau Diweddar yn Lloegr* ..........................................................................19
*Cymru* ................................................................................................................19
*Diffiniadau Eraill* ..................................................................................................21
*Cam-drin Plant yn Rhywiol a Chamfanteisio'n Rhywiol ar Blant* ...............................22
**Deall camfanteisio'n rhywiol ar blant .....................................................................23**
*Camsyniadau*.......................................................................................................24
*Magu Perthynas Amhriodol*...................................................................................25
*Gweithrediad Personol*..........................................................................................25
*Rhyw*..................................................................................................................26
*Gang/Grŵp a Chamfanteisio Unigol*........................................................................26
*Camfanteisio gan gyfoedion* ..................................................................................27
*Teulu*..................................................................................................................27
*Meysydd ychwanegol sy'n achosi pryder*..................................................................28
*Ethnigrwydd* ........................................................................................................28
*Cyfeiriadedd Rhywiol a Hunaniaeth o ran Rhywedd*...................................................29
*Anabledd*.............................................................................................................29

**Cysyniadau Allweddol**......29
*Cydsyniad ac Asiantaeth*......30
*Cyfnewid*......31
*Pŵer*......32
**Adnabod ac Ymateb i Gamfanteisio'n Rhywiol ar Blant**......32
*Asesu*......33
*Atal*......34
*Ymyrraeth*......36
*Erlyn*......37
**Llais Pobl Ifanc**......39
*Gwasanaethau*......39
*Plismona*......40
*Gwelededd*......40
*Teimlo'n 'Arferol'*......41
*Crynodeb*......41
**4. Canfyddiadau – Ymchwil Ansoddol**......42
*Prif negeseuon*......42
**Gwybodaeth am y canllawiau**......43
**Diffiniad a dealltwriaeth**......44
**Adnabod ac asesu**......49
**Ymateb i gamfanteisio'n rhywiol ar blant – atal, ymyrryd, amharu ac erlyn**......56
*Ymarfer a gwybodaeth newydd*......57
*Y cyd-destun ehangach o ymateb i gamfanteisio'n rhywiol ar blant*......59
*Rolau a chyfrifoldebau*......60
*Ymyrryd a gweithio i gyflawni newid cadarnhaol*......63
*Cyfarfodydd strategaeth amlasiantaeth*......64
*Llywodraethu, atebolrwydd a thryloywder*......65
*Rheoli lleoliadau y tu allan i'r sir/y wlad*......66
*Cyfranogiad plant a theuluoedd*......67
*Troi polisi ac arweiniad yn arfer*......70
**5. Casgliadau**......72
**Gwybodaeth ac ymwybyddiaeth o'r canllawiau**......72
**Diffiniad**......72

**Asesu ac adnabod camfanteisio'n rhywiol ar blant ....75**
**Ymateb i gamfanteisio'n rhywiol ar blant ....76**
**Casgliadau terfynol....79**
**6. Argymhellion ....80**
**Argymhelliad cyffredinol....80**
**Diffiniad ....81**
**Adnabod ac asesu ....82**
**Ymateb i gamfanteisio'n rhywiol ar blant ....83**
**Ystyriaethau strategol ....94**
**Cynnwys plant, pobl ifanc a theuluoedd ....85**
**Cynhyrchu a lansio'r canllawiau newydd a'r protocol....85**
**Cyfeiriadau ....86**

Atodiad A – Rhestr o sefydliadau cysylltiedig a grwpiau ffocws a gynhaliwyd ....94
Atodiad B – Amserlen cyfweliadau ar gyfer grwpiau ffocws a chyfweliadau ....97
Atodiad C – Diffiniadau'r DU o gamfanteisio'n rhywiol ar blant ....101
Atodiad D – Enghraifft o'r diffiniad newydd ....102
Atodiad E – Siart llif: Gweithredu pan fo pryderon ynghylch camfanteisio'n rhywiol ar blant....102
Atodiad F – Strwythur cenedlaethol awgrymedig ar gyfer camfanteisio'n rhywiol ar blant....104
Atodiad G – Cydnabyddiaethau ....105

**Rhestr o ffigurau**

Figure 1: Professional stakeholder sample by agency type ....10
Figure 2: Professional stakeholder sample by region of Wales....11

**Geirfa**

| | |
|---|---|
| ABUHB | Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan |
| APPG | Grŵp Hollbleidiol Seneddol |
| CEOP | Trefn Reoli Camfanteisio ar Blant a'u Hamddiffyn Ar-lein |
| CSA | Cam-drin Plant yn Rhywiol |
| CSE | Camfanteisio’n Rhywiol ar Blant |
| CSERQ4 | Holiadur Risg Camfanteisio ar Blant yn Rhywiol (fersiwn 4 cwestiwn) |
| CSERQ15 | Holiadur Risg Camfanteisio ar Blant yn Rhywiol (fersiwn 15 cwestiwn) |
| AGGCC | Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru |
| DA | Cam-drin Domestig |
| DfE | Yr Adran Addysg |
| ACEM | Arolygiaeth Cwnstabliaeth Ei Mawrhydi |
| BLIDP | Bwrdd Lleol Diogelu Plant |
| LGBT | Lesbiaidd, Hoyw, Deurywiol a Thrawsrywiol |
| MACE | Cyfarfodydd Amlasiantaeth Camfanteisio ar Blant |
| MACSE | Cyfarfodydd Amlasiantaeth Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant |
| MASM | Cyfarfod Strategaeth Amlasiantaeth |
| NSPCC | Y Gymdeithas Genedlaethol er Atal Creulondeb i Blant |
| NWG | Gweithgor Cenedlaethol (ar gyfer Plant a Phobl Ifanc y Camfanteisir yn Rhywiol Arnynt) |
| PPU | Uned Amddiffyn y Cyhoedd |
| BDRh | Bwrdd Diogelu Rhanbarthol |
| BRhDP | Bwrdd Rhanbarthol Diogelu Plant |
| SERAF | Fframwaith Asesu'r Risg o Gamfanteisio Rhywiol |
| SHB | Ymddygiad Rhywiol Niweidiol |
| ARhPh | Addysg Rhyw a Pherthnasoedd |
| SREC | Pwyllgor Moeseg Ymchwil Ysgol y Gwyddorau Cymdeithasol |
| TPV | Trais gan Bartner yn ei Arddegau |
| UHB | Bwrdd Iechyd Prifysgol |
| CCUHP | Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn |
| WPYOG | Grŵp Prif Swyddogion Ieuenctid Cymru |
| GTI | Gwasanaethau Troseddau Ieuenctid |

# 1. Cyflwyniad

1.1 Ym mis Ionawr 2017, Comisiynodd Llywodraeth Cymru adolygiad o’r Canllawiau Statudol ar Amddiffyn Plant a Phobl Ifanc rhag Camfanteisio Rhywiol yng Nghymru, y diffiniad sefydledig a phrotocol cysylltiedig y Fframwaith Asesu’r Risg o Gamfanteisio Rhywiol.

1.2 Nod yr adolygiad oedd i werthuso sut y mae'r canllawiau statudol yn gweithio'n ymarferol ac i adolygu’r canllawiau, y diffiniadau sefydledig a’r Fframwaith Asesu’r Risg o Gamfanteisio Rhywiol i sicrhau eu bod yn addas at y diben. I'r perwyl hwnnw, roedd yr astudiaeth yn mynd i’r afael â’r cwestiynau ymchwil canlynol:

- A yw’r grwpiau proffesiynol gwahanol (yr heddlu, gofal cymdeithasol, iechyd, ysgolion a'r sector gwirfoddol) yn gwybod am y Canllawiau Statudol ar Gamfanteisio'n Rhywiol ar Blant ac yn eu deall?
- Pa mor effeithiol ac 'addas i'r diben' y mae gweithwyr proffesiynol o'r ystod o asiantaethau cysylltiedig yn ystyried yw’r canllawiau o ran:
  - diffinio camfanteisio'n rhywiol ar blant;
  - adnabod ac atgyfeirio plant a phobl ifanc mewn perygl o gamfanteisio rhywiol a;
  - cael gafael ar gymorth ac ymyriadau ar gyfer pobl ifanc mewn cyd-destun amlasiantaeth?
  - Pa enghreifftiau sydd i’w cael o broblemau ac arfer da?
- Pa mor effeithiol ac 'addas i'r diben' y mae gweithwyr proffesiynol o'r ystod o asiantaethau cysylltiedig yn ystyried yw’r canllawiau o ran:
  - atal ac ymyrryd yn gynnar mewn achosion o gamfanteisio'n rhywiol ar blant;
  - amddiffyn plant a phobl ifanc sydd mewn perygl o gam-drin neu sy’n cael eu cam-drin drwy gamfanteisio rhywiol ac;
  - amharu ar, ac erlyn y rhai sy'n gyfrifol am y math hwn o gam-drin?

    - Pa enghreifftiau sydd i'w cael o broblemau ac arfer da?
- Pa newidiadau sydd eu hangen:
    - i'r canllawiau;
    - i'r diffiniad o gamfanteisio rhywiol ac;
    - i'r protocol (SERAF) i sicrhau bod y canllawiau yn fwy effeithiol o ran yr uchod?

1.3 Mae'r adolygiad hwn yn amserol. Mae Cymru wedi bod ar flaen y gad o ran polisi ac arferion y DU yn cael eu llywio gan ymchwil mewn perthynas â chamfanteisio'n rhywiol ar blant. Roedd cyflwyno canllawiau polisi ac arferion yn 2009 yn creu un protocol cenedlaethol ar gyfer sut i adnabod pobl ifanc sydd mewn perygl o'r math hwn o gam-drin (Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2009; 2011). Mae bron i ddeng mlynedd wedi mynd heibio ers datblygu'r canllawiau hynny a'r Fframwaith Asesu'r Risg o Gamfanteisio Rhywiol, ac yn y cyfamser mae camfanteisio'n rhywiol ar blant wedi cael llawer o sylw o ran ymchwil, datblygiadau mewn ymarfer ac ymwybyddiaeth ymhlith y cyhoedd. Nid yw'n 'fater cudd' mwyach (gweler Coles, 2005). Mae cyflwyno'r Cynllun Gweithredu Cenedlaethol yn 2016 i Fynd i'r Afael â Chamfanteisio'n Rhywiol ar Blant (Cymru) (Llywodraeth Cymru, 2016) yn gam pellach yng Nghymru er mwyn sicrhau ymateb cydgysylltiedig ar draws gwaith amlasiantaeth i atal, ymyrryd a diogelu yn erbyn camfanteisio'n rhywiol ar blant yng Nghymru.

1.4 Mae cyflwyno camfanteisio'n rhywiol ar blant i bolisi ac arferion gofal cymdeithasol yn gymharol ddiweddar yn golygu mai ychydig o gyfle sydd wedi bod i ystyried effeithiolrwydd offer asesu, ymyriadau newydd ac ymatebion gwasanaethau, a'r canlyniadau ar gyfer pobl ifanc sy'n profi'r niwed hwn. Yn amlwg, mae angen adolygu'r canllawiau statudol ar Amddiffyn Plant a Phobl Ifanc rhag Camfanteisio Rhywiol, gan gynnwys y diffiniad sefydledig o gamfanteisio'n rhywiol ar blant a'r protocol, i sicrhau bod y canllawiau yn parhau i fod yn ddogfen ddeallus, ddefnyddiol ac ymarferol sy'n cyfrannu at amddiffyn plant agored i niwed yn effeithiol, ar draws pob asiantaeth. Dylid nodi bod bylchau hollbwysig o hyd o ran gwybodaeth am effeithiolrwydd ymatebion a ddefnyddir i atal ac ymyrryd yn y broblem (gweler Pennod 3); am y ffactorau a allai fod â rôl i ddiogelu pobl ifanc

rhag risg gynyddol, ac arwyddocâd y ffactorau hyn yn lleihau risg a bod yn agored i gamfanteisio’n rhywiol ar blant. Mae’n hollbwysig datblygu dealltwriaeth o'r ffordd orau i alluogi ymarferwyr i nodi ac ymateb i bobl ifanc.

*Strwythur yr adroddiad*

1.5 Mae'r adroddiad hwn yn dechrau drwy amlinellu methodoleg y gwaith ymchwil a ddefnyddiwyd yn yr adolygiad, cyn symud ymlaen at y cyntaf o ddwy bennod canfyddiadau. Mae'r bennod gyntaf yn rhoi trosolwg o lenyddiaeth allweddol sy'n ymwneud â chamfanteisio'n rhywiol ar blant o ran diffiniad, adnabod ac asesu, ac ymatebion. Mae'r ail bennod yn cyflwyno themâu a chanfyddiadau allweddol o’r ymchwil, gan gynnwys casgliadau o'r adolygiad. Mae'r adroddiad yn gorffen gyda nifer o argymhellion, wedi'u trefnu o dan themâu allweddol.

## 2. Dull

2.1 Cynlluniwyd y prosiect hwn fel ymchwiliad ansoddol yn ceisio ymchwilio i safbwyntiau rhanddeiliaid allweddol sy'n gweithio yn y maes camfanteisio'n rhywiol ar blant, gweithwyr proffesiynol cysylltiedig, ac oedolion ifanc â phrofiad o ofal. Y nod oedd deall sut y mae'r canllawiau statudol yn gweithio'n ymarferol, a nodi ffyrdd y gellid eu gwella er mwyn sicrhau arweiniad cydlynol, diffiniad a phrotocol sy'n addas i'r diben ar draws pob asiantaeth. Yn ogystal, roedd adolygiad desg yn dwyn ynghyd wybodaeth o lenyddiaeth academaidd a pholisi ac arferion perthnasol ar sut y mae diffiniadau o gamfanteisio'n rhywiol ar blant, fframweithiau asesu risg a phrotocolau amlasiantaeth yn gweithredu yn ymarferol, i sicrhau bod dysgu o ar draws y DU yn cael ei hymgorffori o fewn yr argymhellion.

**Adolygiad llenyddiaeth**

2.2 Roedd yr adolygiad o lenyddiaeth yn canolbwyntio ar ymchwil o fewn y Deyrnas Unedig, ac eithrio'r rhan fwyaf o waith rhyngwladol ar gamfanteisio'n rhywiol ar blant. Mae hyn yn ganlyniad i anghysondebau cyffredin o ran diffinio a deall beth yw camfanteisio'n rhywiol ar blant sy'n bodoli yn fyd-eang, sy'n ei gwneud yn anodd i gael data cymaradwy o'r gwaith mewn gwledydd eraill (gweler Adran 3.3). Yn yr un modd, oherwydd y newidiadau cymharol ddiweddar a sylweddol ym mholisi'r DU a dealltwriaeth o gamfanteisio'n rhywiol ar blant, mae'r adolygiad yn canolbwyntio'n bennaf ar ymchwil ers 2000, pan wnaeth deddfwriaeth yr Adran Iechyd 'Diogelu Plant sy'n ymwneud â Phuteindra' sefydlu fframwaith polisi gyntaf lle gellid adnabod plant sy'n gysylltiedig â chyfnewid rhyw fel dioddefwyr cam-drin (Yr Adran Iechyd, 2000). Pennwyd paramedrau chwilio o 2000 hyd heddiw, a lle bo modd, gosodwyd ymatebion chwilio i'w hadolygu gan gymheiriaid a'u mapio i dermau chwilio allweddair. Mae'r cronfeydd data a chwiliwyd yn cynnwys Mynegai a Chrynodebau'r Gwyddorau Cymdeithasol Cymhwysol, Llyfrgell Cochrane, Crynodebau Gwasanaethau Cymdeithasol a Chrynodebau Cymdeithasegol. Hefyd cynhaliwyd chwiliadau atodol o gyfnodolion allweddol megis yr Adolygiad o Wasanaethau Plant a Phobl Ifanc, y Cyfnodolyn Prydeinig ar Waith Cymdeithasol, Plant a Chymdeithas, yr Adolygiad Cam-drin Plant a Pholisi Cymdeithasol Allweddol. Yn ogystal, nodwyd 'llenyddiaeth lwyd' o amrywiaeth o ffynonellau, gan gynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i: Gwefan Llywodraeth Cymru, gwefan Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Yr Adran Iechyd (Lloegr), y Sefydliad Cenedlaethol

dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal (NICE) a'r Sefydliad Gofal Cymdeithasol er Rhagoriaeth a nifer o wefannau Elusennau Plant. O fewn y gwaith ymchwil cymharol ddiweddar hwn a gynhaliwyd yn y DU yn bennaf, nid oedd yr adolygiad yn nodi corff sylweddol o destunau arloesol, ond yn hytrach maes ymchwil sylweddol sydd, er ei fod yn berthnasol ac o ansawdd uchel, yn cynnwys astudiaethau ar raddfa fach, yn lleol, a/neu astudiaethau arbenigol yn bennaf. Mae’r diffyg gwaith ar raddfa fwy yn cael ei nodi gan Bovarnick, Scott a Pearce (2017) sy'n cyfeirio at Scott a Skidmore (2006) fel yr unig astudiaeth i gynnal gwerthusiad ar raddfa fawr o ganlyniadau ar gyfer gwasanaethau ymyrryd camfanteisio'n rhywiol ar blant. Fodd bynnag, un maes lle mae testunau allweddol yn hawdd eu hadnabod yw ymchwil sy'n cynnwys lleisiau pobl ifanc sydd wedi cael profiad o gamfanteisio'n rhywiol ar blant, gan mai ychydig iawn o astudiaethau sy'n ystyried hyn fel eu ffocws. Y testunau allweddol a nodwyd yn yr adolygiad sy’n mynd i’r afael â’r pwnc hollbwysig hwn yw Smeaton (2013), Gilligan (2016), a Hallett (2017).

**Sampl**

2.3 Defnyddiwyd samplu pwrpasol, yn seiliedig ar argymhellion Llywodraeth Cymru ac arbenigedd yr ymchwilwyr, i sicrhau ein bod yn cynnwys ac yn cofnodi gwahanol safbwyntiau’r gweithwyr proffesiynol a'r asiantaethau cysylltiedig, gan gynnwys y rhai o natur strategol a 'rheng flaen'. Hefyd, sicrhaodd y dull samplu hwn ein bod yn cynnwys mewnbynnau o wahanol ardaloedd ledled Cymru, e.e. trefol, gwledig, y cymoedd, ac ardaloedd Cymraeg eu hiaith.


2.4 Roedd manyleb Llywodraeth Cymru yn nodi rhestr o'r rhanddeiliaid proffesiynol i'w cynnwys yn yr adolygiad hwn, a oedd yn cynnwys Byrddau Rhanbarthol Diogelu Plant, swyddogion arweiniol gwasanaethau cymdeithasol ar gamfanteisio'n rhywiol ar blant, yr heddlu, swyddogion arweiniol dynodedig mewn ysgolion, meddygon dynodedig a nyrsys, ac arweinwyr o amrywiaeth o gyrff cenedlaethol.

2.5 Gwnaethom sicrhau grwpiau ffocws (N=21) a chyfweliadau (N=6) gydag enwebeion o’r cyrff cenedlaethol mwyaf perthnasol yng Nghymru. Roedd hyn yn cynnwys y Byrddau Rhanbarthol Diogelu Plant, gan ein galluogi i gynnwys amrywiaeth lawn o randdeiliaid proffesiynol, rheolwyr ac ymarferwyr o'r holl asiantaethau yn eu hardal a oedd yn gweithio gyda chamfanteisio'n rhywiol ar blant. Yn ogystal â hyn fe wnaethom gynnwys cynrychiolwyr o amrywiaeth o

brosiectau a gwasanaethau sy'n gweithio'n uniongyrchol gyda phlant a phobl ifanc yr effeithir arnynt gan gamfanteisio'n rhywiol ar blant. Er mwyn sicrhau ein bod wedi ymgysylltu'n ddigonol â safbwynt yr ymarferydd, bu modd i ni hefyd fanteisio ar dri chyfle i gynnal grwpiau ffocws pwrpasol gydag ymarferwyr o amrywiaeth o asiantaethau gwahanol a gyda gwahanol rolau gan gynnwys: yr heddlu, gweithwyr cymdeithasol, gweithwyr ieuenctid, swyddogion diogelu corfforaethol awdurdodau lleol, gweithwyr cymdeithasol addysg, ac athrawon. Roedd rhai o'r grwpiau ffocws a drefnwyd gan y BRhDP hefyd yn cynnwys ymarferwyr yn ogystal â rheolwyr a chydlynwyr gwasanaethau. Gellir gweld rhestr lawn o'r unigolion, cyrff, sefydliadau a grwpiau ffocws a gynrychiolwyd yn yr adolygiad yn Atodiad A.


2.6 Casglom farnau cyfanswm o 163 o randdeiliaid proffesiynol sy'n gweithio ar draws meysydd allweddol iechyd, plismona, addysg, y trydydd sector a gofal cymdeithasol, gan gynnwys y rheini sy'n gweithredu ar lefel uwch ac ar y rheng flaen. Gellir disgrifio rhyw 58% o'r sampl fel rheolwyr, a 42% fel ymarferwyr sy'n gweithio'n uniongyrchol gyda phlant a phobl ifanc. Mae Ffigur 1 yn dangos y gwahanol asiantaethau a gynrychiolir yn y sampl. (Mae'r categori 'llywodraeth leol arall' yn Ffigur 1 yn cynnwys Gwasanaethau Troseddau Ieuenctid (YOS), Gwaith Ieuenctid, Diogelu Corfforaethol a Swyddogion Tai.)

**Ffigur 1: Sampl rhanddeiliaid proffesiynol yn ôl math o asiantaeth**



2.7 Sicrhaom hefyd fod safbwyntiau o wahanol ardaloedd o Gymru wedi'u cynnwys, e.e. trefol, gwledig, y cymoedd, ac ardaloedd Cymraeg eu hiaith yn bennaf yng ngogledd a gorllewin Cymru. Mae Ffigur 2 yn dangos dosbarthiad daearyddol y sampl.

**Ffigur 2: Sampl rhanddeiliaid proffesiynol fesul rhanbarth o Gymru (D.S. mae 'cenedlaethol' yn golygu'r rhai sydd â chylch gwaith neu gyfrifoldeb cenedlaethol nad ydynt yn gyfyngedig i ranbarth.)**




*Cynnwys barn pobl ifanc*

2.8 Mae gwirioneddau a chanlyniadau camfanteisio'n rhywiol ar blant yn perthyn i barth profiadau bywyd plant a phobl ifanc. Fel y cyfryw, yn ddelfrydol byddem wedi hoffi gallu asesu gweithrediad y canllawiau statudol o safbwynt y defnyddiwr, sef pobl ifanc. Fodd bynnag, gwyddom o'n profiad ei bod hi'n anodd iawn yn aml cael cymeradwyaeth foesegol a mynediad i'r rhai sydd wedi dioddef camfanteisio rhywiol. Ymhellach, byddai wedi bod yn anodd iawn i ganfod digon o bobl ifanc a oedd ar gael ac a oedd yn barod i gael eu cyfweld o fewn yr amserlen gymharol fyr arfaethedig. Yn ogystal, nid ydym yn credu ei bod yn foesegol dderbyniol rhoi'r cyfrifoldeb o asesu gweithrediad y canllawiau statudol o safbwynt person ifanc ar ddim ond dau neu dri o bobl ifanc drwy un cyfweliad. Er nad oedd yn bosibl cael barnau a phrofiadau helaeth pobl ifanc yr effeithiwyd arnynt gan gamfanteisio'n rhywiol ar blant, penderfynwyd y byddai barn pobl ifanc, serch hynny, yn nodwedd bwysig ar yr adolygiad – nid i roi sylwadau ar ymwybyddiaeth o'r canllawiau ond i

archwilio agweddau ehangach megis risg a natur agored i niwed, asesu ac ymatebion. Ceisiwyd safbwyntiau pobl ifanc mewn dwy ffordd:

i. Cynhaliom ddau grŵp ffocws gydag oedolion ifanc â phrofiad o ofal sydd efallai wedi profi neu heb brofi camfanteisio'n rhywiol ar blant, ond y mae ganddynt brofiadau perthnasol a chymwys iawn fel pobl ifanc sy'n agored i niwed yn y system gofal. Cynhaliwyd grwpiau ffocws gyda Lleisiau CASCADE – grŵp cynghori wedi'i hyfforddi a'i gefnogi yn cael ei arwain gan ddefnyddwyr, yn cynnwys pobl/oedolion ifanc â phrofiad o ofal yr ydym yn gweithio mewn partneriaeth â nhw ar nifer o brosiectau ymchwil. Roedd y cyfranogwyr yn y gweithdy cyntaf yn cynnwys tair dynes ifanc a dau ddyn ifanc. Yn yr ail weithdy, roedd y grŵp yn cynnwys dwy ddynes ifanc a chwe dyn ifanc. Roedd un cyfranogwr yn yr ail weithdy yn dod o gefndir pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig, roedd yr holl gyfranogwyr eraill yn wyn. Roedd y cyfranogwyr rhwng 16-25 oed.

ii. Rydym wedi gwneud defnydd o ymchwil empirig presennol ar safbwyntiau pobl ifanc a'u profiadau o'r rhyngwyneb â gweithwyr proffesiynol. Roedd hyn yn cynnwys defnyddio ymchwil yn cynnwys pobl ifanc yng Nghymru sydd â phrofiadau o gamfanteisio rhywiol, ac sy'n arbennig o berthnasol i'r diffiniad o gamfanteisio'n rhywiol ar blant a'r fframwaith ar gyfer asesu, cyfeirio ac ymatebion diogelu cysylltiedig[1].

### Casglu data

*Rhanddeiliaid proffesiynol*

2.9 Casglwyd data ansoddol drwy ddefnyddio cyfweliadau lled-strwythuredig a grwpiau ffocws. Defnyddir cyfweliadau mewn ymchwil gymdeithasol fel ffordd o ddod o hyd i'r rhagdybiaethau cefndir a deall y synnwyr cymryd yn ganiataol sy'n sail i weithredu cymdeithasol (Atkinson a Silverman, 1997). Bydd defnyddio rhestr wirio o bynciau yn galluogi cyfweliadau i symud y tu hwnt i gyfres o gwestiynau wedi'u diffinio ymlaen llaw ac archwilio mewn modd sensitif a hyblyg y ffyrdd y mae cyfranogwyr yn gwneud synnwyr o 'ddamcaniaethu', ac yn mynegi eu safbwyntiau (Flick, 2002). Darparodd y defnydd o grwpiau ffocws, gyda

[1] Gweler Hallett, 2015; 17.

phartneriaid amlasiantaeth yn benodol, y modd i ganfod myfyrdodau gwerthfawr ar y cymhlethdodau (gan gynnwys anawsterau a llwyddiannau) o ddefnyddio'r canllawiau mewn arferion gweithio amlasiantaeth ledled Cymru – gan ganiatáu i ni ystyried beth sy'n gweithio'n dda a'r hyn nad yw'n gweithio gystal o ran nodi, cyfeirio a chefnogi pobl ifanc sydd mewn perygl o gamfanteisio rhywiol.

2.10 Arweiniwyd ffocws a chynnwys y cyfweliadau a'r grwpiau ffocws gan nod yr ymchwil a chwestiynau'r ymchwil a amlinellwyd uchod, a chan faterion sy'n codi drwy'r dadansoddi aml-lefel. Datblygwyd amserlen lled-strwythuredig (gweler Atodiad B) ar sail y prif feysydd a gynhwyswyd yng nghwestiynau'r ymchwil. Roedd hyn yn cynnwys:

- Y diffiniad o gamfanteisio'n rhywiol ar blant a pha mor dda y deellir camfanteisio'n rhywiol ar blant;
- Adnabod camfanteisio'n rhywiol ar blant ac atgyfeirio – gan gynnwys y defnydd o'r offeryn SERAF a chyfarfodydd strategaeth amlasiantaeth;
- Ymatebion i gamfanteisio'n rhywiol ar blant – gan gynnwys atal, ymyriadau, gweithio gyda phobl ifanc i sicrhau newid cadarnhaol, amharu ar y cyflawnwyr a mynd ar eu trywydd;
- Gweithio amlasiantaeth;
- Materion strategol – gan gynnwys monitro, dysgu a rhannu arfer da a llinellau atebolrwydd.

*Pobl ifanc*

2.11 Er mwyn cefnogi grŵp Lleisiau CASCADE i gymryd rhan yn yr astudiaeth, ymgorfforwyd dulliau creadigol yn nyluniad yr ymchwil. Wrth nodi safbwyntiau'r grŵp ar y risgiau a'r bregusrwydd a geir ar y SERAF ar hyn o bryd, a ph'un a allai fod angen diwygio hwn, crëwyd cardiau gyda phob un o'r categorïau risg a bregusrwydd. Rhannodd y grŵp yn ddau ac fe wnaeth pob un drefnu'r naw carden uchaf, neu fwyaf arwyddocaol. Cafodd y drafodaeth ynghylch y gweithgaredd hwn ei recordio a'i thrawsgrifio. Yn ail sesiwn y grŵp ffocws, fe wnaethom ystyried themâu sy'n codi o'r adolygiad hwn yn ymwneud â'r diffiniad a chyfranogiad pobl

ifanc mewn cyfarfodydd strategaeth camfanteisio'n rhywiol ar blant. Creom ddau ddarlun bach o enghreifftiau posibl o gamfanteisio rhywiol ar blant, wedi'u cynllunio i ysgogi trafodaeth ynglŷn â chydsyniad a nodweddion megis oedran yr unigolyn ifanc, anawsterau dysgu, ethnigrwydd a rhywioldeb, a osodwyd gennym ochr yn ochr â thri diffiniad o gamfanteisio'n rhywiol ar blant i ennyn sylwadau a chyferbynnu. Yn ail ran y grŵp ffocws hwn defnyddiom gardiau gyda theitlau gweithwyr proffesiynol neu ddefnyddwyr gwasanaeth amrywiol wedi'u hysgrifennu arnynt, i'w trefnu o amgylch bwrdd er mwyn archwilio cyfranogiad plentyn neu unigolyn ifanc mewn cyfarfod strategaeth a helpu'r drafodaeth am hyn ymhellach. Defnyddiwyd y gweithgareddau hyn fel ffyrdd hygyrch a 'difyr' o ennyn naratifau (Mannay, 2015) yn ymwneud â chamfanteisio'n rhywiol ar blant. Gan fod hwn yn faes pwnc sensitif y gallai rhai o'r bobl ifanc fod wedi cael profiad uniongyrchol ohono, neu efallai eu bod wedi adnabod pobl eraill sydd wedi'u heffeithio ganddo, roedd yn bwysig gwneud y gweithgaredd yn hygyrch er mwyn i ni allu ennyn naratifau heb ddieithrio neu gynhyrfu unrhyw rai o'r cyfranogwyr neu eu gwneud yn gyndyn i siarad. DS: Er bod dulliau creadigol a chyfranogol wedi eu cynnwys yn y ffordd hon, defnyddiwyd y gweithgareddau hyn yn bennaf er mwyn helpu cyfranogiad ac ennyn naratifau yn unol â'r egwyddorion moesegol a oedd yn llywio'r ymchwil, ac ni chawsant eu hymgorffori fel data eu hunain.

2.12 Cynhaliwyd dau weithdy gennym hefyd, un gyda grŵp cynrychioliadol o 11 o gyfranogwyr o'r prif grwpiau proffesiynol yn gweithio gyda chamfanteisio'n rhywiol ar blant (gwasanaethau cymdeithasol, yr heddlu, iechyd, addysg a'r sector gwirfoddol), ac ail weithdy gyda saith o oedolion ifanc o'r grŵp Lleisiau CASCADE. Nod y gweithdai hyn oedd rhannu canfyddiadau a oedd yn dod i'r amlwg ac i drafod a dadlau ynghylch rhai o'r argymhellion allweddol yn deillio o'r Adolygiad i Lywodraeth Cymru eu hystyried wrth ddiweddaru'r canllawiau. Roedd hyn yn helpu i roi trylwyredd moesegol a dadansoddol i'r ymchwil. Mae'r trafodaethau a gafwyd yn y gweithdai hyn wedi helpu i lywio ac ymhelaethu ar yr argymhellion a ddeilliodd o'r adolygiad. Fodd bynnag, nid yw barn y grŵp wedi newid yr argymhellion yn sylweddol lle bo ar draul y dadansoddiad sy'n deillio o elfennau eraill yr adolygiad.

## Dadansoddi Data

2.13 Recordiwyd yr holl gyfweliadau gan ddefnyddio dictaffon ac fe’u trawsgrifiwyd gan drawsgrifiwr sefydledig a dibynadwy sy'n gweithio'n rheolaidd gyda CASCADE. Mae dadansoddiad thematig o'r data ansoddol wedi'i arwain gan y prif archwilydd a'r cyd-archwilydd arweiniol, ac fe’i cynhaliwyd trwy gydol y broses ymchwil gan bob aelod o'r tîm ymchwil. O ran ein fframwaith damcaniaethol, nid profi theori neu ddamcaniaeth benodol oedd y diben. Yn hytrach, roedd ein hymagwedd yn archwiliadol, yn ddiddwythol a chasgliadol – yn seiliedig ar ddata ac wedi’i llywio gan ddamcaniaeth, yn cysylltu data â fframweithiau cysyniadol (Coffey ac Atkinson, 1996), gan ddefnyddio llenyddiaethau a damcaniaethau perthnasol yn bennaf, a galluogi archwilio’r maes ymchwil yn fanwl er mwyn i ni allu ateb cwestiynau’r ymchwil. Bu ein strategaeth ddadansoddol yn un thematig ac fe’i cynhaliwyd yn bennaf gan ddefnyddio meddalwedd NVIVO. Mae categorïau thematig trosfwaol a themâu dadansoddol yn deillio o'r codio a chategorïau ar draws y setiau data wedi'u creu (Schmidt, 2004). Ffurfiwyd codau cychwynnol, a chafodd codau cysylltiedig eu grwpio a’u huno o ar draws pob set ddata i greu fframwaith codio o themâu codio ac is-themâu. Cafodd y fframwaith codio hwn ei arwain gan gwestiynau’r ymchwil a’r data. Ategwyd hyn gan broses ailadroddus o adolygu a chroes-wirio’r themâu a’r dehongliadau hyn sy'n dod i'r amlwg â llenyddiaeth berthnasol, ymchwil a theori (Flick, 2002). Ar ôl rhywfaint o ddadansoddi cychwynnol roeddem yn gallu trafod y canfyddiadau sy'n dod i'r amlwg gyda rhanddeiliaid allweddol mewn dau weithdy ar wahân, fel y crybwyllwyd uchod, gan felly darparu elfen ychwanegol o drylwyredd i’r dadansoddiad a'r argymhellion cysylltiedig.

## Ystyriaethau moesegol

2.14 Glynwyd at lefelau uchel o sicrwydd, diogelwch ac ymddygiad moesegol. Cyflwynwyd cais moeseg ac fe’i cymeradwywyd gan Bwyllgor Moeseg Ymchwil Ysgol Gwyddorau Cymdeithasol Prifysgol Caerdydd (SREC). Darparwyd taflenni gwybodaeth i bawb o'r rhai a gyfwelwyd neu a gymerodd ran mewn grwpiau ffocws, a cheisiwyd caniatâd ar gyfer yr ymchwil ansoddol gyda chyfranogwyr ar ffurf ysgrifenedig ac ar lafar cyn eu cyfweld neu cyn iddynt fod mewn grŵp ffocws.

2.15 Recordiwyd cyfweliadau a grwpiau ffocws, gyda chaniatâd y cyfranogwyr. Tynnwyd enwau o’r holl ddata ar y cyfle cynharaf, a storiwyd allweddi tynnu enwau yn ddiogel ac ar wahân. Mae’r holl ddata, gan gynnwys trawsgrifiadau a nodiadau atblygol ymchwilwyr a gofnodwyd yn electronig o bob cyfweliad/grŵp ffocws wedi’u storio’n ddiogel ar gyfrifiadur y Brifysgol a ddiogelir gan gyfrinair ar rwydwaith y Brifysgol, ynghyd â chopïau caled o drawsgrifiadau cyfweliadau a nodiadau cysylltiedig sy'n cael eu cadw'n ddiogel mewn cwpwrdd cloadwy ar safle’r brifysgol, a dim ond aelodau o'r tîm ymchwil sy’n cael mynediad iddynt. Cynhaliwyd dadansoddiad o'r data ar feddalwedd ar gyfrifiadur y Brifysgol a ddiogelir gan gyfrinair ar rwydwaith y Brifysgol, a bydd yn cael ei gadw am hyd at 5 mlynedd, ac yna caiff ei ddinistrio yn ddiogel, yn unol â gofynion SREC.

2.16 Mae data wedi’i gyflwyno yn yr adroddiad hwn er mwyn sicrhau cyfrinachedd ac anhysbysrwydd i’r holl gyfranogwyr. Cyfeirir at ddetholiadau o'r grwpiau ffocws yn ôl rhif yn hytrach na grwpiau y gellir eu hadnabod. Ni fu'n bosibl cyfeirio at gefndir proffesiynol yn yr achosion hyn, yn rhannol oherwydd nad oedd modd i’r trawsgrifiwr briodoli’r siarad i unigolion pan oedd nifer o siaradwyr o fewn cylch gwaith yr adolygiad hwn. Lle’r oedd y grŵp ffocws yn cynnwys tîm penodol byddai hyn yn peryglu gallu adnabod cyfranogwyr ac felly dilynwyd yr un egwyddor fel gyda grwpiau ffocws cymysg. Ar gyfer dyfyniadau o gyfweliadau unigol neu grŵp, rydym wedi darparu’r cyd-destun proffesiynol generig ac wedi gofyn am ganiatâd ar gyfer hyn yn y cyfweliad. Rydym wedi ceisio cyflwyno deunydd o’r ystod o grwpiau ffocws a chyfweliadau a gynhaliwyd.

# 3. Canfyddiadau – Adolygiad o'r Llenyddiaeth

Mae'r adran hon o'r adroddiad yn rhoi trosolwg o'r llenyddiaeth yn ymwneud â chefndir pholisi, arfer ac ymchwil yr adolygiad hwn. Mae'n rhoi cyd-destun pwysig, sy'n amlinellu'r cyd-destun ymarfer hanesyddol a chyfredol i'r adolygiad hwn; yn ogystal â darparu tystiolaeth sy'n llywio'r dadansoddiadau, casgliadau ac argymhellion dilynol. Mae'r adolygiad o'r llenyddiaeth yn defnyddio ymchwil a theori academaidd yn ogystal ag ymchwil a theori polisi ac ymarfer, ac mae'n canolbwyntio'n arbennig ar sut caiff camfanteisio'n rhywiol ar blant ei ddiffinio, ei ddeall a sut yr ymatebir iddo mewn polisi ac arfer ar draws y DU.

**Diffinio camfanteisio'n rhywiol ar blant**

3.1 Er bod y term 'Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant' wedi bodoli ym maes llunio polisïau yn y DU ers bron i ddegawd, ac mewn gwaith ymchwil ac ymgyrchu am gyfnod lawer hirach, mae'r diffiniadau o gamfanteisio'n rhywiol ar blant yn amrywio o hyd. Mae yna agweddau ar gamfanteisio'n rhywiol ar blant sy'n ei gwneud yn arbennig o anodd ei ddiffinio'n glir, ac mewn ffordd y gellir ei droi'n bolisi ac ymarfer yn hawdd. Mae goblygiadau pwysig yn hyn o ran deall y broblem a rhoi ymatebion ar waith, fel y mae'r adolygiad hwn yn mynd i'r afael ag ef.

*Cyd-destun hanesyddol*[2]

3.2 Roedd cyflwyno'r term 'Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant i bolisi cymdeithasol y DU yn 2009 yn arwydd o newid yn y ddealltwriaeth o'r hyn a oedd wedi'i alw'n flaenorol yn 'buteindra plant'[3], er y gellir olrhain datblygiad Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant fel disgrifydd o'r ffenomen hon dros gyfnod hwy o lawer o ymchwil gofal cymdeithasol ac ymgyrchu[4]. Roedd y polisi 2009 yng Nghymru[5] yn dilyn ymlaen o'r ddeddfwriaeth gynharach gofal cymdeithasol a oedd ar waith ar gyfer Cymru a Lloegr - 'Diogelu Plant sy'n Ymwneud â Phuteindra' (Yr Adran Iechyd, 2000), a oedd am y tro cyntaf wedi creu gwahaniaeth clir rhwng plant ac oedolion a oedd yn ymwneud â phuteindra a gwaith rhyw. Cefnogwyd hyn gan Ddeddf Troseddau

[2] Gweler Hallet, 2017 – pennod un am drafodaeth estynedig ar y datblygiadau a'r newidiadau mewn polisi ac ymarfer yn ymwneud â chamfanteisio'n rhywiol ar blant.
[3] Gweler yr Adran Iechyd (2000) Diogelu Plant sy'n Ymwneud â Phuteindra. Llundain: Yr Adran Iechyd
[4] Gweler, er enghraifft, Coles (2005); Ennew, J. (1986) The Sexual Exploitation of Children. Caergrawnt: Gwasg Polity
[5] Datblygwyd a chyhoeddwyd polisi ar wahân ar gyfer Lloegr yn 2009 gan yr Adran Plant, Ysgolion a Theuluoedd.

Rhywiol 2003, a oedd yn rheoleiddio ymhellach yn erbyn oedolion yn prynu rhyw gan blant neu'n hwyluso cyfnewid rhywiol â phlant. Fodd bynnag, hyd at 2009 gallai plant a phobl ifanc ddal i fod yn destun ymatebion cyfiawnder troseddol os barnwyd eu bod yn cyfnewid rhyw heb gael eu gorfodi (gweler Clutton a Coles, 2008; Pearce, 2009; Hallett, 2017). Fe wnaeth y datblygiadau yn 2009 yn ymwneud â chamfanteisio'n rhywiol ar blant symud y cyfryw syniadau o gyfrifoldeb ymhellach i ffwrdd oddi wrth bobl ifanc, a sefydlwyd mewn polisi ac ymarfer fod camfanteisio'n rhywiol ar blant yn ffurf o gam-drin plant yn rhywiol ac nad yw'n rhywbeth y gall plentyn neu unigolyn ifanc gael ei ddal yn gyfrifol amdano. Hyd nes y gwnaed y newidiadau polisi hyn, gallai plant a phobl ifanc fod yn destun euogfarnau am droseddau yn ymwneud â phuteindra os oeddent dros yr oedran cyfrifoldeb troseddol (deg oed), hyd yn oed pan oeddent o dan yr oedran cyfreithiol o gydsynio i weithgarwch rhywiol. Roedd hyn yn bennaf oherwydd bod yr elfen o gyfnewid yn gysylltiedig â chamfanteisio'n rhywiol ar blant yn rhoi plant a phobl ifanc yn y sefyllfa o weld eu bod ar fai yn droseddol am yr hyn a fyddai'n cael ei ddeall fel cam-drin plentyn yn rhywiol mewn cyd-destun arall (Hallett, 2017).

*Cyd-destun Polisi Presennol*

3.3 Nid oes unrhyw un diffiniad unigol ar gyfer camfanteisio'n rhywiol ar blant ar draws pedair gwlad y DU (gweler Atodiad C), ac mae hynny'n adlewyrchu'r gwahaniaeth ledled y byd yn y diffiniadau a'r ddealltwriaethau o'r mater[6]. Mae gan Lywodraeth Cymru, Llywodraeth y DU (sy'n ymwneud â Lloegr) a Llywodraeth yr Alban a Bwrdd Diogelu Gogledd Iwerddon eu diffiniad a'u canllawiau eu hunain ar gyfer camfanteisio'n rhywiol ar blant, ac mae pob un o'r pedwar diffiniad hyn yn gwahaniaethu i ryw raddau (mae Atodiad C yn rhestru pob diffiniad gyda'i gilydd er mwyn hwyluso cyfeirio)[7]. Golyga'r croesi llwybrau datganoledig ac anatganoledig rhwng Cymru a Lloegr bod sylw'n cael ei roi yma i'r datblygiadau diweddar mewn polisi a chanllawiau camfanteisio'n rhywiol ar blant yn Lloegr.

[6] Am drafodaeth o'r cyd-destun byd-eang, gweler Cameron G. et al (2014).
[7] Gweler Llywodraeth yr Alban (2016), Bwrdd Diogelu Gogledd Iwerddon (2014)

*Datblygiadau Diweddar yn Lloegr*

3.4 Ymateb proffil uchel i'r angen i ddatblygu ymhellach y diffiniad o gamfanteisio'n rhywiol ar blant a'i ganllawiau cysylltiedig oedd yr ymgynghoriad diweddar a gynhaliwyd yn Lloegr yn 2016 (Llywodraeth EM, 2017a). O ganlyniad i'r ymgynghoriad, mae'r diffiniad o gamfanteisio'n rhywiol ar blant a ddefnyddir yn Lloegr bellach yn darllen fel a ganlyn:

> *Mae camfanteisio'n rhywiol ar blant yn ffurf o gam-drin plant yn rhywiol. Mae'n digwydd pan fydd unigolyn neu grŵp yn cymryd mantais ar anghydbwysedd mewn pŵer i orfodi, twyllo neu ddylanwadu ar blentyn neu unigolyn ifanc o dan 18 oed i ymgymryd â gweithgarwch rhywiol (a) yn gyfnewid am rywbeth mae'r dioddefwr ei angen neu ei eisiau, a/neu (b) am y fantais ariannol neu statws uwch y cyflawnwr neu'r hwylusydd. Gellid fod wedi camfanteisio'n rhywiol ar y dioddefwr hyd yn oed os yw'n ymddangos bod y gweithgarwch rhywiol yn gydsyniol. Nid yw camfanteisio'n rhywiol ar blant bob amser yn golygu cyswllt corfforol; gall ddigwydd hefyd drwy ddefnyddio technoleg* (Llywodraeth EM, 2017a: 5).

3.5 Yn ychwanegol at y diffiniad ei hun, mae adroddiad Llywodraeth y DU ar yr ymgynghoriad yn rhoi cipolwg pwysig o ddealltwriaethau cyfoes o gamfanteisio'n rhywiol ar blant a materion cysylltiedig. Mae'r ymgynghoriad yn tynnu sylw at yr hyn a gredai ymatebwyr oedd yr elfennau hollbwysig mewn diffiniad o gamfanteisio'n rhywiol ar blant; mae materion cydsynio a chyfnewid ymhlith y rhain (Llywodraeth EM, 2017b). Byddwn yn mynd yn ôl i drafod pwysigrwydd y materion hyn yn fanylach yn adrannau 3.29-3.32.

*Cymru*

3.6 Yn draddodiadol, mae Cymru wedi bod ar flaen y gad o ran polisi ac arferion y DU yn cael eu llywio gan ymchwil mewn perthynas â chamfanteisio'n rhywiol ar blant. Roedd cyflwyno canllawiau yn 2009 yn creu un protocol cenedlaethol ar gyfer nodi pobl ifanc sydd mewn perygl o'r math hwn o gam-drin (LlCC 2009, 2011). Gosodir Cymru ar wahân i Loegr yn gymaint â bod y protocol Cymru gyfan yn bodoli i ddarparu canllawiau cenedlaethol ar sut mae camfanteisio'n rhywiol ar blant yn cydweddu o fewn y gweithdrefnau ehangach Amddiffyn Plant Cymru Gyfan (LlCC, 2009). Y canllawiau hyn a'r diffiniad sefydledig a'r fframwaith SERAF oedd

canlyniad ymchwil yng Nghymru a gynhaliwyd gan Barnardo's yn 2005 a 2006 (gweler Coles, 2005; Clutton a Coles, 2007) i benderfynu ar raddfa camfanteisio'n rhywiol ar blant yng Nghymru, yn ogystal â sefydlu mecanwaith yn seiliedig ar ymchwil ar gyfer nodi plant a phobl ifanc a allai fod mewn perygl. Mae'r SERAF yn gweithredu ar sail nodi bregusrwydd sefydledig a ffactorau risg sy'n cyfateb i sgôr risg[8]. Mae'r sgôr yn pennu'r categori risg a'i gamau gweithredu cysylltiedig i amddiffyn plant. Mae'r fframwaith hwn yn cynorthwyo gweithwyr proffesiynol i asesu lefel risg unigolyn ifanc a hefyd i nodi meysydd lle mae angen cymorth arnynt (gweler er enghraifft Clutton a Coles, 2007). Ym mis Ionawr 2011, i gefnogi SERAF ac arferion amlasiantaeth i ymateb i gamfanteisio'n rhywiol ar blant, cynhyrchodd Llywodraeth Cymru'r canllawiau Amddiffyn Plant a Phobl Ifanc rhag Camfanteisio Rhywiol. Mae'r canllawiau yn nodi'r datblygiadau o ran deall camfanteisio'n rhywiol ar blant ers 2000 ac yn amlinellu'r trefniadau amlasiantaeth a ddylai weithredu yng Nghymru.

3.7 Mae'r canllawiau a'r protocol yn cynnwys diffiniad statudol o gamfanteisio'n rhywiol ar blant sydd wedi'i fabwysiadu gan bartneriaid amlasiantaeth. Nod y canllawiau yw cynorthwyo ymarferwyr i atal camfanteisio'n rhywiol ar blant, diogelu plant a phobl ifanc sydd mewn perygl o gam-drin neu sydd yn cael eu cam-drin drwy gamfanteisio rhywiol, ac amharu ar y rhai sy'n gyfrifol am y math hwn o gam-drin, a'u herlyn. Mae testun diffiniad Cymru fel y'i nodir gan ganllawiau Cymru gyfan yn darllen:

> *Mae camfanteisio'n rhywiol ar blant yn golygu gorfodi plant a phobl ifanc, neu ddylanwadu arnynt, i gymryd rhan mewn gweithgareddau rhywiol. Mae'n fath o gam-drin rhywiol lle mae rhyw fath o daliad yn cael ei gyfnewid a all gynnwys arian, ffonau symudol ac eitemau eraill, cyffuriau, alcohol, lle i aros, 'amddiffyniad' neu anwyldeb. Mae natur agored i niwed yr unigolyn ifanc a'r broses hudo a ddefnyddir gan y rhai sy'n cyflawni'r troseddau yn eu gwneud yn ddi-rym i adnabod natur gamfanteisiol perthnasoedd ac i roi caniatâd gwybodus (LICC 2009: 4).*

[8] Lluniwyd y categorïau hyn o astudiaeth Coles (2005) yng Nghymru, a amlinellodd bedwar categori risg, ar y sail nad yw cyfranogiad gwirioneddol rhai pobl ifanc yn hysbys efallai, sef: heb fod yn wynebu risg; wynebu risg fach; wynebu risg gymedrol; ac wynebu risg sylweddol o gamfanteisio'n rhywiol.

3.8 Fel y byddwn yn trafod drwy gydol yr adolygiad llenyddiaeth hwn, mae iaith unrhyw ddiffiniad yn gysylltiedig â dealltwriaethau ehangach o gamfanteisio'n rhywiol ar blant, ac yn codi cwestiynau pellach ynglŷn â'r dealltwriaethau hyn, a'r ffordd orau i weithredu i ddiogelu plant a phobl ifanc rhag y math hwn o gam-drin.

*Diffiniadau Eraill*

3.9 Yn ogystal â diffiniadau polisi'r pedair gwlad, mae diffiniadau amlwg yn cael eu defnyddio o Barnardo's a'r NSPCC, y mae'r ddau ohonynt wedi deillio o waith gyda phobl ifanc. Defnyddir diffiniad Barnardo's gan y tîm Real Love Rocks, sef uned o fewn Barnardo's, sy'n darparu hyfforddiant ac adnoddau ar gamfanteisio'n rhywiol ar blant. Mae'r diffiniad yn darllen:

> *Camfanteisio'n rhywiol ar blant yw pan fydd unigolyn ifanc yn cael ei ddefnyddio, drwy ei orfodi neu ei dwyllo i wneud rhywbeth rhywiol, ac weithiau'n derbyn rhywbeth yn gyfnewid, fel cariad, anwyldeb, arian, anrhegion, cyffuriau, alcohol neu rywle i aros. Gellir ei wneud yn bersonol neu ar-lein (Barnardo's, 2015[9]).*

3.10 Mae diffiniad NSPCC yn darllen:

> *Mae plant mewn sefyllfaoedd a pherthnasoedd camfanteisiol yn cael rhywbeth fel anrhegion, arian neu anwyldeb o ganlyniad i gyflawni gweithgareddau rhywiol neu bobl eraill yn cyflawni gweithgareddau rhywiol arnynt (NSPCC, 2017[10]).*

3.11 Mae'r ddau ddiffiniad hyn yn llywio ymarfer hefyd. Maent yn ymdrin â llawer o'r un meysydd â'r diffiniadau mewn polisi, fodd bynnag, maent yn cyfrannu at y doreth o ddiffiniadau ychydig bach yn wahanol sy'n cael eu defnyddio ar yr un pryd ledled y DU.

3.12 Mae'r Gweithgor Cenedlaethol ar gyfer Plant a Phobl Ifanc y Camfanteisir yn Rhywiol Arnynt, sy'n sefydliad lefel y DU, yn defnyddio'r diffiniad sydd newydd ei gyflwyno yn Lloegr ochr yn ochr â dau ddiffiniad a ddeilliwyd o waith gyda phobl

[9] Barnardo's (2015) 'What is CSE?' Real Love Rocks. [Darllenwyd 31 Gorffennaf 2017]. Ar gael o: http://www.barnardosrealloverocks.org.uk/what-is-cse-young-person/
[10] NSPCC (2017) 'What is child sexual exploitation?' NSPCC. [Darllenwyd 31 Gorffennaf 2017]. Ar gael o: https://www.nspcc.org.uk/preventing-abuse/child-abuse-and-neglect/child-sexual-exploitation/

ifanc. Mae un yn deillio o’r Grŵp Menywod Ifanc: New Horizons (Prosiect NIA a Chymdeithas y Plant 2008: dyfynnir yn Shuker, 2013:19):

> *Rhywun yn cymryd mantais ohonoch chi’n rhywiol, er eu budd eu hunain. Trwy fygythiadau, llwgrwobrwyon, trais, sarhad, neu drwy ddweud wrthych eu bod yn eich caru chi, bydd y pŵer ganddynt i’ch cael chi i wneud pethau rhywiol er eu budd neu’u mwynhad eu hunain, neu bobl eraill (gan gynnwys: cyffwrdd neu gusanu rhannau preifat, rhyw, tynnu lluniau rhywiol).*

3.13 Daw’r diffiniad arall a ddefnyddir gan y Gweithgor Cenedlaethol o Out of the Box: Young People’s Stories, cyhoeddiad o Brifysgol Swydd Bedford sy’n cynnwys pobl ifanc fel cyd-awduron. Mae’r diffiniad hwn gan bobl ifanc yn fyr, ond yn dal i gyfeirio at rai o’r cysyniadau allweddol a nodwyd ar draws ddiffiniadau o gamfanteisio'n rhywiol ar blant (gweler adrannau 3.28-3.33): ‘*Pan nad ydych chi’n gwybod beth yw eich dewisiadau, dyna pryd fydd yr holl bŵer gan bobl eraill’* (Pearce 2015: 16). Cyn y rhain, roedd gan y Gweithgor Cenedlaethol ddiffiniad gwahanol ac roedd hwnnw’n cael ei ddefnyddio gan asiantaethau ledled y DU hefyd.

3.14 Mae pob un o'r diffiniadau hyn yn ymdrin â phynciau cysylltiedig, mewn ffyrdd tebyg gan amlaf, fodd bynnag, mae'r defnydd o nifer o ddiffiniadau gyda gwahaniaethau bach hyd yn oed yn bwysig o ystyried yr amrywiaeth sy'n bodoli o fewn y maes hwn. Mae ymwybyddiaeth a dealltwriaethau o gamfanteisio'n rhywiol ar blant yn dal i gael eu datblygu i raddau helaeth, ac mae’r llu o ddiffiniadau sy’n cael eu defnyddio yn tystio i hyn.

*Cam-drin Plant yn Rhywiol a Chamfanteisio'n Rhywiol ar Blant*

3.15 Fel y nodwyd yn flaenorol yn niffiniadau Cymru a Lloegr, mae camfanteisio'n rhywiol ar blant yn ffurf o gam-drin plant yn rhywiol. Roedd dod â chamfanteisio'n rhywiol ar blant o dan ymbarél cam-drin plant yn rhywiol yn rhan bwysig o symud tuag at gydnabod camfanteisio'n rhywiol ar blant fel cam-drin. Fodd bynnag, mae hyn wedi achosi dryswch posibl oherwydd yn anochel, ceir gorgyffwrdd rhwng yr hyn a elwir yn gamfanteisio'n rhywiol ar blant a cham-drin plant yn rhywiol. Gwelir rhywfaint o dystiolaeth o’r dryswch hwn yn y berthynas rhwng adroddiadau Swyddfa’r Comisiynydd Plant ar gamfanteisio’n rhywiol ar blant mewn gangiau a grwpiau, ac ar gam-drin plant yn rhywiol o fewn y teulu (Berelowitz et al., 2013;

Horvath et al., 2014). Canfu'r ymchwiliad cynharach dystiolaeth bod plant yn profi'r hyn a ddeellir yn draddodiadol fel cam-drin plant yn rhywiol o fewn teulu, a hefyd camfanteisio'n rhywiol ar blant gan rwydweithiau o gamfanteiswyr wedi'u trefnu, a arweiniodd at gomisiynu'r ail adroddiad gan edrych yn benodol ar gam-drin o fewn teulu, ond heb lawer o sylw pellach i'r cysylltiadau uniongyrchol a ganfuwyd mewn rhai achosion yn yr ymchwiliad cyntaf. Fel y byddwn yn trafod yn adran 3.24, ceir camsyniad cyffredin, yn gysylltiedig â hyn, bod camfanteisio'n rhywiol ar blant yn digwydd y tu allan i'r teulu a bod cam-drin plant yn rhywiol yn digwydd o fewn y teulu, ac nid yw hyn o unrhyw gymorth wrth fynd i'r afael ag achosion lle ceir gorgyffwrdd rhwng y mathau hyn o gam-drin.

3.16 Gall fod rhaid mynd i'r afael â'r amwyseddau hyn ar lawr gwlad wrth ddatblygu polisi a chanllawiau ymarfer. Mae canllawiau Bwrdd Diogelu Efrog ar Gam-drin Plant yn Rhywiol a Chamfanteisio'n rhywiol ar blant yn un enghraifft o waith o'r fath (Bwrdd Diogelu Plant Dinas Efrog, 2014). Mae canllawiau Efrog yn darparu manylion am y canllawiau cenedlaethol ar Gam-drin Plant yn Rhywiol a Chamfanteisio'n rhywiol ar blant, tra hefyd yn mynd i'r afael ag achosion o orgyffwrdd rhwng, a dryswch ynghylch, pynciau yn cynnwys Cam-drin plant yn rhywiol, ymddygiad rhywiol niweidiol gan blant a phobl ifanc, Camfanteisio'n rhywiol ar blant mewn grwpiau wedi'u trefnu, Camfanteisio'n rhywiol ar blant mewn ffurfiau eraill, masnachu rhyw yn fewnol ac yn rhyngwladol, a'r gwahaniaeth rhwng cam-drin o fewn y teulu a thu allan i'r teulu (neu ddiffyg gwahaniaeth o'r fath). Mae'r canllawiau hyn yn enghraifft o ymdrech leol i fynd i'r afael â'r achosion hyn o orgyffwrdd ac amwyseddau yn Lloegr, lle nad oes protocol cenedlaethol ar gyfer ymateb i gamfanteisio'n rhywiol ar blant.

**Deall camfanteisio'n rhywiol ar blant**

3.17 Fel y soniwyd yn adran 3.2, nod symud i ffwrdd oddi wrth iaith 'puteindra plant' oedd chwalu'r syniad y gall plant a phobl ifanc fod ar fai am y cam-drin rhywiol a brofir ganddynt os gellir canfod eu bod yn elwa ohono mewn rhyw ffordd (Pearce, 2009; Hallett, 2017). Gellir gweld canlyniad y newid polisi bwriadol hwn mewn diffiniadau polisi cyfoes y DU o gamfanteisio'n rhywiol ar blant, fel yn y cyfeiriad yn niffiniad yr Alban at amherthnasedd 'caniatâd tybiedig' a hyd yn oed yn fwy amlwg yn niffiniad Cymru sydd o'r farn nad yw pobl ifanc sydd wedi cael profiad o gamfanteisio'n rhywiol ar blant yn gallu gweld natur gamfanteisiol eu profiadau ac

felly nid ydynt yn gallu cydsynio. Mae diffiniad yr Alban hefyd yn cysylltu’r agwedd hon ar gamfanteisio'n rhywiol ar blant yn benodol â ffurfiau eraill ar gam-drin plant yn rhywiol, ond mae’r angen i bennu amherthnasedd cydsyniad neu ganiatâd tybiedig yn cydnabod nad oedd camfanteisio’n rhywiol ar blant yn cael ei adnabod fel cam-drin yn hanesyddol[11]. Gall gwahaniaethu rhwng camfanteisio'n rhywiol ar blant a mathau eraill o gam-drin plant yn rhywiol fynd rhywfaint o’r ffordd tuag at fynd i'r afael â chymhlethdodau camfanteisio'n rhywiol ar blant, fodd bynnag nid yw hyn yn syml bob amser, ac mae'r amrywiadau ymysg diffiniadau’r pedair gwlad o gamfanteisio'n rhywiol ar blant yn arwydd o'r cymhlethdodau hyn.

*Camsyniadau*

3.18 Er bod ymwybyddiaeth gynyddol o gamfanteisio’n rhywiol ar blant o fewn cyd-destunau proffesiynol, ac ymhlith y cyhoedd, ceir tystiolaeth sy’n awgrymu mai cyfyngedig yw’r ddealltwriaeth hon. Ceir rhai camsyniadau a chamddealltwriaethau cyffredin ynghylch camfanteisio'n rhywiol ar blant sy'n amlwg yn y llenyddiaeth ymchwil (gweler hefyd Hallett, 2017). Mae’r rhain yn cynnwys:

- ‘Mae meithrin perthynas amhriodol yn derm arall ar gyfer disgrifio camfanteisio'n rhywiol ar blant’. ‘Rhaid i feithrin perthynas amhriodol ddigwydd bob amser mewn achosion o gamfanteisio rhywiol’;
- ‘Nid yw dioddefwyr camfanteisio rhywiol yn arddangos gweithrediad personol’;
- ‘Mae dioddefwyr yn fenywod’;
- ‘Mae camdrinwyr bob amser yn ddynion’;
- ‘Nid yw camdrinwyr yn gweithredu ar eu pennau’u hunain’;
- ‘Mae camdrinwyr yn oedolion’;
- ‘Mae camfanteisio’n rhywiol ar blant yn digwydd y tu allan i’r teulu’.

[11] Bydd cwestiynau ynghylch y syniad o gydsyniad yn cael eu trafod yn fanylach yn Adrannau 3.29-3.31.

Mae'r adrannau canlynol yn ymdrin â phob un o’r camsyniadau uchod, yn ogystal â materion eraill yn ymwneud â chamfanteisio’n rhywiol ar blant sy'n cael eu colli weithiau mewn trafodaethau ehangach ynglŷn â’r broblem.

*Magu Perthynas Amhriodol*

3.19 Cafodd ‘meithrin perthynas amhriodol’ a ystyrir weithiau yn rhan annatod o gamfanteisio rhywiol, ei ddileu o ddiffiniad Lloegr ar ôl yr ymgynghoriad diweddar, er mai un o brif ganfyddiadau’r ymgynghoriad oedd bod llawer o'r ymatebwyr yn benodol am i ‘meithrin perthynas amhriodol’ aros yn y diffiniad statudol o gamfanteisio'n rhywiol ar blant (Llywodraeth EM 2017b). Mae meithrin perthynas amhriodol yn digwydd, ond nid yw yn bresennol, ym mhob achos o gamfanteisio rhywiol ar blant, a gall rhoi gormod o bwyslais ar y model hwn arwain at ymatebion annigonol (Llywodraeth EM, 2017b; Cockbain, 2013; Hallett, 2017). Mae’r dybiaeth bod meithrin perthynas amhriodol a chamfanteisio'n rhywiol ar blant yn ymgyfnewidiol yn achosi problemau am y rheswm syml y gall ymyrryd ag adnabod arwyddion o gamfanteisio’n rhywiol ar blant (Melrose, 2013; Hallett, 2017).

*Gweithrediad Personol*

3.20 Cwestiwn gweithrediad personal[12] yw un o’r agweddau mwyaf cymhleth ar gamfanteisio’n rhywiol ar blant, ac mae iddo ganlyniadau pellgyrhaeddol i ddealltwriaethau o gamfanteisio’n rhywiol ar blant mewn ymchwil, polisi ac ymarfer. Mae'n amlwg o ddatblygiad camfanteisio'n rhywiol ar blant fel term pa mor bwysig yw’r cysyniad hwn; nod rhannol ailddiffinio ‘puteindra plant’ yn ‘gamfanteisio’n rhywiol ar blant yw atal pobl ifanc rhag cael eu trin fel troseddwyr os canfyddir eu bod yn cydsynio i gyfnewid rhyw (gweler Hallett, 2017). Cynrychiolir hyn yn iaith y polisi, gan gynnwys, yn neilltuol o glir, yn iaith diffiniad Cymru. Fodd bynnag, mae'n bwysig cydnabod nad yw gweithrediad personol pobl ifanc sydd wedi cael profiad o gamfanteisio'n rhywiol ar blant yn gwestiwn syml, fel y trafodwn ymhellach (gweler adran 3.29-3.32).

[12] Gweithrediad personol yw ein gallu a’n dealltwriaeth o'n gallu i ddirnad, cychwyn, gwneud penderfyniadau a dewisiadau ac i weithredu. Dealltwriaeth o blant fel actorion cymdeithasol yn cynnal gweithrediad yw'r hyn sy'n sylfaen i gymdeithaseg newydd plentyndod ac egwyddorion CCUHP (gweler James a Prout, 1997).

*Rhyw*

3.21 Chwedl ydyw mai dim ond merched y gellir camfanteisio’n rhywiol arnynt, er mai merched yw’r rhan fwyaf o bobl ifanc sydd wedi cael profiad o gamfanteisio'n rhywiol ar blant, a dynion yw’r mwyafrif sy’n camfanteisio. Mae Coy (2016) yn gwneud y pwynt pwysig y gall osgoi natur yn seiliedig ar rhywedd y mwyafrif o achosion o gamfanteisio’n rhywiol ar blant amharu ar ymdrechion i fynd i'r afael â chamfanteisio'n rhywiol ar blant fel problem gymdeithasol. Nid yw cydnabod bod patrwm yn gysylltiedig â rhywedd i’r mwyafrif o achosion o gamfanteisio’n rhywiol ar blant, fodd bynnag, yn golygu na all bechgyn fod yn destun camfanteisio rhywiol, na golygu na all menywod gamfanteisio’n rhywiol. O safbwynt ymdrechion o fewn y maes gofal cymdeithasol i nodi achosion o gamfanteisio'n rhywiol ar blant a datblygu ymyriadau i helpu pobl ifanc unigol, mae'n bwysig cydnabod y gall bechgyn a dynion fod, a bod bechgyn a dynion ifanc yn destun camfanteisio rhywiol, ac mae llawer o resymau hefyd pam nad yw camfanteisio rhywiol ar fechgyn yn cael ei gofnodi’n ddigonol efallai (gweler Lilywhite a Skidmore, 2006). Yn ogystal, efallai nad yw bechgyn a dynion ifanc yn lleiafrif mor fach o achosion o gamfanteisio rhywiol ag y tybir weithiau; mae ymchwil Barnardo's o 2014 yn canfod bod tua thraean o ddefnyddwyr gwasanaeth camfanteisio'n rhywiol ar blant ar draws y DU yn wryw, sef cyfran lawer uwch nag a ganfuwyd mewn ymchwil flaenorol, ar raddfa lai (Cockbain, Brayley a Ashby, 2014).

*Gang/Grŵp a Chamfanteisio Unigol*

3.22 Mae cysylltu camfanteisio'n rhywiol ar blant yn y meddylfryd cyhoeddus ag achosion proffil uchel megis Rochdale a Rotherham wedi arwain at ragdybiaethau bod camfanteisio'n rhywiol ar blant yn cael ei gyflawni i raddau helaeth gan gangiau neu grwpiau cyfundrefnol fel arall. Fodd bynnag, mae camfanteisio rhywiol yn gallu digwydd, ac yn digwydd oherwydd trais gan unigolion nad oes ganddynt unrhyw gysylltiadau â grwpiau ehangach (Cockbain, 2013; Hallett, 2017). Dyma faes arall lle gall gor-ddibynnu ar gamsyniadau ynghylch natur camfanteisio'n rhywiol ar blant atal achosion rhag dod i'r amlwg a chael ymateb priodol.

*Camfanteisio gan Gyfoedion*

3.23 Ers cyflwyno camfanteisio'n rhywiol ar blant i bolisi ac arfer, cafwyd adroddiadau cynyddol o gamfanteisio gan gyfoedion (gweler Barnardo's, 2013). Canfu Ymchwiliad Swyddfa Comisiynydd Plant Lloegr i Gamfanteisio'n Rhywiol mewn Gangiau a Grwpiau bod 29% o'r cyflawnwyr o dan 19 oed, a bod camfanteisio’n gysylltiedig â gangiau neu grwpiau yn arbennig yn fwy tebygol na chamfanteisio gan gyflawnwr unigol o gynnwys cyflawnwyr iau (Berelowitz et al., 2013). Gall natur gymhleth rhai achosion cyfundrefnol o gamfanteisio'n rhywiol ar blant gynnwys pobl ifanc (a allent fod yn destun camfanteisio rhywiol eu hunain neu beidio) sy'n ymwneud â chamfanteisio neu hwyluso camfanteisio (Barnardo's, 2013). Yn ogystal, ceir tebygrwydd clir rhwng rhai mathau o gamfanteisio'n rhywiol ar blant a thrais ar blant yn eu harddegau/cyfoedion (Pearce 2009). Fodd bynnag, mae ymchwil yn awgrymu hefyd y gall fframweithiau camfanteisio'n rhywiol ar blant a fframweithiau cam-drin domestig ar gyfer oedolion fod yn annigonol i fynd i'r afael â chymhlethdodau trais o fewn perthnasoedd rhwng pobl ifanc (Jago et al., 2011; Firmin, 2013). Eto, mae gwirioneddau’r llu o arwyddion o gamfanteisio'n rhywiol ar blant yn golygu ei bod yn angenrheidiol i herio'r dybiaeth fod modd adnabod camfanteisio'n rhywiol ar blant yn unffurf fel oedolyn yn camfanteisio ar blentyn. Dylai’r cyflawnwyr sydd yn blant eu hunain sicrhau ymateb yn unol â pholisi a chanllawiau ar ymddygiadau rhywiol niweidiol[13].

*Teulu*

3.24 Mae amlygrwydd y model meithrin perthynas amhriodol wedi arwain at gamsyniad o’r cyflawnwr sy’n oedolion unigol neu’n gysylltiedig â gangiau sydd y tu allan i'r teulu. Mae camfanteisio’n rhywiol ar blant yn gallu digwydd, ac yn digwydd o fewn teuluoedd. Nid y cyd-destun lle mae’r cam-drin yn digwydd sy’n gwahaniaethu rhwng cam-drin plant yn rhywiol a chamfanteisio'n rhywiol ar blant, ac nid hyn ddylai gyfeirio’r ymateb ymarfer priodol. Fodd bynnag, er enghraifft, gall y camsyniad hwn arwain at wrthod ymateb gan y gwasanaethau cymdeithasol i achosion lle ceir camfanteisio'n rhywiol ar blant oherwydd nid ystyrir ei fod yn fater teuluol. Comisiynodd Swyddfa Comisiynydd Plant Lloegr adroddiad ar gam-drin plant yn rhywiol o fewn teuluoedd o ganlyniad i'r canfyddiadau i ymchwiliad

[13] Diffinnir fel ymddygiadau rhywiol niweidiol yn Lloegr.

cynharach y Swyddfa i gamfanteisio rhywiol yn cael ei arwain gan gangiau a grwpiau (Horvath et al., 2014; Berelowitz et al., 2013). Un anhawster a nodwyd yn yr ymchwiliad i gamfanteisio'n rhywiol ar blant mewn gangiau a grwpiau oedd ei bod mewn rhai achosion, lle'r oedd camfanteisio rhywiol yn digwydd y tu allan i'r teulu, yn anodd rhoi cyfiawnhad dros gynnwys y gwasanaethau cymdeithasol, oherwydd protocolau sy'n canolbwyntio ar amddiffyn plant rhag risg o fewn y teulu (Berelowitz et al., 2013). Ar yr un pryd, gall y pwyslais hwn ar gam-drin y tu allan i'r teulu amharu ar adnabod achosion o gamfanteisio'n rhywiol ar blant sydd yn ymwneud â chamfanteisio o fewn neu gan y teulu (Harper a Scott, 2005). Mae'n bwysig cydnabod y gall plant a phobl ifanc fod yn destun camfanteisio'n rhywiol gan unrhyw un, ac y gall hyn fod yn uniongyrchol gysylltiedig â mathau eraill o gam-drin rhywiol.

*Meysydd Pryder Ychwanegol*

3.25 Fel y dynoda'r camsyniadau hyn, ceir syniad ystrydebol o bwy sy'n destun camfanteisio rhywiol, nad yw'n cynrychioli ystod lawn y camfanteisio rhywiol ar blant fel y mae'n digwydd. Mae Fox (2016) yn nodi'r syniad bod dioddefwyr yn fenywod ifanc heterorywiol, gwyn yn bennaf. Ceir llawer o blant a phobl ifanc sy'n cael profiad o gamfanteisio rhywiol, ond nad yw'r dioddefwr ystrydebol hwn yn eu cynrychioli. Yn ychwanegol at y camsyniadau uchod, gallai plant a phobl ifanc sy'n destun camfanteisio rhywiol gael eu colli am y cânt eu categoreiddio yn y ffyrdd canlynol:

*Ethnigrwydd*

Mae achosion proffil uchel o gamfanteisio'n rhywiol ar blant sy'n ymwneud â grwpiau wedi'u trefnu o ddynion o dras Asiaidd wedi arwain at ganfyddiad poblogaidd o gamfanteisio rhywiol ar blant fel rhywbeth sy'n ymwneud â rheibwyr Asiaidd a dioddefwyr Gwyn (Cockbain, 2013). Nid yw hyn yn cynrychioli gwir gwmpas camfanteisio'n rhywiol ar blant fodd bynnag, a gall cyflawnwyr a dioddefwyr fod o unrhyw ethnigrwydd. Adrodda Fox (2016), ymysg defnyddwyr gwasanaeth camfanteisio'n rhywiol ar blant Barnardo's yn 2014-2015, mai plant a phobl ifanc gwyn Prydeinig oedd y mwyafrif (64%), ond mai 86% o'r boblogaeth ehangach yw'r grŵp hwn.

*Cyfeiriadedd Rhywiol a Hunaniaeth o ran Rhywedd*

3.26 Ar gyfer pobl ifanc sydd yn hoyw neu'n ddeurywiol nad oes ganddynt deulu cefnogol neu gymuned lle maent yn teimlo y gall eu hunaniaeth rywiol gael ei derbyn, gall bod yn agored i gamfanteisio rhywiol ddod o geisio cymuned drwy wasanaethau cariadon ar y we neu'r ffôn symudol ar gyfer oedolion, neu drwy ymweld ag ardaloedd sy'n hysbys am ryw cyhoeddus ymhlith dynion (Fox, 2016; Hallett, 2017). Gall fod diffyg ymatebion proffesiynol i ferched sy'n destun camfanteisio'n rhywiol gan fenywod hŷn oherwydd diffyg cydnabyddiaeth neu ddealltwriaeth o natur gamfanteisiol y berthynas lesbiaidd, sydd fwy na thebyg yn deillio o farnau ystrydebol o rywioldeb, menywod, a'r gymuned lesbiaidd (Fox, 2016). Ar y llaw arall, mae ymarferwyr wedi adrodd y gallai perthnasoedd camfanteisiol rhwng menywod hŷn a menywod lesbiaidd neu ddeurywiol ifanc gael eu nodweddu'n aml gan ynysu eithafol o gymuned neu fathau eraill o gymorth, sy'n gallu gwneud adnabod ac ymyrraeth yn anodd (Walker, 2014; Fox, 2016). Er nad oes fawr o arweiniad clir yn ymwneud â phlant a phobl ifanc trawsryweddol a chamfanteisio'n rhywiol ar blant, tybir yn gyffredinol y gall hunaniaeth traws, yn arbennig ar gyfer y rhai heb deulu sy'n cefnogi eu hunaniaeth o ran rhywedd, fod yn nodwedd agored i niwed y gallai oedolion fanteisio arni (Fox 2016).

*Anabledd*

3.27 Gwyddys bod gorgynrychiolaeth o blant a phobl ifanc anabl ymysg poblogaethau sydd wedi bod yn destun cam-drin a chamfanteisio, er bod ymchwil yn gyfyngedig ar y cyswllt hwn ac mae'n debygol bod nifer o ffactorau cyfrannol (Fox, 2016). Gallai rhai plant sydd ag anawsterau dysgu gael trafferth datgelu cam-drin (Murray ac Osbourne, 2009). Hefyd, gallai arwyddion o gam-drin cael eu colli oherwydd anabledd y plentyn a/neu yr anhawster y gallai oedolion ei gael o ran mynd i'r afael â'r syniad y gallai plentyn anabl gael ei gam-drin yn y fath fodd (Barnardo's, 2015b; Franklin a Smeaton, 2017).

**Cysyniadau Allweddol**

3.28 Yn yr adrannau canlynol rydym yn trafod rhai o'r materion sy'n ganolog i ddeall camfanteisio'n rhywiol ar blant. Cynrychiolir pob un o'r cysyniadau hyn yn y rhan fwyaf o ddiffiniadau o gamfanteisio'n rhywiol ar blant a ddefnyddir ar hyn o bryd,

ond mae cymhlethdodau ynghlwm â’r syniadau hyn nad eir i’r afael â nhw bob amser.

*Cydsyniad ac Asiantaeth*

3.29 Mae mater cydsyniad yn ganolog i ddiffiniadau o gamfanteisio’n rhywiol ar blant, yn rhannol oherwydd y datblygwyd y fframwaith polisi ar gyfer camfanteisio'n rhywiol ar blant i ddisodli’r cyd-destun polisi 'puteindra plant', oedd yn caniatáu i blant dan oed gael eu gweld fel troseddwyr os gwnaed iawn iddynt am weithgarwch rhywiol. Mae nodweddu camfanteisio’n rhywiol ar blant fel ymddygiadau troseddu sy’n gysylltiedig â phuteindra[14] ar ran y plentyn neu’r unigolyn ifanc yn dibynnu ar y syniad eu bod wedi cydsynio, a’u bod felly yn gyfrannog yn eu cam-drin eu hunain; ac roeddent ar fai felly ac nid yn gymaint o ddioddefwr na thramgwyddwr. Gwelir tystiolaeth o hyn yn Diogelu Plant sy’n Ymwneud â Phuteindra:

> *“Mae’r Llywodraeth yn cydnabod y gall fod achlysuron, ar ôl i bob ymdrech i ailgyfeirio allan o buteindra fethu, pan y gallai fod yn briodol i’r rheiny sydd yn wirfoddol ac yn ddyfal barhau mewn puteindra i fynd i mewn i'r system cyfiawnder troseddol yn yr un ffordd â throseddwyr ifanc eraill... Nid oes unrhyw beth yn y canllawiau hyn sy’n dad-droseddoli llithio, loetran a phlagio gan blant ar y stryd neu mewn mannau cyhoeddus"(Yr Adran Iechyd, 2000: 10, dyfynnwyd gan Hallett, 2017: 20)*

Hyd yn oed ar ôl datblygu camfanteisio'n rhywiol ar blant fel polisi a fframwaith cyfreithiol, mae amgyffrediad bod pobl ifanc yn 'cydsynio' i gamfanteisio (ac felly rywsut nid yn ddioddefwyr cam-drin yn union) wedi parhau.

3.30 Fodd bynnag, nid yw mater cydsyniad mor syml â hyn, ac mae'r syniad o gamfanteisio’n rhywiol ar blant fel rhywbeth sy'n digwydd yn absenoldeb llwyr gweithrediad personol ar ran yr unigolyn ifanc yn achosi problem. Mae'n wir y gall pobl ifanc sydd wedi cael profiad o gamfanteisio'n rhywiol ar blant fethu â chydnabod eu profiadau fel rhai camfanteisiol (Munro, 2004, Fox 2016), ac mae'n bwysig cydnabod hyn. Fodd bynnag, mae llawer o bobl ifanc yn deall natur gamfanteisiol y sefyllfaoedd a pherthnasau y cânt brofiad ohonynt – eto, gallant

[14] “rhwng 1989 a 1995 cafodd bron i 4000 o rybuddion gan yr heddlu [am droseddau’n gysylltiedig â phuteindra] eu rhoi i bobl ifanc rhwng 10 a 18 oed" (Hallett, 2017: 16 – gweler hefyd Ayre a Barrett, 2000).

barhau i'w chael hi'n anodd i ddatgelu neu i ofyn am help (Beckett, 2011). Efallai eu bod hefyd yn deall eu bod yn destun camfanteisio, ond yn dal i weld mai camfanteisio yw'r opsiwn gorau sydd ar gael iddynt o fewn cyd-destun ystod o ddewisiadau cyfyngedig (Hallett, 2015; 2017). Gallant hefyd weld eu profiadau fel rhai camfanteisiol ond bod ganddynt ymdeimlad cythryblus o weithrediad, sy'n golygu eu bod yn teimlo fod y cam-drin i'w ddisgwyl neu'n dderbyniol (Hallett, 2017). Mae cydnabod (ymdeimlad o) weithrediad personol unigolyn ifanc yn rhan bwysig o adferiad. Ar yr un pryd, fodd bynnag, mae'r angen i bwysleisio na all pobl ifanc o dan 16 oed roi cydsyniad i ryw yn gyfreithiol yn bwysig, a gall diffyg cydnabyddiaeth o hyn gan ymarferwyr arwain at fethiannau diogelu (Jago et al., 2011).

3.31 Yn hytrach na chanolbwyntio ar gydsyniad/diffyg-cydsyniad, mae awduron wedi awgrymu y gall canolbwyntio ar 'amodau cydsyniad' fod yn fwy priodol (gweler Pearce, 2013; Coy 2016; Hallett, 2017). Mae Hallett (2017) yn dadlau bod cysylltiad agos rhwng camfanteisio'n rhywiol ar blant â phroblemau ac anawsterau eraill sydd gan bobl ifanc. Mae bodloni (a chamfanteisio ar) anghenion nas diwallwyd sy'n sail i gyfnewid rhyw yn ganolog i ddealltwriaeth o gamfanteisio'n rhywiol. Prin y bydd camfanteisio rhywiol heb amgylchiadau ac anawsterau cymhleth. Gall ffactorau seico-economaidd-gymdeithasol fel rhywioldeb, agweddau at ryw, ac anghenion materol, emosiynol ac economaidd bob un ohonynt fod â rhan yn y rhesymau y tu ôl i gyfranogiad plant a phobl ifanc. Rhaid deall ymddygiadau mentrus a chamfanteisio rhywiol ar blentyn neu unigolyn ifanc yng nghyd-destun eu bywydau bob dydd ac amgylchiadau, a'r bregusrwydd a'r risgiau a all arwain unigolyn i deimlo'n fregus, a hefyd chwilio am ffyrdd i ymateb i'r teimladau hynny o fregusrwydd a diymadferthedd.

*Cyfnewid*

3.32 Mae'r cysyniad o gyfnewid[15] yn sylfaenol i ddealltwriaethau o gamfanteisio'n rhywiol ar blant. Dyma beth sy'n ei wneud yn wahanol i ffurfiau eraill ar gam-drin plant ac yn ei wneud yn gamdriniol hyd yn oed mewn achosion lle gall yr unigolyn ifanc, fel y trafodwyd uchod, ymddangos ei fod, neu'n ystyried ei fod yn 'cydsynio' i'r camfanteisio (gweler Hallett, 2017). Yn ddealladwy, mae rhyw syniad o gyfnewid

[15] Gallai enghreifftiau o hyn gynnwys cyfnewid rhyw fath o weithgarwch rhywiol am le i aros, arian, alcohol neu gyffuriau – gweler hefyd Green, 1992.

yn ymddangos ym mhob un o ddiffiniadau pedair gwlad y DU a sefydliadau'r trydydd sector a drafodwyd yn gynharach, er nad yw pob un ohonynt yn defnyddio’r gair. Pwysleisia Hallett (2017) yn arbennig mai’r elfen o gyfnewid yn adroddiadau pobl ifanc o gamfanteisio’n rhywiol sy’n gwneud y camfanteisio rhywiol yn unigryw, ac yn helpu i ddarparu fframwaith ar gyfer deall profiadau unigol pobl ifanc y camfanteisir yn rhywiol arnynt. Codir hyn hefyd yn niffiniadau’r bobl ifanc a drafodwyd yn gynharach (gweler adrannau 3.9-3.14).

*Pŵer*

3.33 Mae pŵer yn gysyniad pwysig yn niffiniadau Cymru, Lloegr a'r Alban o gamfanteisio’n rhywiol ar blant, yn ogystal ag yn y ddau ddiffiniad gan bobl ifanc a ddefnyddir gan y Gweithgor Cenedlaethol. Mae'r diffiniadau yn Lloegr a'r Alban yn canolbwyntio ar sut y gall rhywun fanteisio ar anghydbwysedd mewn pŵer sydd efallai yn bodoli eisoes rhwng camfanteisiwr a phlentyn neu unigolyn ifanc[16]. Yn niffiniad Cymru, mae’r ffocws ar sut mae’r unigolyn ifanc yn ‘ddi-rym’ i ddeall ei fod yn destun camfanteisio, sydd, fel y trafodwyd yn adrannau 3.50-3.56 yn achosi problem yng ngoleuni ymchwil ar ganfyddiadau pobl ifanc o’u camfanteisio eu hunain. Mae'n nodedig felly bod y cysyniad o rym yn cael ei godi’n wahanol yn nau ddiffiniad y Gweithgor Cenedlaethol; mae’r bobl ifanc a gyfrannodd at y diffiniadau hyn wedi nodi bod yr anghydbwysedd fel rhywbeth sy'n deillio o'r sefyllfa gamfanteisiol ei hun yn hytrach na rhywbeth sydd o reidrwydd yn bodoli y tu allan iddi[17].

### Adnabod ac Ymateb i Gamfanteisio'n Rhywiol ar Blant

3.34 Symudwn yn awr i ystyried llenyddiaethau sy'n ymwneud ag adnabod ac ymateb i gamfanteisio'n rhywiol ar blant.

[16] Gall cynnwys gwahaniaethau pŵer yn y diffiniadau hyn o gamfanteisio’n rhywiol ar blant fod o gymorth hefyd i nodi achosion lle nad yw’r sawl sy’n camfanteisio lawer yn hŷn a/neu yn blentyn dan oed ei hun, sydd yn bwysig o ystyried tystiolaeth bod camfanteisio'n rhywiol ar blant rhwng cyfoedion yn cael ei adrodd fwyfwy (Barnardo's, 2013).

[17] Er enghraifft, efallai nad yw’r anghydbwysedd pŵer yn codi o reidrwydd dim ond am fod yr unigolyn yn blentyn neu’n unigolyn ifanc. Mae pobl ifanc wedi adrodd pe na bai unrhyw beth i fanteisio arno – dim unrhyw angen a oedd yn eu gadael mewn sefyllfa o ddiffyg grym tuag at y rheiny a allai ddiwallu (a cham-drin) yr angen hwnnw – yna ni fyddai unrhyw gamfanteisio (gweler Hallett, 2015).

*Asesu*

3.35 Ers i gamfanteisio'n rhywiol ar blant gael ei gyflwyno mewn polisïau mae llawer o ddatblygiadau wedi bod o ran adnoddau asesu, yn fwyaf nodedig, datblygu offeryn SERAF ei hun. Crëwyd adnoddau asesu penodol ar gyfer camfanteisio'n rhywiol ar blant yn wreiddiol oherwydd diffyg ymwybyddiaeth o gamfanteisio’n rhywiol ar blant a natur guddiedig y cam-drin – gallai adnoddau asesu ddwyn ynghyd bryderon na ellid mo’u hegluro drwy’r mecanweithiau gofal cymdeithasol a fodolai, a gwneud i bobl ‘feddwl ynghylch camfanteisio'n rhywiol ar blant' hefyd. (gweler Clutton a Coles, 2007). Er bod adnodd asesu SERAF yn cael ei ddefnyddio ledled Cymru, nid oes gan weddill y DU adnoddau cenedlaethol unedig. Yn Lloegr, mae nifer o brotocolau asesu risg gwahanol, ond, yn wahanol i Gymru, nid oes unrhyw ganllawiau cenedlaethol ynghlwm wrthynt[18].

3.36 Yn ogystal ag ym maes gofal cymdeithasol, gellir nodi camfanteisio'n rhywiol ar blant ar sawl pwynt – mae gweithwyr ieuenctid, plismona ymarferwyr a’r rheiny yn y sectorau addysg ac iechyd mewn sefyllfa dda i nodi camfanteisio'n rhywiol ar blant. Mae Grŵp Prif Swyddogion Ieuenctid Cymru wedi datblygu canllawiau mewnol sy'n gysylltiedig â chamfanteisio'n rhywiol ar blant (Grŵp Prif Swyddogion Ieuenctid Cymru, 2015). Enghraifft ddiweddar arall o ddatblygiadau yn y dulliau asesu yng Nghymru yw’r Holiadur Risg Camfanteisio’n Rhywiol ar Blant (CSERQ15 neu CSERQ4) (Cook, 2016). Defnyddir y CSERQ yng Nghymru gan ymarferwyr gofal iechyd fel offeryn mwy perthnasol i weithrediad a rôl na'r fframwaith SERAF llawn; i'w galluogi i asesu risg camfanteisio'n rhywiol ar blant mewn cleifion yn gyflym a heb gyfeirio at wybodaeth na fyddai ganddynt fynediad iddi. Mae gan yr heddlu, asiantaeth sydd heb ei datganoli, 'Faner camfanteisio'n rhywiol ar blant' i swyddogion ei defnyddio fel rhan o'u hasesiadau.

3.37 Wrth ymateb i gamfanteisio'n rhywiol ar blant, bu’r ffocws o fewn gofal cymdeithasol i raddau helaeth ar nodi pobl ifanc a natur y risg a bregusrwydd mewn achosion o gamfanteisio'n rhywiol ar blant. Mae diffyg ymchwil ar ffactorau gwydnwch a sut gall y rhain ddylanwadu ar risg plentyn neu unigolyn ifanc o

[18] Ar adeg cwblhau'r adroddiad hwn, lansiodd y Gweithgor Cenedlaethol offeryn asesu i'w ddefnyddio yn Lloegr, fodd bynnag, nid yw hwn ynghlwm wrth unrhyw ganllawiau ffurfiol.

ddioddef camfanteisio rhywiol ar blant[19], er y cydnabyddir pwysigrwydd meithrin gwydnwch (Berelowitz et al., 2013)[20]. Mae ymchwil yng Nghymru ar nodi ffactorau amddiffynnol a'u cysylltiad ag ymyriadau a chanlyniadau ar gyfer pobl ifanc sydd mewn perygl o ddioddef camfanteisio rhywiol i'w gwblhau ym mis Tachwedd 2018[21].

3.38 Ymchwil werthusol gyfyngedig sydd ar ddefnyddio protocolau asesu. Mae prosiect yn mynd rhagddo ar hyn o bryd o'r Ganolfan Arbenigedd ar Gam-drin Plant yn Rhywiol ar 'ddefnyddio offer a rhestri gwirio i asesu risg camfanteisio'n rhywiol ar blant', sy'n edrych ar yr hyn sy'n cael ei ddefnyddio ledled Cymru a Lloegr. Mae canfyddiadau o'r astudiaeth hon yn yr arfaeth, a disgwylir cyhoeddi erbyn mis Tachwedd 2017. Mae hyn yn dilyn ymlaen o waith cynharach ar gyfer y Sefydliad Ymyrraeth Gynnar a edrychodd ar y sylfaen dystiolaeth ar gyfer dulliau asesu risg i gamfanteisio'n rhywiol ar blant a cham-drin plant yn rhywiol, a chanfu brinder tystiolaeth ymchwil (Brown et al, 2016).

*Atal*

3.39 Gellir ystyried ymdrechion atal mewn dwy ffordd: ymdrechion ar raddfa fwy i atal camfanteisio'n rhywiol ar blant drwy godi ymwybyddiaeth a darparu addysg ar lefel poblogaeth, ac ymdrechion unigol i atal camfanteisio'n rhywiol ar blant mewn achosion lle mae plentyn neu unigolyn ifanc yn arbennig o agored i niwed. Caiff addysg rhyw a chydberthynas briodol ei nodi mewn ymchwil fel offeryn atal pwysig, a nod datblygiadau diweddar mewn addysg rhyw a chydberthynas yn Lloegr yw ehangu'r ddarpariaeth hon (Llywodraeth EM, 2017c). Yng Nghymru, ym mis Mawrth 2017, cyhoeddwyd grŵp arbenigol newydd i ddatblygu canllawiau ar ehangu a gwella addysg rhyw a pherthnasoedd iach mewn ysgolion (Llywodraeth

[19]Mae'n bwysig nodi yma bod SERAF Cymru, wrth gael ei ddatblygu, yn cyfeirio at yr hyn y gellid ei ystyried fel ffactorau amddiffynnol fel rhan o'r broses asesu. Collwyd yr elfen hon o'r offeryn drwy olygu amrywiol ac fel y cyfryw nid yw'n ymddangos yn y fersiwn derfynol gytunedig o'r SERAF presennol.

[20] Mae ymchwil ar gam-drin plant yn rhywiol yn cyfeirio at berthnasoedd cadarn gydag aelodau o'r teulu a chyfoedion nad ydynt yn cam-drin fel ffactorau gwydnwch posibl. Gweler Chandy, Blum a Resnick (1997), Lalor a McElvaney (2010).

[21] *'Cadw'n Ddiogel?* Mae *dadansoddiad o ganlyniadau gwaith gyda phobl ifanc y camfanteisir yn rhywiol arnynt yng Nghymru* yn brosiect ymchwil a ariennir gan Lywodraeth Cymru drwy Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru, a gynhaliwyd gan CASCADE (Canolfan Ymchwil a Datblygu Gofal Cymdeithasol Plant) yn yr Ysgol Gwyddorau Cymdeithasol ym Mhrifysgol Caerdydd. Mae'r ymchwil yn adeiladu ar y cyfle unigryw i olrhain dros ddeng mlynedd un o'r carfanau cyntaf o bobl ifanc yn y DU i gael eu nodi'n ffurfiol fel rhai sydd mewn perygl o ddioddef camfanteisio rhywiol. Nod cyffredinol y prosiect yw darparu tystiolaeth empirig y mae mawr ei hangen ar y canlyniadau ar gyfer plant a phobl ifanc y nodwyd eu bod 'mewn perygl' o ddioddef camfanteisio'n rhywiol ar blant, er mwyn mynd i'r afael â'r bylchau yn ein gwybodaeth mewn perthynas ag atal, ymyrraeth ac atebion i'r broblem gymhleth hon.

Cymru, 2017). Mae ymchwil yn dangos bod llawer o grwpiau yn annhebygol o gael gwybodaeth am iechyd rhywiol a pherthnasoedd sy'n briodol neu'n berthnasol iddynt hwy drwy ddarpariaeth addysg rhyw a chydberthynas statudol, enwedig y rheiny ag anawsterau dysgu ac unigolion LGBT (Fox, 2016). Bwriad y grŵp cynghori yng Nghymru yn rhannol yw mynd i'r afael â'r bylchau hyn yn ogystal â gwella'r canlyniadau cyffredinol o addysg rhyw a chydberthynas Nghymru. Bydd y gwaith hwn yn parhau drwy gydol 2017/18.

3.40 Hefyd, mae gwaith yn mynd rhagddo gan yr Heddlu ar faterion yn ymwneud â 'secstio' a'r hyn a elwir 'Delweddau rhywiol a gynhyrchir gan bobl ifanc', sy'n dangos rhai o'r amwyseddau yn ymwneud ag ymdrechion atal (Coleg Plismona, 2016)[22]. Mae canllawiau'n ymwneud â 'secstio' yn codi materion sy'n berthnasol i atal camfanteisio'n rhywiol ar blant, megis cydsyniad a gweithrediad unigol, a chymhlethir y materion hyn gan y ffaith y gall materion o'r fath fod yn anodd eu gwerthuso pan fydd pobl ifanc yn cymryd lluniau noeth ohonyn nhw eu hunain. Mae'r canllawiau hefyd yn cyfeirio'n benodol at atal camfanteisio'n rhywiol ar blant yn gymaint ag y gall 'secstio' fod yn arwydd o gamfanteisio rhywiol mewn rhai achosion. Er bod y canllawiau yn pwysleisio'r angen i drin plant a phobl ifanc gydag ystyriaeth a sensitifrwydd, mae hyn yn dangos rhai o'r anawsterau mewn trafodaethau cyfoes o gamfanteisio rhywiol ar blant a mathau eraill o ymddygiad rhywiol gofidus ymhlith pobl ifanc. Mae 'secstio' cydsyniol a llithio camfanteisiol o ddelweddau rhywiol gan blentyn dan oed yn ddau beth gwahanol iawn, ac eto maent i ryw raddau yn cael eu crynhoi gyda'i gilydd yn y canllawiau cyfredol. Efallai y byddai'n fwy priodol i ddeall ffenomenau hyn fel rhai sy'n gorgyffwrdd o bosibl.

3.41 Ceir llai o eglurder mewn ymchwil o ran atal lle gwyddys bod camfanteisio'n rhywiol ar blant yn risg. Yn ddelfrydol, dylai mesurau asesu fel offeryn SERAF fod yn ysgogiad i roi atal ar waith, lle mae plant a phobl ifanc yn dangos sgoriau uchel ond nad ydynt yn destun camfanteisio rhywiol eto. Fodd bynnag, canllawiau cyfyngedig sydd i'w cael am sut i weithio'n benodol tuag at atal. Mae'n debygol bod angen i strategaethau llwyddiannus ar gyfer atal fod yn rhai unigoledig iawn,

[22] Mae'n werth nodi bod y briff hwn yn cyfeirio at y diffyg cysylltiad rhwng sut y defnyddir y term 'secstio' mewn ymchwil a pholisi, a sut y'i defnyddir gan blant a phobl ifanc, a allai ddefnyddio 'secstio' fel term mwy cyffredinol yn cyfeirio at gyfathrebu symudol sy'n rhywiol o ran ei natur neu hyd yn oed ond yn fflyrtiog.

yn mynd i'r afael â llawer o ffactorau ym mywyd yr unigolyn ifanc (Hallett, 2015:17).

*Ymyrraeth*

3.42 Mae llawer o fathau o strategaethau ymyrryd i'w cael, ac ni fydd yr adroddiad hwn yn gallu ymdrin â phob un sy'n cael eu defnyddio neu a astudiwyd. Fodd bynnag, cyfyngedig yw'r dystiolaeth o lwyddiannau strategaethau ymyrryd ar gyfer camfanteisio'n rhywiol ar blant, gyda dim ond un gwerthusiad meintiol ar raddfa fawr o ganlyniadau ymyrraeth yn gysylltiedig â chamfanteisio'n rhywiol ar blant yn benodol (Bovarnick, Scott a Pearce, 2017; Scott a Skidmore, 2006). Mae'r gwerthusiad hwn o wasanaethau Barnardo's ar gyfer camfanteisio'n rhywiol ar blant yn canfod, ar y cyfan, fod pobl ifanc sy'n ymgysylltu â'r gwasanaethau hyn gan Barnardo's yn gweld canlyniadau cadarnhaol. Mae diffyg data clir o'r fath ar gyfer ymyriadau eraill.

3.43 Mae tuedd mewn ymatebion i gamfanteisio'n rhywiol ar blant i ddad-bwysleisio cyflawnwyr a chanolbwyntio yn hytrach ar sut i symud y plentyn neu'r unigolyn ifanc yn gyflym ac yn effeithiol o'r perygl o gamfanteisio; a all olygu bod y plentyn neu'r unigolyn ifanc yn cael ei roi mewn llety diogel (Jago et al., 2011). Er cystal bwriad yr ymdrechion hyn, mae'r llenyddiaeth yn dangos bod anfanteision sylweddol i lety diogel. Yn un peth, gall adael pobl ifanc gyda'r argraff mai y nhw sydd i'w beio am eu cam-drin eu hunain am eu bod nhw, ac nid y cyflawnwyr, wedi'u cyfyngu (Jago et al., 2011; Beckett, 2013). Hefyd, mae'r ymchwil yn canfod nad yw diogelwch corfforol heb berthnasoedd cefnogol a chymorth therapiwtig yn effeithiol yn y pen draw o ran helpu plant a phobl ifanc sydd wedi dioddef camfanteisio rhywiol (Shuker, 2013; Roesch-Marsh, 2014). Yn ogystal, efallai na ellir sicrhau diogelwch corfforol mewn llety diogel, yn rhannol oherwydd y gall cyflawnwyr, a bod cyflawnwyr yn targedu llety diogel, am yr union reswm y gwyddys bod y bobl ifanc sydd yno yn arbennig o agored i niwed (Munro, 2004).

3.44 Mae'r negeseuon allweddol o'r llenyddiaeth yn canolbwyntio'n bennaf ar waith uniongyrchol gyda phlant a phobl ifanc, a'r angen i ddarparu perthnasoedd cefnogol, cyson a chadarn ar gyfer plant a phobl ifanc (gweler Clutton a Coles, 2007; Pearce, 2009; Hallett, 2015; 17). Canfuwyd mai gwaith uniongyrchol gyda phlant a phobl ifanc yr ystyrir bod risg uchel iawn iddynt ddioddef camfanteisio,

neu sydd eisoes wedi dioddef camfanteisio, sydd yn fwyaf effeithiol os oes ymrwymiad amser o ddeunaw mis o leiaf (Barnardo's, 2012). Mae hyn yn gweithio yn erbyn cyd-destun adnoddau ac ymarfer lle mae angen canlyniadau yn gyflym ac sy'n ffafrio darpariaeth tymor byrrach. Wedi dweud hynny, canfuwyd fod ymyriadau tymor byrrach sy'n para ychydig fisoedd yn dangos canlyniadau cadarnhaol hefyd (Yr Adran Addysg, 2011).

3.45 Adroddwyd llwyddiant mawr gyda lleoliadau maeth arbenigol i bobl ifanc sy'n wynebu risg uchel eithriadol o ddioddef camfanteisio rhywiol, y rhai sydd wedi profi camfanteisio rhywiol a/neu bobl ifanc sydd wedi'u masnachu (Shuker, 2013). Ceir llenyddiaeth hefyd ar y potensial am lwyddiannau gydag ymagweddau lleihau niwed i gamfanteisio'n rhywiol ar blant (Hickle a Hallett, 2016). Neilltuir ymyriadau yn aml i sefydliadau arbenigol fel gwasanaeth Seraf Barnardo's yng Nghymru. Yn gyffredinol, fodd bynnag, mae'r dystiolaeth ynghylch ymyriadau ar gyfer camfanteisio'n rhywiol ar blant yn gyfyngedig. Er gwaethaf canllawiau Cymru gyfan, mae strategaethau ymyrryd a gwasanaethau sydd ar gael yn amrywio ar draws rhanbarthau ac Awdurdodau Lleol.

*Erlyn*

3.46 Nid oes trosedd benodol camfanteisio'n rhywiol ar blant a ddiffinnir mewn polisi, felly mae'n rhaid i erlyniadau ddigwydd o dan amrywiol droseddau cysylltiedig gan gynnwys trais rhywiol, ymosodiadau rhywiol, troseddau'n ymwneud â chyfnewid masnachol am ryw gyda phlentyn dan oed, a chynhyrchu pornograffi plant, a masnachu mewn plant, y diffinnir pob un ohonynt yn Neddf Troseddau Rhywiol 2003. Roedd diwygiadau i'r Ddeddf hon gan Ddeddf Troseddu Difrifol 2015 yn addasu'r iaith i adlewyrchu'r newid polisi o 'puteindra plant' i gamfanteisio'n rhywiol ar blant, ac roedd yn diffinio cyfathrebu'n rhywiol â phlentyn o dan 16 oed yn drosedd. Fodd bynnag, dim ond o 3 Ebrill 2017 y daeth y drosedd cyfathrebu'n rhywiol â phlentyn i rym (gweler y Weinyddiaeth Gyfiawnder, 2017), ac mae manylion gorfodi yn dal yn brin. Yn y pen draw, mae angen i'r heddlu weithio o fewn canllawiau presennol er mwyn ymateb i achosion o gamfanteisio'n rhywiol ar blant, a gan amlaf nid yw'r canllawiau hyn wedi'u llunio'n bwrpasol.

3.47 Mae amwyseddau camau cyfreithiol ar gyfer erlyniadau o gamfanteisio'n rhywiol ar blant yn un o nifer o ffactorau sy'n cyfrannu at brinder erlyniadau llwyddiannus

mewn achosion o gamfanteisio'n rhywiol ar blant. Ffactor arall yw'r pwyslais ar wybodaeth glir a chadarn er mwyn sicrhau euogfarnau; gall technegau gwyliadwriaeth godi pryderon ymarferol a moesegol a gall cydbwyso'r angen i ddiogelu pobl ifanc sy'n agored i niwed yn erbyn yr angen i lunio tystiolaeth yn erbyn cyflawnwyr fod yn anodd (Jago et al., 2011). Yn y pen draw, mae achosion o gamfanteisio'n rhywiol ar blant yn dibynnu i raddau helaeth ar dystiolaeth gan y bobl ifanc sy'n gysylltiedig, a gall hyn fod yn broblemus am nifer o resymau, gan gynnwys canfyddiadau proffesiynol o dystiolaeth pobl ifanc fel tystiolaeth annibynadwy neu dystiolaeth sy'n annhebygol o sicrhau euogfarn (Jago et al., 2011).

3.48 Gall y profiad o'r system cyfiawnder troseddol fod yn brofiad hynod negyddol i bobl ifanc hefyd, gan gynnwys mewn rhai achosion gweld gweithwyr proffesiynol yn diystyru eu cam-drin yn gwbl agored (Cymdeithas y Plant 2014) a dioddef holi ymosodol ac ymosodiadau ar eu cymeriad gan dimau amddiffyiad y cyflawnwyr (Barnardo's, 2014). Hyd yn oed mewn amgylchiadau gwell, mae'r profiad o fod yn gysylltiedig â'r heddlu a'r llys ar ôl datgelu camfanteisio yn anodd iawn i bobl ifanc, a gall deimlo fel cam-drin pellach (Jago et al., 2011). Mae angen cymorth proffesiynol, a sylw i farn pobl ifanc unigol, i sicrhau bod pobl ifanc yn gallu bod yn gysylltiedig ag erlyniad troseddol heb i hynny effeithio gormod ar eu lles eu hunain (Plotnikoff a Woolfson, 2009). Gwnaed gwaith ar wella ymatebion yr heddlu i gamfanteisio'n rhywiol ar blant drwy brosiect dwy flynedd a ariannwyd dan arweiniad y Ganolfan Ryngwladol: Ymchwilio i Gamfanteisio'n Rhywiol ar Blant, Trais a Masnachu Plant, a gwblhawyd ym mis Ebrill 2017, a datblygwyd nifer o offer, gan gynnwys sesiynau briffio o brosiectau ymchwil wedi'u harwain gan yr heddlu[23].

3.49 Ar yr un pryd, mae'n rhaid i'r heddlu weithio gyda'r offer cyfyngedig sydd ar gael iddynt wrth ymateb i gamfanteisio'n rhywiol ar blant o safbwynt diogelu. I'r heddlu ymyrryd mewn rhai achosion o gamfanteisio'n rhywiol ar blant, mesurau presennol nad ydynt yn bwrpasol, megis rhybuddiadau, yw'r camau cliriaf sydd ar gael iddynt yn aml. Dengys ymchwil gan Arolygiaeth Cwnstabliaeth Ei Mawrhydi ar rôl yr heddlu ym maes diogelu plant, mewn meysydd fel camfanteisio'n rhywiol ar blant,

[23] Am ragor o wybodaeth am y prosiect ac offer a chynnyrch y sesiynau briffio, ewch i: https://www.uobcsepolicinghub.org.uk/

lle ceir diffyg arweiniad cenedlaethol clir yn benodol ar gyfer ymateb yr heddlu, bod ansawdd a phriodoldeb yr ymatebion yn amrywio'n fawr rhwng rhanbarthau (HMIC, 2015). Mae'r holl ddatblygiadau polisi perthnasol sy'n gysylltiedig â chamfanteisio'n rhywiol ar blant yn gymharol newydd, ac mae gwybodaeth amdanynt ar lawr gwlad yn debygol o fod yn anghyson ac yn ddibynnol ar brotocolau rhannu gwybodaeth a hyfforddiant lleol.

**Llais Pobl Ifanc**

3.50 Fel y dengys y gwahaniaethau rhwng y diffiniadau hyn, mae'n debyg y bydd llawer mwy i'w ddysgu o'r hyn sydd gan bobl ifanc i'w ddweud am gamfanteisio'n rhywiol ar blant. Cymharol ychydig o ymchwil sy'n mynd i'r afael â'r hyn sydd gan bobl ifanc sydd wedi dioddef camfanteisio'n rhywiol i'w ddweud am sut y gellir deall a mynd i'r afael â chamfanteisio orau. O'r ymchwil cyfyngedig sydd ar gael, mae sawl thema yn dod i'r amlwg.

*Gwasanaethau*

3.51 Mae pobl ifanc yn siarad yn gadarnhaol am y gwasanaethau cymorth neu ymyrraeth sy'n eu galluogi i deimlo'n ddiogel a chael ymdeimlad o reolaeth dros eu defnydd o'r gwasanaeth. Mae enghreifftiau o hyn yn cynnwys canolfannau galw heibio a gwasanaethau sy'n darparu lleoliadau grŵp a lleoliadau unigol mewn perthynas ag anghenion a lefelau cysur unigol (Gilligan 2016). Maent hefyd yn nodi gwerthfawrogi'r rhyngweithio gyda gweithwyr cymdeithasol neu weithwyr proffesiynol cysylltiedig y mae agwedd berthynol iddynt yn hytrach na chanolbwyntio ar broblemau'r unigolyn ifanc yn unig (Hallett, 2017), a lle y gwelir bod yr ymarferydd yn dangos 'personoliaeth' (Gilligan, 2016).

3.52 Mae pobl ifanc yn siarad yn gadarnhaol ynglŷn â dysgu am berthnasoedd a diogelwch, ond pwysleisiant hefyd y gall gymryd amser i ddatblygu'r ymddiriedaeth angenrheidiol i dderbyn ymyriadau addysgol, yn enwedig pan fydd yn ymwneud â newid eu canfyddiad o'r hyn y maent wedi cael profiad ohono (h.y. o 'berthynas' i 'gam-drin') (Gilligan, 2016). Maent hefyd yn pwysleisio'r angen am amser a hyblygrwydd er mwyn i berthnasoedd cadarnhaol ac ymddiriedaeth ddatblygu rhyngddyn nhw a darparwyr gwasanaethau (Gilligan, 2016). Mae Hallett (2017) yn cynnwys enghreifftiau a roddwyd gan bobl ifanc o ymarferwyr yn cyfarfod â nhw

mewn lleoliadau anffurfiol ac yn datblygu cydberthynas nad yw'n gysylltiedig â thrafod y camfanteisio neu’r ymyrraeth, ac adrodda’r bobl ifanc bod hynny wedi gwella eu parodrwydd i ymgysylltu â gwasanaethau. Ar yr un pryd, mae pobl ifanc yn siarad yn negyddol am ymarferwyr sydd fel petaent yn canolbwyntio ar ‘wneud eu gwaith’ yn unig, a gall y bobl ifanc weld hyn fel y gweithiwr yn methu ymgysylltu â nhw yn bersonol, gan wneud i ymarferwyr ymddangos yn ddiddordeb ac yn annibynadwy (Hallett, 2017 ; Smeaton, 2013; Gilligan, 2016).

3.53 Gall y derminoleg a ddefnyddir gan weithwyr proffesiynol fod yn anesmwyth i bobl ifanc ('camfanteisio'n rhywiol ar blant' neu 'cam-drin rhywiol'), yn enwedig pan maent yn dechrau defnyddio gwasanaethau ac efallai nad ydynt yn adnabod eu profiadau fel cam-drin (Gilligan 2016). Pryder arall a godwyd ynglŷn â therminoleg yw anesmwythder gyda labeli yn cael eu cymhwyso i unigolion ifanc o ganlyniad i bethau sydd wedi digwydd iddynt. Mae un o ymatebwyr Hallett (2017) yn disgrifio hyn fel dweud 'rydych chi fel hynny oherwydd hyn', a gwelai’r unigolyn ifanc hyn fel ymarferwyr yn methu ag ymgysylltu â nhw fel unigolion. Yn gysylltiedig â hyn, mae pobl ifanc yn gweld bod rhai ymarferwyr yn canolbwyntio ar y wybodaeth ffeithiol yn eu hachosion ar draul gwrando ar eu profiadau unigol neu eu deall. Gall hyn amharu ar ymdrechion i ymgysylltu gyda'r unigolyn ifanc (Hallett, 2017).

*Plismona*

3.54 Mae pobl ifanc yn adrodd am bryderon ynghylch cynnwys yr heddlu (Gilligan 2016), neu’n benodol ynghylch datgelu eu profiadau dro ar ôl tro sydd yn ofynnol pan fydd yr heddlu neu'r llysoedd yn gysylltiedig (Hallett, 2017). Mae hyn yn cynnwys, mewn rhai achosion, yr anawsterau a achosir gan ddatgeliadau yn darparu mwy o resymau dros i bobl ifanc redeg i ffwrdd/fynd ar goll, naill ai oherwydd y profiad o’r datgeliad ei hun (mewn un adroddiad, oherwydd yr anesmwythder yn gysylltiedig â datgelu cam-drin rhywiol i heddweision gwrywaidd), neu oherwydd ymateb y teulu i gynnwys yr heddlu (Smeaton, 2013).

*Gwelededd*

3.55 Mae llawer o bobl ifanc yn codi pryderon ynghylch teimlad o fod heb gymorth neu’n anweladwy hyd yn oed cyn ac mewn ymateb i’w profiadau o gamfanteisio. Codir hyn dro ar ôl tro ymysg y cyfranogwyr a gymerodd ran yn ymchwil Hallett

(2017), yr adrodda un ohonynt am riant o bosibl yn gweld, ond heb sylwi ar ymddygiad camfanteisiol yn digwydd ar-lein. Yn yr un modd, adrodda Smeaton (2013) am bobl ifanc yn sôn am ddymuniad teulu i anwybyddu neu 'ysgubo o dan y carped' eu profiadau o gamfanteisio rhywiol, neu o deimlo fel pe bai rhieni yn gwrthod ‘edrych’ arnynt. Adrodda Smeaton yn yr achosion hyn bod y teimladau cysylltiedig o unigrwydd wedi arwain y bobl ifanc hyn i gymryd rhan mewn ymddygiadau cudd mentrus fel aros allan yn hwyr a rhedeg i ffwrdd.

*Teimlo’n ‘Arferol’*

3.56 Mae pobl ifanc mewn gofal yn siarad am ddiffyg ymdeimlad o sefydlogrwydd neu normalrwydd sy'n cyfrannu at ymddygiadau a ganfyddir fel ffactorau risg, megis rhedeg i ffwrdd neu aros allan hwyr (Hallett, 2017; Smeaton, 2013). Gall realiti bywyd bob dydd i blentyn neu unigolyn ifanc mewn gofal wneud iddynt deimlo wedi’u hynysu oddi wrth yr hyn a welant fel profiadau plentyndod normal, ac mae pobl ifanc yn gweld y profiadau hynny, nad ydynt wedi’u cael, fel rhai â ffactorau amddiffynol yn erbyn y risg o gamfanteisio (Hallett, 2017). Mae pobl ifanc mewn gofal preswyl yn arbennig yn gweld diffyg strwythur teuluol 'arferol' fel rhywbeth sy’n cael effaith negyddol ar eu lles ac yn ffactor o ran eu bod yn agored i gamfanteisio, yn enwedig drwy deimlo nad ydynt yn cael eu gwarchod neu'n derbyn gofal, bod eu hymddygiad yn cael ei fonitro, ac ati. (Hallett, 2017).

**Crynodeb**

3.57 Mae’r adolygiad hwn wedi egluro tirwedd hanesyddol a chyfoes polisi ac ymarfer mewn perthynas â chamfanteisio'n rhywiol ar blant, tra hefyd yn archwilio sut y mae meysydd pryder penodol yn cael eu cynrychioli mewn trafodaethau cyfredol yn y maes hwn. Gan roi sylw arbennig i gamsyniadau cyffredin ynglŷn â chamfanteisio'n rhywiol ar blant, bylchau mewn gwybodaeth a pholisi, ac ymchwil ynglŷn â phobl ifanc a gyda phobl ifanc, mae'r adolygiad hwn amlygu’r angenrheidrwydd i barhau ag ymchwil yn y maes polisi ac ymarfer hwn sy’n datblygu’n gyflym. Mae'n bwysig cadw mewn cof wrth adolygu'r maes hwn ei fod i raddau helaeth yn y pair o hyd, gyda gwybodaeth newydd yn dod i'r amlwg drwy'r amser.

# 4. Canfyddiadau – Ymchwil Ansoddol

4.1 Mae'r adran hon o'r adroddiad yn ystyried y canfyddiadau o elfen ymchwil ansoddol yr adolygiad. Mae wedi'i rhannu'n bum adran.

- Prif negeseuon
- Gwybodaeth am y canllawiau
- Diffiniad a dealltwriaeth
- Adnabod ac asesu
- Ymateb i gamfanteisio'n rhywiol ar blant

**Prif negeseuon**

4.2 Y canfyddiad cyffredinol yw'r farn a arddelir gan yr holl gyfranogwyr ym mhob sector bod y wybodaeth a'r ddealltwriaeth ynghylch camfanteisio'n rhywiol ar blant, gan gynnwys sut i ymateb, wedi datblygu i'r fath raddau ers i'r canllawiau, y diffiniad a'r protocol cysylltiedig cyfredol gael eu datblygu yng Nghymru, fel nad ydynt yn 'addas at y diben' mwyach ar eu ffurf bresennol. Mae'n amlwg bod angen diwygiadau ac ychwanegiadau. Cyfeiriodd cyfranogwyr hefyd at ddatblygiadau eraill mewn polisïau ac arferion yng nghyd-destun ehangach gofal cymdeithasol yng Nghymru, a chyfeiriwyd at y canllawiau camfanteisio'n rhywiol ar blant a newidiwyd yn ddiweddar yn Lloegr. Mae angen diweddaru'r canllawiau camfanteisio'n rhywiol ar blant yn unol â'r datblygiadau hyn, gan ymgorffori newidiadau perthnasol lle y bo'n briodol.

4.3 Roedd barn gref hefyd ynglŷn â ble mae'r canllawiau a'r protocol yn gweithio'n dda. Siaradai cyfranogwyr am y protocol a'r canllawiau camfanteisio'n rhywiol ar blant fel rhywbeth yr oedd eu hangen, a bod newid cadarnhaol wedi bod mewn arferion ac o ran codi ymwybyddiaeth o gamfanteisio'n rhywiol ar blant. Llywiwyd llawer o drafodaethau'r grwpiau ffocws a'r cyfweliadau gan yr angen i adeiladu ar yr arfer da hwn yng Nghymru. Thema allweddol sy'n rhedeg drwy'r adolygiad hwn, er bod protocolau lleol wedi'u datblygu, yw'r angen i sicrhau cysondeb o'r newydd – ym mhob ardal ac ym mhob sector – sy'n dangos bod awydd i sicrhau parhad dull Cymru Gyfan.

Mae’r negeseuon hyn yn cael eu hystyried yn fanylach yng ngweddill y bennod hon o’r adroddiad[24].

**Gwybodaeth am y canllawiau**

4.4 Mynegwyd gwybodaeth sylfaenol ac ymwybyddiaeth o’r canllawiau a’r protocol camfanteisio’n rhywiol ar blant gan yr holl gyfranogwyr yn yr ymchwil hon. Amrywiai cynefindra gyda'r canllawiau o ran pa mor rheolaidd y gallai cyfranogwyr gael gafael arnynt neu yr oedd angen iddynt weithredu yn unol â hwy, fel y gellir disgwyl gyda rolau amrywiol y rheiny a gymerodd ran yn yr adolygiad hwn. Fodd bynnag, roedd llawer o enghreifftiau yn dangos y gwahanol ffyrdd y defnyddir y canllawiau i lywio ymarfer rheng flaen o ddydd i ddydd ac ymarfer mwy strategol, fel:

> *“Ar ôl bod yn adolygydd, fel rwy’n dweud, ar gyfer dau adolygiad ymarfer plant, rwyf wedi dibynnu’n eithaf helaeth ar y canllawiau o ran ysgrifennu’r adroddiad ac ysgrifennu’r materion dysgu oddi wrtho; mae gallu cyfeirio yn ôl at y canllawiau fel bod y sylfaen dystiolaeth gennym i wneud argymhellion, wedi bod yn ddefnyddiol i mi [25]” (Grŵp ffocws group 3)*

4.5 Fodd bynnag, dywedodd cyfranogwyr ar draws pob sector er bod ganddynt wybodaeth am y canllawiau a'r protocol, bod pryderon ganddynt am y diffyg ymwybyddiaeth neu gynefindra â’r canllawiau ymhlith llawer o'u cydweithwyr. Coleddwyd y farn hon gan y rheiny mewn swyddi rheng flaen a rolau strategol:

> *“Rwy’n credu bod pawb yn gwybod eu bod yn bodoli, ond p'un a ydynt yn ymwybodol o’r holl elfennau ynddynt, dyna’r cwestiwn. Rwy’n credu bod yna ddealltwriaeth gyffredinol o'r broses gyffredinol fel petai, a beth mae’n ceisio ei gyflawni, ond nid oes dealltwriaeth o’r mân fanylion o angenrheidrwydd.” (Cyfweliad:* Cydgysylltydd arweiniol camfanteisio'n rhywiol ar blant)

[24] Cyflwynwyd canfyddiadau a negeseuon o’n hymchwil gyda phobl ifanc drwy gydol y bennod yn yr adrannau priodol. Lle mae'r rhain yn ymddangos, maent wedi’u marcio mewn blychau ar wahân er mwyn eu gwneud yn amlwg.

[25] Mae’r holl ddyfyniadau wedi’u hatgynhyrchu gair am air gan wneud mân olygiadau lle bo angen er mwyn eu gwneud yn ddarllenadwy.

*“Nid wyf yn argyhoeddedig ar ôl gwneud yr adolygiadau ymarfer plant bod yr holl bobl a oedd yn gysylltiedig â’r adolygiadau yn ymwybodol o'r canllawiau.” (Grŵp ffocws 3)*

4.6 Yn rhai o’r grwpiau ffocws, awgrymwyd y potensial i ganlyniadau'r adolygiad hwn i gynyddu ymwybyddiaeth a darparu cyfle i adnewyddu gwybodaeth a dealltwriaeth pobl am weithio i ymateb i gamfanteisio'n rhywiol ar blant. Mynegwyd yn gadarn hefyd yr angen i sicrhau bod yr holl ymarferwyr sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc yn ymwybodol o'r canllawiau a’r protocol.

**Diffiniad a dealltwriaeth**

4.7 Mae'r rhan hon o'r adroddiad yn ystyried y data o ran pa mor effeithiol ac 'addas i'r diben' yr ystyriai’r gweithwyr proffesiynol cyfranogol oedd y canllawiau o ran diffinio camfanteisio'n rhywiol ar blant.

4.8 Nid yw’r diffiniad cyfredol o gamfanteisio’n rhywiol ar blant a ddefnyddir yng Nghymru yn cael ei ddefnyddio'n gyson. Defnyddiodd cyfranogwyr y diffiniad newydd yn Lloegr, diffiniad Gogledd Iwerddon, y diffiniad a ddefnyddir gan y Gweithgor Cenedlaethol, diffiniadau ‘ystyriol o blant’ a gynhyrchwyd gan sefydliadau trydydd sector, a'r diffiniadau a ddefnyddir gan CEOP ac o fewn sefydliadau. Mae hyn yn adlewyrchu nifer y diffiniadau polisi a hefyd nifer y diffiniadau ymarfer sy’n cael eu defnyddio yn y DU, ac roedd y nifer toreth hwn o ddiffiniadau yn fater a fynegwyd gan gyfranogwyr:

*“Wel, pan fyddwch chi’n cael trafodaeth am strategaeth rydych yn dymuno dechrau ar un safbwynt o ran beth yw’r materion amddiffyn plant hynny, felly, os ydych chi’n gweithio o ddau ddiffiniad gwahanol, mae hynny’n ddieithriad yn mynd i greu anawsterau o ran gwneud unrhyw benderfyniadau, gan eich bod yn gweithio o ddwy set o ddiffiniadau o ran beth yw’r achos hwnnw o gamfanteisio'n rhywiol ar blant.” (Grŵp ffocws 13)*

4.9 Mae cysylltiad agos rhwng hyn â dealltwriaethau o gamfanteisio’n rhywiol ar blant hefyd. Mae data yn dangos bod diffyg eglurder i weithwyr proffesiynol am gamfanteisio'n rhywiol ar blant, ac mae'r dadansoddiad yn awgrymu bod gweithwyr proffesiynol yn dal yn ansicr ynghylch beth yw camfanteisio'n rhywiol ar blant, beth nad ydyw, a hefyd beth sy’n ‘gwneud’ rhywbeth yn gamfanteisio'n

rhywiol ar blant neu beidio. Gellir gweld enghraifft o'r dryswch hwn yn y dyfyniad canlynol o un o'r grwpiau ffocws:

> "Cyfranogwr 1: *Nid ydw i'n gwybod beth yw'r diffiniad o safbwynt cymryd rhan mewn gweithgarwch rhywiol, wn i ddim...oes rhaid i chi gymryd rhan mewn gweithgarwch rhywiol er mwyn bod yn destun camfanteisio? Nid wyf yn meddwl bod rhaid i chi wneud.*
> Cyfranogwr 2: *Mae'n rhyw fath o ddweud eich bod yn gyfranogwr bodlon, lle dydyn nhw ddim." (Grŵp ffocws 16)*

4.10 Ceir data sy'n dangos dryswch tebyg ymhlith gweithwyr proffesiynol ynghylch materion megis cydsyniad a chydsyniad ar sail penderfyniad cytbwys, camfanteisio rhywiol gan gyfoedion, p'un a yw rhywbeth yn gamfanteisio'n rhywiol ar blant os nad oes tystiolaeth o feithrin perthynas amhriodol, lle gallai materion megis secstio gydweddu â chamfanteisio'n rhywiol ar blant, yn ogystal â phroblemau yn gwahaniaethu camfanteisio'n rhywiol ar blant pan fydd yn digwydd ar-lein. Codwyd yr angen i sefydlu bod camfanteisio'n rhywiol ar blant yn digwydd ar-lein ac all-lein yn gyson gan gyfranogwyr, a hefyd yr angen i bwysleisio y gall camfanteisio rhywiol ddigwydd ymhlith cyfoedion, a bod camfanteisio rhywiol yn digwydd i fechgyn a dynion ifanc yn ogystal â merched a menywod ifanc. Siaradodd cyfranogwyr sy'n gweithio mewn rolau rheng flaen a rolau mwy strategol am sut mae bechgyn a dynion ifanc yn debygol iawn o gael eu colli mewn asesiadau o gamfanteisio'n rhywiol ar blant, a bod hyn yn gysylltiedig â chamddealltwriaeth ymhlith gweithwyr proffesiynol ynglŷn â beth yw camfanteisio'n rhywiol ar blant a sut y mae'n digwydd.

4.11 Yn ogystal, wrth gysylltu materion yn ymwneud â diffiniad â ffocws y protocol a'r canllawiau, cododd rhai cyfranogwyr bryderon ynghylch ffurfiau cysylltiedig ar gamfanteisio nad ydynt yn rhywiol eu natur sy'n digwydd i bobl ifanc tebyg sy'n agored i niwed, nad ydynt yn cael eu hadnabod yn hawdd yn y diffiniad cyfredol, a'r modd nad yw gwaith gyda'r bobl ifanc hyn yn cydweddu'n hawdd â'r protocol camfanteisio'n rhywiol ar blant. Soniwyd am fechgyn fel rhai a oedd yn fwy tebygol o gael eu defnyddio fel cludwyr cyffuriau a gallai hyn gynnwys rhyw fath o gamfanteisio rhywiol, neu efallai ddim. Hefyd, codwyd y broblem o fenywod yn cael eu defnyddio fel 'hwyluswyr' ar gyfer camfanteisio rhywiol (ar ôl bod yn destun camfanteisio rhywiol eu hunain).

*“Un peth olaf yr anghofiais sôn amdano yw p'un a ellid rhoi ystyriaeth i ddileu ‘rhywiol’ i adael camfanteisio ar blant. Mae perygl labelu pobl am ei fod yn achosi gweithwyr proffesiynol i ganolbwyntio ar feysydd penodol ac nid edrych ar fregusrwydd a risg mewn modd cyfannol. Mae hyn yn arbennig o berthnasol i fechgyn ac yn un ffordd y gallem nodi a chefnogi mwy ohonynt. Yn absenoldeb unrhyw ddatgeliadau o gam-drin rhywiol mae’r dangosyddion risg ar SERAF ar gyfer bechgyn yn gysylltiedig yn aml â chyflenwi cyffuriau a chaiff yr achos ei gau. Fel y gwyddoch, mae’r rhwystrau rhag datgelu yn fwy yn aml ar gyfer bechgyn ac felly mae’r senario hwn yn llawer mwy tebygol o ddigwydd gyda nhw.*

*Mae plant yn cymryd rhan mewn cyflenwi cyffuriau yn ffurf o gamfanteisio ynddo'i hun ac yn fy mhrofiad i ni chaiff hyn fyth ei adnabod fel pryder ynghylch amddiffyn plant. P’un a yw’r camfanteisio yn gamfanteisio rhywiol, cyflenwi cyffuriau neu lafur gorfodol, dylai'r cymorth fod yr un peth gyda'r gallu i adnabod y math o gamfanteisio fel y gellir teilwra ymyrraeth gwasanaethau i ddiwallu anghenion yr unigolyn ifanc. Bydd y dull hwn yn arwain at fwy o fechgyn yn cael eu rheoli o dan y canllawiau, a gyda’r gefnogaeth ychwanegol efallai y daw’r elfen rywiol o’r camfanteisio i'r amlwg.” (Cyfweliad: Ditectif Arolygydd, arweinydd yr Heddlu ar gyfer Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant)*

4.12 Tra bod hyn yn awgrymu nad yw diffiniad Cymru yn addas at y diben mwyach gan nad yw i weld yn darparu’r eglurder a’r ddealltwriaeth y mae ar weithwyr proffesiynol eu hangen, nid oedd consensws ynghylch p'un a ddylid mabwysiadu dewisiadau amgen. Cyfeiriodd lawer o'r ymatebwyr at y newidiadau diweddar yn Lloegr, ond nid oedd consensws clir ynghylch mabwysiadu’r fersiwn hon. Mae'r dadansoddiad yn dangos nad yw wedi datrys y diffyg eglurder, gyda chyfranogwyr yn mynegi anfodlonrwydd ag ef. Caiff unrhyw alwadau ar gyfer ei fabwysiadu eu gyrru yn bennaf gan yr awydd i leihau nifer y gwahanol ddiffiniadau a ddefnyddir.

“Cyfranogwr 1: *Wel, rwy'n credu bod diffiniad Cymru’n rhy hir ac rwy’n ei weld yn anodd iawn, pan rwy'n dysgu, i’w ddefnyddio. Ac rwy’n gwybod fod Lloegr newydd ddiwygio’u diffiniad nhw ym mis Chwefror ’17 a byddwn i’n ei gadw'n syml ac yn ddelfrydol, yn gyson ag ardaloedd eraill y DU.*

Cyfranogwr 2: *A byddai fy niffiniad innau'r un fath, rwy'n credu mai'r anhawster yw bod diffiniadau gwahanol, ond mae angen diffiniad ledled y DU arnom." (Grŵp ffocws 1)*

4.13 Pan holom ynglŷn ag anawsterau ar gyfer y sectorau nad ydynt wedi'u datganoli i weithio ar draws ac o fewn gwahanol ddiffiniadau, yr ymateb oedd nad oedd unrhyw anhawster, a bod y problemau go iawn yn dod o gyfarwyddiadau datganoledig mewn ymarfer a'r angen i weithio ar draws gwahanol fframweithiau ar gyfer asesu ac ymatebion.

**Diffinio camfanteisio'n rhywiol ar blant – safbwyntiau pobl ifanc**

Dangosom ddiffiniadau o gamfanteisio'n rhywiol ar blant i bobl ifanc, gan gynnwys y rheiny a oedd wedi'u llunio naill ai mewn ymgynghoriad â phobl ifanc neu gan ddefnyddio geiriau pobl ifanc, ac fe'u dangoswyd i'r grŵp er mwyn eu trafod. Nid oedd yr un o'r diffiniadau hyn yn arbennig o boblogaidd gyda grŵp, er mai diffiniad Barnardo's yr oeddent yn ei hoffi fwyaf, gan ei fod yn cynnwys cyfeiriadau at gamfanteisio ar-lein, neu drwy gyffuriau ac alcohol. Teimlai'r bobl ifanc fod geiriau megis 'a ddefnyddir', 'a reolir', 'cael eu twyllo', 'dan bwysau i wneud rhywbeth' a 'manteisio' bob un ohonynt yn mynd rywfaint o'r ffordd i ddisgrifio a diffinio camfanteisio'n rhywiol ar blant. Yr elfennau hyn y mae angen rhoi pwyslais arnynt mewn unrhyw esboniad neu ymgais i ddiffinio camfanteisio'n rhywiol ar blant.

Buom hefyd yn trafod p'un a allai neu a ddylai'r gair 'rhywiol' gael ei ddileu o gamfanteisio'n rhywiol ar blant, i gwmpasu math ehangach a mwy cynhwysol o gamfanteisio. Gan gyfeirio at y modd y manteisir ar bobl ifanc am gyffuriau, lladrata a throseddau eraill, fe wnaeth un cyfranogwr grynhoi fel a ganlyn:

"mae yna ffyrdd haws o lawer o wneud arian na dim ond cael rhyw" (cyfranogwr 4)

Teimlai cyfranogwr arall y byddai'n helpu ymarferwyr i gael dealltwriaeth ehangach o'r ffordd y camfanteisir ar blant a phobl ifanc er mwyn eu cefnogi, ac amharu ar gyflawnwyr. Dywedodd llawer o gyfranogwyr bod bechgyn a dynion ifanc yn cael eu defnyddio fel hyn yn aml, weithiau gan yr un bobl sydd yn camfanteisio'n rhywiol ar ferched a menywod ifanc. Dywedodd un cyfranogwr:

"Nid wyf yn meddwl bod pobl sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc yn deall bod mwy iddi na'r pethau rhywiol...mae yna bethau eraill." (cyfranogwr 3)

Aethant ymlaen i ddweud y byddai cyfuno'r amryw ffurfiau hyn ar gamfanteisio gyda'i gilydd mewn diffiniad a phrotocol a oedd yn adlewyrchu hyn yn amddiffyn pobl ifanc ac yn erlyn cyflawnwyr oherwydd y byddai'n:

"dadansoddi'r cyfan iddynt ac yn eu helpu [ymarferwyr]" (cyfranogwr 3)

Byddai gwell dealltwriaeth o'r cysylltiad rhwng amryw faterion yn hwyluso ymateb wedi'i dargedu ond ymateb cyflawn i bobl ifanc sydd mewn perygl nad oes unrhyw un yn sylwi arnynt ar hyn o bryd efallai.

4.14 O ran newidiadau posibl sydd eu hangen neu broblemau gyda diffiniadau o gamfanteisio'n rhywiol ar blant, bu'r cyfranogwyr yn trafod bod y rhai sydd ar gael iddynt yn rhy hir, neu'n rhy amleiriog, ac yn rhy gymhleth. Mae angen 'ei wneud yn gwbl glir', a chodwyd y syniad o gael fersiwn syml sy'n ystyriol o blant a/neu bobl lleyg, ac yn rhydd o jargon, yn ogystal â'r syniad o osgoi diffiniad ac amlinellu'r materion y tu ôl i gamfanteisio'n rhywiol ar blant sy'n ei wneud yn wahanol fel ffurf ar gam-drin plant.

> *"A oes posibilrwydd cael (saib) sonioch fod yna fersiwn i bobl ifanc, ond a oes posibilrwydd am beidio bod angen fersiwn pobl ifanc [ar wahân]? Mae angen iddo fod yn un [fersiwn], ond oes? Nid rhyw fath o farn arbenigwyr neu weithwyr proffesiynol arbenigol, nid ydym am hynny"(Grŵp ffocws 19)*

> "Cyfranogwr 1: *Credaf mai'r broblem weithiau yw pan fyddwch chi'n rhoi diffiniad manwl, rydych chi am roi rhywbeth o'r neilltu ond ydych chi?*
> Cyfranogwr 2: *Nid yw pobl ifanc yn deall y geiriau hynny beth bynnag, dyna'n union lle'r ydym yn methu fel gweithwyr proffesiynol." (Grŵp ffocws 10)*

> "Rwy'n credu ein bod bron yn ceisio llunio diffiniad a'n bod yn cael ein llethu gan derminoleg, yn ceisio diffinio'r hyn sydd, ar ddiwedd y dydd, yn ddull o gyflawni cam-drin plant Felly nid wyf hyn yn oed, ac rwyf wedi bod o'r farn hon erioed, nid wyf hyd yn oed yn gwybod pa mor ddefnyddiol yw'r term camfanteisio'n rhywiol ar blant o gwbl, rydych chi'n gwybod mai rhywbeth ry'n ni wedi'i ddyfeisio ydyw fel rhyw fath o derm cryno ar gyfer llu o wahanol fathau o gam-drin plant, ac rwy'n meddwl y byddai'n well i ni ei alw'n gam-drin plant am mai dyna ydyw, a chan gydnabod bod hynny'n cael ei gyflawni mewn

llawer o ffyrdd , ac rydych yn gwybod ei fod yn cynnwys drwy ddylanwadu a meithrin perthynas amhriodol.” (Grŵp ffocws 15)

**Adnabod ac asesu**

4.15 Mae'r rhan hon o'r adroddiad yn ystyried y data o ran pa mor effeithiol ac ‘addas i'r diben’, y mae gweithwyr proffesiynol o'r ystod o asiantaethau cyfranogol yn ystyried yw’r canllawiau a'r protocol cysylltiedig o ran nodi ac atgyfeirio plant a phobl ifanc sydd mewn perygl o ddioddef camfanteisio rhywiol.

4.16 Mae dryswch ynglŷn â diben a/neu swyddogaeth yr offeryn asesu risg, ac mae i’r gwahaniaeth barn oblygiadau ar gyfer sut mae gweithwyr proffesiynol yn mynd ati i sgorio, a’u camau gweithredu dilynol. Roedd y dryswch hwn yn rhywbeth y nododd rhai cyfranogwyr hefyd. I rai, gwelir yr offeryn fel offeryn cwmpasu neu gyfiawnhau, ac yn fodd i dynnu ynghyd bryderon ynghylch plentyn neu unigolyn ifanc, sydd, o'u cyfuno, yn dangos risg o ddioddef camfanteisio rhywiol (neu beidio). Mae’r farn hon yn gyson â diben bwriadedig yr offeryn SERAF. I’r cyfranogwyr hyn, nid yw’n cael ei ddefnyddio fel y dylai fod gan weithwyr proffesiynol sy'n ei gamddeall fel rhywbeth sy’n darparu asesiad pendant o gamfanteisio’n rhywiol ar blant.

4.17 I’r gwrthwyneb, dangosodd rai cyfranogwyr y camddealltwriaeth hwn o ddiben bwriadedig yr offeryn, gan ei ddisgrifio fel offeryn asesu. I’r cyfranogwyr hyn, gwelwyd ei fod yn achosi problemau o ran yr anawsterau â dangos tystiolaeth o risg, a darparu sgoriau cadarn a chywir ar gyfer plant a phobl ifanc y mae pryderon amdanynt, a gweithredu ar sail y pryderon hyn. Mae'n ymddangos mai’r ddealltwriaeth hon sydd yn bennaf y tu ôl i’r galwadau am i’r offeryn gael ei ‘ddilysu’ – gan y gallai hyn wneud y sgoriau’n fwy dibynadwy a chywir, ac felly'n haws i weithwyr proffesiynol weithio gyda nhw i lywio adnoddau a rheoli risg camfanteisio’n rhywiol.

4.18 Beth bynnag yw barn sylfaenol cyfranogwyr ynglŷn â swyddogaeth yr offeryn, roedd barn gyson a chadarn bod gormod o bwyslais yn cael ei roi ar sgôr risg camfanteisio'n rhywiol ar blant, ac nid yw’r risgiau i blentyn neu unigolyn ifanc yn cael eu hasesu ar y cyd â barn broffesiynol. Dywedodd llawer o gyfranogwyr bod y sgoriau “wedi mynd yn bopeth” ac eto wedi “mynd yn ddiystyr”. Rhoddwyd enghreifftiau lle, oherwydd y ddibyniaeth ar sefydlu p’un a oes pryder yn

gysylltiedig â chamfanteisio'n rhywiol ar blant a lle throsglwyddir hyn i'r sgôr, nad oedd cyfarfodydd strategaeth yn cael eu galw lle nad oedd pryderon bod y gweithiwr proffesiynol a oedd yn atgyfeirio'r plentyn neu'r unigolyn ifanc yn gallu adio'r rhain i fyny yn sgôr a fyddai'n ysgogi trafodaeth strategaeth, gan olygu, o bosibl, fod plant a phobl ifanc â risg gymedrol neu sylweddol yn cael eu colli:

> "Rwy'n meddwl mai un o'r cryfderau, o'm swydd ddiwethaf, rydych chi'n gwybod fel gweithiwr ieuenctid, yn sicr os mai sefydliad anstatudol ydych chi, bod llenwi hwn yn rhoi'r cyfle i chi gael dweud eich dweud ychydig ac i'ch cynnwys chi mewn proses na fyddech yn cael eich cynnwys ynddi weithiau. *A hyd yn oed yn fy rôl bresennol wyddoch chi, rydym wedi cael unigolyn ifanc y gwneuthum i fy hun â'm cydweithiwr yn yr heddlu godi pryder yn ei gylch, ac fe godom y pryder hwnnw drwy'r heddlu a sianeli'r Gwasanaethau Plant gyda thrafodaeth [strategaeth] ond y farn bryd hynny oedd na, nid oes digon o bryder, felly fe wnaethom gwblhau SERAF, a dim ond ei gael ychydig dros 16, ac mae'n rhaid i ni gael cyfarfod, a phan fydd y cyfarfod hwnnw'n cael ei gynnal a bod 12 o bobl yn yr ystafell, aeth y sgôr yn sydyn iawn i fyny i 25." (Grŵp ffocws 19)*

4.19 Adroddodd un arall mai'r broblem gyda'r pwyslais ar sgorio oedd y nifer anhydrin o blant a phobl ifanc yn sgorio risg sylweddol, sy'n golygu nad yw'r protocol yn cael ei ddilyn bob amser i alw cyfarfod strategaeth ar gyfer plant neu bobl ifanc sy'n sgorio ar risg gymedrol. Awgrymodd rhai cyfranogwyr bod y cyd-destun ymarfer hwn wedi cyfrannu at adegau pan oedd yn hysbys bod camfanteisio rhywiol yn digwydd ond na chafodd yr unigolyn ifanc sgôr asesu risg uwchlaw mân risg, felly roedd anawsterau o ran galw cyfarfod strategaeth ynghyd.

4.20 Deallwyd bod y pwyslais ar sgoriau yn gweithio yn erbyn meithrin a defnyddio barn broffesiynol ynglŷn ag asesu risgiau a nodweddion bregusrwydd. Cyflewyd pryderon gan gyfranogwyr nad oedd lle i ddisgresiwn neu le i gyfiawnhau gwneud penderfyniadau. Ystyriwyd bod y broses asesu wedi mynd yn "ddull gweithredu ticio blychau", gyda gweithwyr proffesiynol yn methu dilyn y broses asesu oherwydd y nifer uchel o achosion risg sylweddol, gan ei gwneud yn ddiangen neu'n anymarferol, ac yn arwain at ddehongli ac ymarfer ac adrodd nad ydynt yn cael eu llywio gan broses. Dywedodd rhai cyfranogwyr fod angen i weithwyr proffesiynol sy'n derbyn atgyfeiriadau gael mwy o naratif gan atgyfeirwyr er mwyn

eu helpu i wneud penderfyniadau ynghylch plentyn neu unigolyn ifanc y tu allan i'r risgiau a’r nodweddion bregusrwydd a diciwyd, ac y byddai hyfforddiant ar asesu yn ddefnyddiol i bwysleisio'r agwedd hon ar yr offeryn.

4.21 Mae hyn yn ymwneud â phwynt a godwyd gan gyfranogwyr ynglŷn â phwy sy'n llenwi’r ffurflen, a’r cyd-destunau gwahanol ar draws sectorau, a all gyfyngu ar (a darparu cyfleoedd hefyd ar gyfer) pa wybodaeth y gellir ei chasglu am blentyn neu unigolyn ifanc. Nodwyd bod gwasanaethau iechyd ac addysg yn fwyaf tebygol o ddod i gysylltiad â phlant a phobl ifanc naill ai mewn cyd-destun bob dydd neu am resymau a allai godi pryderon penodol, ond mae gweithwyr proffesiynol sy'n gweithio yn y cyd-destunau hyn yn annhebygol o gael mynediad i, neu’r cyfle i, gasglu gwybodaeth a fyddai'n codi’r sgôr risg i a fyddai’n ysgogi camau gweithredu gan y gwasanaethau plant.

> *“Yr ail beth o safbwynt iechyd yw pan fyddwch yn edrych ar nifer o'r pwyntiau hynny yno, yn sicr o ran atal cenhedlu ac iechyd rhywiol, rydym yn gwbl gyfrinachol felly yn aml bydd yr unigolyn ifanc yn dod naill ai ar ei ben ei hun neu gyda phobl ifanc eraill, felly nid â rhieni, ac felly nid oes gennym unrhyw wybodaeth gefndir yn ymwneud â hynny, felly rydym ond yn gwybod y cwestiynau hynny y gallai fod modd i ni ofyn iddynt. Felly, yn fy marn i mae’n wych o beth i’r lleoliad gofal cymdeithasol pan fyddwch yn cael gwybodaeth gan lawer o asiantaethau, ond i ni, un o'r rhesymau yr oeddem yn ei chael hi’n anodd oedd eich bod yn gwybod bod y pwyntiau hyn gennych na fyddai gennych yr ateb iddynt fyth... ...a’r broblem oedd, fod y broses yn dal yn rhy hir i bobl yn gweithio yn y maes iechyd lle mae gennych apwyntiad deng munud yn gyffredinol, os hynny.” (Cyfweliad ar y cyd – gweithwyr gofal iechyd proffesiynol)*

4.22 Mae'r wybodaeth a ddarparwyd i ni gan gydweithwyr yn gweithio yn y maes iechyd yn dangos y bu gwaith sylweddol yng Nghymru, sydd i’w adolygu gan gymheiriaid yn fuan, ar ddatblygu ‘offeryn asesu iechyd camfanteisio’n rhywiol ar blant’ yn cynnwys dwy haen, sy’n addas i’w gwblhau gan weithwyr gofal iechyd proffesiynol (gweler Cook, 2016). Datblygwyd yr adnodd i gynorthwyo’r rhai sy'n gweithio mewn cyd-destun iechyd rhywiol, ond mae cynlluniau ar waith i gyflwyno hyn mewn adrannau A&E, a’r nod yw ei gyflwyno mewn clinigau meddygon teulu. Cynlluniwyd yr offeryn yn benodol i gynorthwyo ymarferwyr iechyd mewn cyd-

destun iechyd penodol a chyfyngedig i amser i gwblhau asesiad ar gyfer atgyfeirio. Datblygwyd yr offeryn hwn ers cyflwyno’r protocol camfanteisio'n rhywiol ar blant ac asesiad SERAF yng Nghymru.

4.23 Soniodd cyfranogwyr am bryderon hefyd bod yr offeryn asesu yn cael ei weld fel rhywbeth i’w gwblhau gan ‘arbenigwyr camfanteisio'n rhywiol ar blant’ yn hytrach na chan yr unigolion sy'n pryderu ynghylch plentyn neu unigolyn ifanc. Mae hanes yr offeryn yn golygu y gall fod amharodrwydd neu ddiffyg hyder ynghylch yr asesu, sy’n golygu nad yw gweithwyr proffesiynol ar draws cyd-destun amlasiantaeth yn ei gwblhau, ac felly ni chaiff pryderon eu trosglwyddo ymlaen ac mae hyn yn cyfyngu ar y posibilrwydd i ddod â phryderon ynghyd.

> *“Roedd pobl ychydig fel o, o dim ond pobl Barnardo's sy’n gallu gwneud, mae’n rhaid ichi fod yn wyrdd i wneud y SERAF.” (Grŵp ffocws 5)*

> “Rwy’n credu bod y SERAF o safbwynt iechyd yn drysu pobl, oherwydd mae'n ymddangos i fod yn offeryn eithaf arbenigol a bod [angen] hyfforddiant, ac felly yn ein Bwrdd Iechyd ni, roedd rhai pobl yn ei ddefnyddio, ond mae’n ymddangos bod angen i chi ffonio Barnardo's i’w lenwi, felly mae’n ddryslyd.” (Cyfweliad ar y cyd – gweithwyr gofal iechyd proffesiynol)

4.24 Yn ogystal â phryderon ynglŷn â sgorio, roedd problemau gyda’r risgiau a’r nodweddion bregusrwydd ar yr offeryn. Disgrifiwyd rhai o'r risgiau a nodweddion bregusrwydd fel rhai yr oedd angen eu diweddaru a/neu fod angen iddynt adlewyrchu'r wybodaeth gyfredol am gamfanteisio rhywiol ar blant, er enghraifft: gwelwyd y risgiau sy'n gysylltiedig â defnyddio ffonau symudol a'r rhyngrwyd fel rhai annigonol erbyn hyn i grynhoi’r amrywiaeth eang o bryderon yn ymwneud â chamfanteisio'n rhywiol ar blant sy’n digwydd drwy weithgarwch ar-lein, neu’n gysylltiedig ag ef. Yn yr un modd, roedd rhai cyfranogwyr o’r farn fod angen i wybodaeth am hosteli a thai i bobl sy'n agored i niwed gael ei chynnwys a’i phwysleisio, nad yw ffactorau fel ‘mynd ar goll’ yn ymgorffori gwybodaeth newydd a’u bod yn rhy annelwig neu eang; bod angen creu cysylltiad cryfach â masnachu; nad yw’r asesiad yn briodol i nodi camfanteisio gan gyfoedion am fod y pwyslais ar berthnasoedd problemus gyda chariad hŷn; bod risgiau a nodweddion bregusrwydd yn seiliedig ar ryw, ac nad ydynt y briodol i nodi bechgyn a dynion ifanc yn dda iawn.

4.25 Yn yr un modd, roedd yr angen i ddiweddaru'r offeryn i adlewyrchu dealltwriaeth ddiweddar am gamfanteisio'n rhywiol ar blant yn cael ei adlewyrchu yn y data gan y bobl ifanc:

**Risgiau a nodweddion bregusrwydd – safbwyntiau pobl ifanc**

Roedd rhan fwyaf y bobl ifanc a gymerodd ran yn yr adolygiad yn cytuno y dylid gosod 'defnydd o'r rhyngrwyd sy'n peri pryder' fel y 'risg uchaf'. Fe wnaeth trafodaethau pellach ynghylch defnydd o'r rhyngrwyd sy'n peri pryder godi'r cwestiwn ynghylch a oedd yn symptom o gamfanteisio'n rhywiol ar blant neu beidio, yn hytrach na risg neu ffactor achosol:

> *Cyfranogwr 8: Defnydd o'r rhyngrwyd sy'n peri pryder, eto, byddwn i'n dweud mai symptom yw hynny yn hytrach na...*
>
> *Ymchwilydd: Yn hytrach na rhywbeth sy'n arwain unigolyn ifanc i mewn iddo?*

Cydnabuwyd os oedd pryderon gan riant, gofalwr neu ymarferydd ynghylch defnydd plentyn neu unigolyn ifanc o'r rhyngrwyd, gallai ddynodi bod unigolyn ifanc eisoes yn gysylltiedig â chamfanteisio'n rhywiol ar blant ac yn gwneud trefniadau i'w hwyluso; yn hytrach na bod mewn perygl o fod yn rhan ohono.

Un pwynt pwysig pellach ynghylch ymddygiad ar-lein yw bod y rhan fwyaf o bobl ifanc yn cael mynediad at y rhyngrwyd drwy ffôn symudol ar hyn o bryd. Esboniodd un cyfranogwr os oedd ffôn symudol cudd, neu gyfrinachol gan unigolyn ifanc yr oedd yn ei gadw oddi wrth rieni, gofalwyr ac ymarferwyr, gellid ei ddefnyddio i gael mynediad at y rhyngrwyd yn hytrach nag ar gyfer galwadau a negeseuon:

> *"Os... nad oes ganddynt fynediad i'r rhyngrwyd ar eu prif ffôn a bod mynediad ar yr ail un, dyna pryd y gallai fynd yn risg o gamfanteisio'n rhywiol." (Cyfranogwr 3)*

Mae hyn yn golygu nad yw'r categorïau presennol 'defnydd o'r rhyngrwyd sy'n peri pryder' a 'defnydd o ffôn symudol sy'n peri pryder' yn hawdd i wahaniaethu rhyngddynt. Dylid cydnabod y gallai fod yn heriol iawn i ymarferwyr gasglu tystiolaeth am ddefnyddio'r rhyngrwyd, gan y gallai fod yn digwydd ar ffôn symudol nad yw rhieni, gofalwyr ac ymarferwyr yn gwybod amdano.

Yn gyffredinol, mae'n bwysig bod yn ymwybodol nad yw'r byd ar-lein a'r byd all-lein yn amlwg ar wahân i bobl ifanc. Yn syml, mae bod ar-lein ond yn fan arall i fodoli ynddo, neu'n ffordd arall o gyfathrebu. Am fod technoleg, a'r ffordd rydym yn ei

defnyddio wedi symud ymlaen, nid oedd y cysyniad o fod yn destun meithrin perthynas amhriodol mewn 'ystafelloedd sgwrsio' yn gysyniad yr oedd pobl ifanc yn ymgysylltu ag ef. O ran adnabod, mae SERAF ei hun yn cyfrif am ddefnydd ffonau symudol a'r rhyngrwyd ar wahân ar hyn o bryd, ond y gwirioneddau ar gyfer pobl ifanc yw y defnyddir y rhyngrwyd drwy ffôn symudol yn bennaf. At hynny, mae negeseua gwib yn defnyddio'r rhyngrwyd (am ei fod yn rhad ac am ddim, o gymharu, er enghraifft, â negeseuon testun) ac mae llawer o hyn yn digwydd ar ffôn symudol. Mae hyn yn golygu nad yw'r gwahaniaeth rhwng ffonau a'r rhyngrwyd mor glir ag yr ydoedd ar un adeg, a gall fod yn anodd i ymarferwyr ddangos tystiolaeth o hyn. Yn olaf, gallai cyfathrebu ar-lein gyda chyflawnwyr a dioddefwyr camfanteisio rhywiol eraill fod yn risg y bydd unigolyn ifanc yn dod yn gysylltiedig â chamfanteisio'n rhywiol ar blant neu fod hynny eisoes yn digwydd.

4.26 Cododd cyfranogwyr ar draws sectorau y mater fod gormod o sylw'n cael ei roi i ffactorau hanesyddol neu ffactorau mwy 'sefydlog' a fydd yn newid, neu na fydd fyth yn newid efallai, mewn unrhyw asesiad (er enghraifft, 'hanes teuluol o gam-drin domestig', 'chwalu perthnasoedd teuluol', neu unrhyw un o'r profiadau blaenorol o esgeulustod neu gam-drin). Mae hyn yn golygu na fydd rhai plant a phobl ifanc efallai yn lleihau eu risg islaw'r trothwyon uwch. Mae hyn hefyd yn berthnasol i bwynt a godwyd ynglŷn â diffyg cryfder neu ffactorau amddiffynnol yn yr asesiad, a fyddai'n darparu gwrthbwys i'r ffactorau mwy sefydlog o ran asesu pryderon ac wrth siartio cynnydd ar gyfer unigolyn ifanc.

> *"gallwch gael sgôr a pheidio â bod angen aros yn agored o angenrheidrwydd a chael yr ymyrraeth barhaus honno... oherwydd, i ddechrau, mae yna rhai risgiau a fyddai'n gostwng o reidrwydd, felly'r math o ffactorau risg hanesyddol, ond hefyd, ie, rhai o'r ffactorau gwydnwch [y mae angen eu diwygio/hychwanegu]. A wyddoch chi, os ydych chi wedi bod yn gweithio gydag unigolyn ifanc am flwyddyn ac wedi rhoi rhai o'r [ystyriaethau] hynn ar waith, ac rydych yn gwybod bod yr unigolyn hwnnw yn gallu dangos bod ganddo/ganddi ddealltwriaeth o [risgiau] a beth bynnag, ac mae yna rai ffactorau amddiffynnol o ran oedolion priodol a'r math hwnnw o beth. Mae'n anodd iawn cael y rheiny oddi ar y SERAF, felly er mwyn lleihau'r sgôr hwnnw'n ddigon sylweddol i ddweud iawn, nid yw mewn perygl mwyach, ond mewn gwirionedd, fel grŵp proffesiynol, efallai y byddwch yn gallu dweud ie, rydych chi'n gwybod ein bod wedi rhoi hyn i gyd ar waith, rydym yn teimlo'n*

*hyderus bod yna ddigon o fonitro, wyddoch chi, gallai fod yn agored am reswm arall neu gyda thîm arall neu beth bynnag, ac mewn gwirionedd nid oes angen parhau i gael cyfarfodydd strategaeth [camfanteisio'n rhywiol ar blant." (Grŵp ffocws 10)*

4.27 Codwyd y pwynt ynglŷn ag absenoldeb unrhyw gryfderau/gwydnwch/ffactorau amddiffynnol hefyd mewn perthynas â sut mae'r offeryn yn llywio gwaith gyda phlant a phobl ifanc[26]. Cododd un cyfranogwr y pwynt ei fod yn creu darlun negyddol i bobl ifanc ac yn methu cydnabod ac adnabod agweddau cadarnhaol ar eu hymddygiad a'u cyd-destunau. Codwyd pwynt tebyg gan un grŵp ffocws a soniodd am bobl ifanc 'yn masnachu sgorau risg' gyda'r rhai sy'n cael y sgôr risg uchaf yn ennill hygrededd ymhlith eu cyfoedion. Roedd ymarferwyr sy'n gweithio gyda phobl ifanc yn awyddus i gael sail fwy cadarnhaol ar gyfer eu gwaith gyda phobl ifanc.

4.28 Ymgynghorom â chyfranogwyr ynghylch cyflwyno adran 'nodweddion allweddol' neu 'grwpiau allweddol' i'r canllawiau a'r protocol, fel ffordd o dynnu sylw at blant a phobl ifanc a allai fod fwyaf mewn perygl o gamfanteisio rhywiol. Ni chafodd hyn ei gymeradwyo, gyda'r cyfranogwyr yn dod i'r casgliad y gallai unrhyw blentyn neu unigolyn ifanc fod mewn perygl, ac y byddai ceisio amlygu grwpiau sy'n peri'r pryder mwyaf yn golygu cynhyrchu rhestr rhy hir iddi fod yn ystyrlon. Ymgynghorom hefyd â'r bobl ifanc a oedd yn cymryd rhan yn yr adolygiad ac, i'r gwrthwyneb, er eu bod yn cytuno y gallai unrhyw un fod yn destun camfanteisio rhywiol, dywedont y gallai rhai grwpiau fod yn fwy agored i gamfanteisio'n rhywiol ar blant:

**Grwpiau agored i niwed: safbwyntiau pobl ifanc**

Trafodwyd hil ac ethnigrwydd gan y grŵp, o ran dioddefwyr a chyflawnwyr camfanteisio'n rhywiol ar blant. Cytunodd y rhan fwyaf o'r grŵp nad oedd neb yn ddiogel rhag camfanteisio'n rhywiol ar blant, waeth beth fo'u cefndir ethnig, a bod cyflawnwyr y camfanteisio yn fwyaf tebygol o fod yn ddynion gwyn. Fodd bynnag, nododd un cyfranogwr dod o gefndir pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig fel nodwedd fregus oherwydd mae rhai dynion yn gweld menywod nad ydynt yn wyn fel rhai y mae angen eu rheoli, fel rhai sy'n hawdd eu rheoli neu fel "creaduriaid egsotig i'w

[26] Fel yr ystyriwyd ym mhennod 3, roedd yr offeryn SERAF gwreiddiol yn cynnwys y ffactorau hyn, fodd bynnag, collwyd y rhain yn fersiwn derfynol y SERAF a lansiwyd fel offeryn Cymru Gyfan.

cadw mewn cawell" (cyfranogwr 5). Teimlai'r cyfranogwr hwn yn gryf nad oedd yn ddigon i ddweud bod pawb yr un mor agored i gamfanteisio rhywiol, a bod menywod a merched o grwpiau pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig yn fwy tebygol o ddioddef trais ar sail rhywedd ac y dylid adlewyrchu hyn yn y diffiniad neu'r canllawiau.

Trafodwyd rhywioldeb yn fras, ac roedd rhywfaint o anghytuno ynghylch p'un a fyddai bod yn hoyw (ar gyfer bechgyn a dynion ifanc) yn gwneud gwahaniaeth i fod yn gysylltiedig â gweithgarwch camfanteisio'n rhywiol. Roedd rhai yn dadlau na fyddai rhywioldeb yn chwarae rhan mewn camfanteisio'n rhywiol ar blant, ac y gallai bechgyn a dynion ifanc syth ddal i fod yn destun camfanteisio rhywiol gan gyflawnwyr gwrywaidd. Teimlai rhai eraill, pe bai bachgen neu ddyn ifanc yn nodi ei fod yn hoyw, y byddai hyn yn nodwedd ychwanegol yn ei wneud yn agored i niwed, gan y byddai rhai cyflawnwyr yn targedu ac yn manteisio ar ddatganiadau cychwynnol o rywioldeb.

Buom hefyd yn trafod p'un a oedd profiad o ofal yn ffactor diffiniol mewn camfanteisio'n rhywiol ar blant, a sut. Teimlai'r grŵp y gallai fod yn nodwedd sy'n eu gwneud yn agored i niwed, ond y byddai plant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal yn cael eu hadrodd yn gyflymach, a'u diogelu'n gynharach. Fodd bynnag, gallai'r syniad o fod yn blant sy'n derbyn gofal ac yn destun 'gwylio' gormodol gael effaith i'r gwrthwyneb mewn perthynas ag adrodd. Roedd llawer yn cytuno y byddai bod o dan ormod o wyliadwriaeth, yn enwedig mewn gofal preswyl, yn atal pobl ifanc rhag adrodd oherwydd nid yw gweithwyr yn gwrando, maent yn neidio i gasgliadau, yn "troi beth rwyt ti wedi'i ddweud i rywbeth nad ydyw" (cyfranogwr 1) ac yn ("rhoi geiriau yn eich ceg" (cyfranogwr 2). Dywedodd un cyfranogwr, gan fyfyrio ar y cymeriad yn yr ysgrif fer a oedd yn byw gyda gofalwyr maeth, "mae'n swnio fel pe bai ond am i bobl adael llonydd iddo" (cyfranogwr 3) ond ymresymodd nad oedd hwn yn opsiwn i blant mewn gofal. Gallai'r syniad hwn o beidio â chael eich clywed fod yn ffactor gwthio i mewn i berthynas amhriodol, neu arwain at gamfanteisio'n rhywiol ar blant.

**Ymateb i gamfanteisio'n rhywiol ar blant – atal, ymyrryd, amharu ac erlyn**

4.29 Mae'r adran olaf hon yn ymdrin â chanfyddiadau allweddol o'r data mewn perthynas â thrafodaeth â chyfranogwyr yn ymwneud â materion ynglŷn ag atal, ymyrryd, ac amharu ac erlyn. Mae'r canfyddiadau yn drawsbynciol, ac yn berthnasol i bob maes gwaith, felly fe'u trefnwyd yn ôl thema er mwyn amlinellu'r manylion ym mhob un ohonynt.

*Ymarfer a gwybodaeth newydd*

4.30 Roedd yn amlwg o’r data bod datblygiadau wedi bod mewn ymarfer o ran ymateb i gamfanteisio'n rhywiol ar blant, ym mhob sector, ers cyflwyno’r canllawiau a'r protocol yn 2009. Mae tystiolaeth bod pocedi o waith amlasiantaeth a dysgu ac arfer gofal cymdeithasol rhagorol yn digwydd yng Nghymru, yn ogystal â thystiolaeth o arfer yn cael ei ddatblygu yn sgil gweithgareddau cyfnewid gwybodaeth gyda gweithwyr proffesiynol yn Lloegr. Roedd rhai enghreifftiau a rannwyd gyda ni yn cynnwys ‘Tîm Plant sydd ar Goll’ amlasiantaeth Gwent, yn defnyddio dysgu mewn technegau ymyrraeth gan Heddlu Metropolitanaidd Llundain, a dysgu o ran gwaith i gefnogi plant a phobl ifanc a ddatblygwyd gan dimau yn Rotherham. Mewn ymateb i’r datblygiadau hyn ac er mwyn eu cefnogi, mae protocolau ac arferion lleol wedi dod i'r amlwg mewn rhai Awdurdodau Lleol ledled Cymru i gefnogi'r hyn sydd yn y canllawiau a’r protocol camfanteisio'n rhywiol ar blant ac i ddarparu manylion lleol:

> “Maent yn fwy o ganllawiau ymarfer [lleol] sy'n cyd-fynd ochr yn ochr â [chanllawiau Cymru Gyfan] felly nid ydynt yn eu disodli mewn unrhyw ffordd, ac mewn ffordd maent yn dyfynnu’n uniongyrchol rhannau o’r , wyddoch chi, yn cyfeirio ato, ond yn fwy na hynny maent yn helpu ymarferwyr rheng flaen a rheolwyr i ddeall ystyr hynny yn ymarferol iddynt. *Felly maent ychydig bach yn fwy ymarferol ac mae ganddynt gysylltiadau i ba wasanaethau sydd gennym [ar waith[ yn benodol, a chysylltiadau allweddol a’r math hynny o beth, felly ie, nid ydyn nhw’n ei ddisodli o gwbl, dim ond rhyw fath o arwain, ie.” (Cyfweliad:* Cydgysylltydd arweiniol camfanteisio'n rhywiol ar blant)

> “Ni allaf ganmol ein PPU digon. *Felly maent, yr hyn rwyf wrth fy modd ag ef yw nad oes angen imi ofyn iddynt fynd a gwneud unrhyw waith amharu, maent eisoes allan yn ei wneud. Wyddoch chi, maent yn ei alw yn gyfweliadau’n cael eu harwain gan wybodaeth, mae ganddynt bob math o bethau, maen nhw'n wych. Felly, rwy’n credu bod angen i ni gipio hynny a’i roi yn y canllawiau oherwydd rwy’n gwybod nad yw’r holl luoedd, a’r holl PPUs o fewn y lluoedd, yr un fath”.(Grŵp ffocws 14)*

4.31 Ar y llaw arall, ceir tystiolaeth mewn rhai Awdurdodau Lleol nad yw’r protocol yn cael ei ddilyn, gan arwain at wasanaeth ac ymateb i blant a theuluoedd na ellid ei

ystyried yn arfer gorau. Mynegwyd rhwystredigaethau a phryderon gan gyfranogwyr nad oedd cyfarfodydd strategaeth yn cael eu cynnal mewn rhai Awdurdodau Lleol pan ddylent fod, ac nad oedd yr holl blant a oedd yn wynebu risg sylweddol yn cael cymorth.

4.32 Yn gysylltiedig â’r ddau bwynt uchod, codwyd pryderon ynghylch y diffyg cysondeb ar gyfer plant a phobl ifanc ledled Cymru. Er enghraifft, codwyd pryderon ynglŷn â’r gwahaniaeth mewn ymyriadau neu pecynnau cymorth a chynlluniau diogelwch yn cael eu rhoi i blant a phobl ifanc, ac am y mewnlifiad diweddar o weithwyr cymorth neu wasanaethau sydd wedi'u cynllunio i ymateb i gamfanteisio'n rhywiol ar blant mewn Awdurdodau Lleol, ond nad oeddent yn cael eu cydgysylltu’n dda, gan olygu bod perygl dyblygu gwasanaethau ar gyfer pobl ifanc. Mae yna feysydd hefyd lle mae’r protocol wedi'i addasu fel bod, ar gyfer rhai Awdurdodau Lleol, yr holl blant a phobl ifanc sydd yn wynebu risg sylweddol yn cael eu rhoi ar y gofrestr amddiffyn plant, ond nid dyma'r achos ar gyfer Awdurdodau Lleol eraill.

> *“Rwy’n credu mai’r hyn sydd wedi dod yn amlwg heddiw yw pwysigrwydd cysondeb ledled Cymru ac yn amlwg ar draws y rhanbarth, eglurder i bawb, ni waeth o ba asiantaeth yr ydych yn dod, a dull gweithio amlasiantaeth gwirioneddol gadarn yn y canllawiau hynny”.(Grŵp ffocws 4)*

4.33 Er i gyfranogwyr ddweud nad oeddent eisiau colli arfer da lle na fyddai'n briodol neu'n ymarferol i’w gyflwyno ledled Cymru, roedd consensws cryf ynghylch pwysigrwydd ail-sefydlu’r broses yn y protocol ac i ddysgu da gael ei ymgorffori o fewn unrhyw newidiadau i'r canllawiau a'r protocol er mwyn sicrhau arferion cyson ledled Cymru.

**Achos enghreifftiol:**

Er y defnyddir y SERAF ledled Cymru fel offeryn asesu, a bod Protocol Cymru Gyfan yn amlinellu gweithdrefnau sylfaenol ar gyfer ymatebion camfanteisio'n rhywiol ar blant ceir amrywio yn y canllawiau o ranbarth i ranbarth. Darperir dwy enghraifft leol isod:

**Caerdydd a'r Fro**

Mae strategaeth ymateb Cyngor Caerdydd yn canolbwyntio ar uwchgyfeirio i MASM mewn achosion lle asesir bod plentyn neu unigolyn ifanc yn wynebu risg gymedrol neu risg sylweddol yn seiliedig ar eu sgôr SERAF. I'r rhai a aseswyd eu bod yn wynebu risg gymedrol, caiff uwchgyfeirio i MASM ei wneud yn ôl disgresiwn yr ymarferydd, er y bydd y tîm camfanteisio'n rhywiol ar blant Caerdydd yn cynghori ar achosion o'r fath. Yn ogystal, mae Bwrdd Amddiffyn Plant Rhanbarthol Caerdydd a'r Fro wedi datblygu fframwaith ymholi critigol gyda'r nod o ddarparu ffordd fwy strwythuredig o werthuso achosion o gamfanteisio'n rhywiol neu achosion o wynebu risg. Mae'r fframwaith hwn yn darparu manylion pellach ynghylch nodweddion bregus a risgiau ac yn cymryd golwg gyfannol ar ffactorau ym mywyd plentyn neu unigolyn ifanc, gan ddarparu trosolwg cynhwysfawr o strategaethau atal ac ymyrryd (gweler BRhDP Caerdydd a'r Fro, 2016; Cyngor Dinas Caerdydd, 2016).

**Casnewydd**

Mae canllawiau penodol gan Gyngor Dinas Casnewydd ar gyfer sefydlu cynlluniau diogelwch a strategaethau amharu ar gyfer plant a phobl ifanc y camfanteisir yn rhywiol arnynt (2016). Mae hyn yn darparu fframwaith ar gyfer ymateb mewn amrywiaeth o achosion, gan fod yn ystyriol o gyd-destun profiadau unigol y plentyn neu'r unigolyn ifanc. Mae gan Gasnewydd ganllawiau cyffredinol ar gamfanteisio'n rhywiol ar blant hefyd sy'n defnyddio'r model Arwyddion Diogelwch, sef dull diogelu a ddatblygwyd gan ymgynghoriaeth gofal cymdeithasol yn Awstralia, ac sydd wedi'i werthuso yn Lloegr gan yr NSPCC (Bunn 2013).

*Y cyd-destun ehangach o ymateb i gamfanteisio'n rhywiol ar blant*

4.34 Yn dilyn y pwynt blaenorol, mae'r data yn dangos bod angen diweddaru'r canllawiau a'r protocol er mwyn adlewyrchu a chysylltu â newidiadau mewn polisi ac ymarfer gofal cymdeithasol ehangach, i sicrhau bod systemau yn gweithio ac

yn ategu ei gilydd. Cyfeiriodd cyfranogwyr at newidiadau diweddar i Ddeddf Troseddau Rhywiol (2003), Deddf Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015, a'r ddeddf newydd Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Hefyd, codwyd y newidiadau posibl i Weithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan yn dilyn yr adolygiad presennol fel rhai sydd angen rhoi sylw iddynt. Rhoddir enghraifft o'r materion a godwyd isod:

> *"Felly'r hyn ry'n ni'n ei wneud yn awr gyda'r Ddeddf Llesiant, rydym yn gwneud atgyfeiriad amddiffyn oedolyn ac rydym wedi rhoi hynny ar ein siart llif... Pe bai'r canllawiau yn gallu dweud unrhyw beth am hynny, rwy'n credu [y byddai'n ddefnyddiol]." (Grŵp ffocws, 12)*

4.35 Yn ogystal, teimlwyd y dylai'r canllawiau gyfeirio at faterion amddiffyn plant sy'n gorgyffwrdd, fel ymddygiad rhywiol niweidiol, trais partner yn ei arddegau, cam-drin domestig, a chamfanteisio ar gyffuriau; enwedig o ran atal a'r cysylltiad rhwng y materion hyn a bod yn agored i niwed.

4.36 Yn gysylltiedig, un mater a godwyd yn rhai o'r grwpiau ffocws a'r cyfweliadau oedd cydgysylltiad atal camfanteisio'n rhywiol ar blant a mentrau, cynlluniau ac arferion eraill ehangach y llywodraeth – megis pryderon ynghylch gofal a'r system gofal a (diffyg) cyfleoedd i blant ymgysylltu'n gadarnhaol â gweithwyr proffesiynol, ochr yn ochr â'r angen i Lywodraeth Cymru sicrhau bod plant a phobl ifanc yn gallu cael cymorth priodol drwy'r gwasanaethau ieuenctid a mentoriaid. Er y gellir sôn am y rhain yn y canllawiau ar gamfanteisio'n rhywiol ar blant, ac er ei bod yn amlwg bod y rhain yn bryderon i Lywodraeth Cymru eu hystyried, mae'r rhain yn perthyn i gyd-destun ehangach camfanteisio'n rhywiol ar blant, a dylid gwella'r ffocws, ac efallai y gellir gwella'r ffocws, ac yn fwy penodol, o fewn y canllawiau perthnasol a deddfwriaeth.

*Rolau a chyfrifoldebau*

4.37 Roedd pwysigrwydd gwaith amlasiantaeth ac amlsector yn thema drawsbynciol bwysig yn deillio o'r data, ac roedd yn ymwneud â bron bob pwynt a wnaed o ran ymateb i gamfanteisio'n rhywiol ar blant. Pwysleisiodd yr holl gyfranogwyr y pwysigrwydd i gamfanteisio'n rhywiol ar blant, fel y dywedodd un cyfranogwr: "fod yn fusnes pawb". Mae'r pwynt hwn yn ymwneud yn benodol ag adran tri o'r

canllawiau, lle mae'n ystyried rolau a chyfrifoldebau, ond fe'i pwysleisiwyd yn bennaf gan gyfranogwyr o ran atal a chyd-destun ehangach camfanteisio'n rhywiol ar blant, a'r angen am ddull cyson yn ôl sector ar draws Cymru. Er y cydnabuwyd bod y wybodaeth hon yn y canllawiau, teimlwyd y dylid ei phwysleisio:

> *"Mae wedi'i chynnwys yn y canllawiau presennol ond rwy'n credu bod angen iddi fod yn llawer cryfach mewn perthynas â'r rôl a ddarperir gan addysg, ac mae angen iddi dargedu plant iau o lawer o ran beth yw perthynas iach ac ati. Mae'n tueddu i fod, mae tuedd i sôn am y grŵp yn eu harddegau neu, wyddoch chi, y rhai 11, 12 oed. Y realiti i ni yw bod ein plant yn yr ysgol gynradd y mae ganddynt ffonau symudol yn cael mynediad at bornograffi craidd caled, ac mae pobl eraill yn cysylltu â nhw. Mae'n rhaid iddo ddechrau ar oedran llawer cynharach, felly nid yw'n ymwneud yn unig â chynorthwyo staff i adnabod y plant hynny a allai fod yn wynebu risg neu'r plant hynny sydd wedi bod yn destun camfanteisio, credaf fod eu rôl o ran atal yn hanfodol o ran addysg." (Grŵp ffocws 13)*

4.38 Fel y dengys y dyfyniad uchod, un mae mater cysylltiedig a godwyd oedd y rôl allweddol sydd gan addysg i'w chwarae o ran atal. Soniodd bron pob un o'r grwpiau ffocws am y rôl bwysig y mae ysgolion cynradd ac uwchradd yn ei chwarae o ran addysgu plant a phobl ifanc am gydberthnasau iach, materion yn ymwneud â chaniatâd, cyffwrdd yn ddiogel, a darparu mannau diogel i godi materion diogelu posibl. Ymddengys bod hyn yn digwydd mewn rhai ysgolion – clywsom am enghreifftiau o ddramâu ysgol a mannau trafod yn mynd i'r afael â'r materion hyn yn cael eu darparu ar gyfer disgyblion – ond nid yw hyn yn gyson ledled Cymru. Trafodwyd yr angen i gryfhau rôl ysgolion ac athrawon, yn ogystal â'r angen i ychwanegu rhywbeth yn y canllawiau a fyddai'n gwella cyfathrebu rhwng gwasanaethau cymdeithasol ac ysgolion o ran asesu, ymatebion a rhoi diweddariad ar gynnydd achos unigolyn ifanc.

4.39 Yn ogystal, rhoddodd gyfranogwyr enghreifftiau o'r rôl bwysig y gall gwasanaethau addysg ac ieuenctid ei chwarae o ran mentrau atal ehangach, ond hefyd drwy gymryd rhan uniongyrchol mewn gwaith cymorth wrth ymyrryd mewn achosion o gamfanteisio'n rhywiol ar blant. Eto, ystyriwyd y dylid pwysleisio hyn yn y canllawiau, yn enwedig mewn perthynas â chwilio am gyfleoedd i fanteisio i'r eithaf

ar gyfleoedd i ddatblygu’r berthynas 'allweddol' gydag ystod ehangach o weithwyr proffesiynol nad ydynt yn statudol:

> *“Felly yn realistig, nid yw hyd yn oed mor ddrud â hynny, wyddoch chi, i drefnu cyfleoedd i bobl ifanc gymryd rhan mewn gweithgareddau y maent yn eu mwynhau oherwydd credaf mai’r broblem sydd wedi bod gennym ers tro yw bod pobl am weld canlyniadau wedi'u diffinio'n glir, beth mae’r unigolyn ifanc hwn yn ei gael o rywbeth yr ydym wedi talu amdano? Ac mewn rhai achosion nid yw’r rhain i’w cael. Does gennych chi ddim canlyniad wedi'i ddiffinio'n glir ar gyfer adeiladu gwydnwch, ar gyfer adeiladu hunanbarch; yr hyn sydd gennych yw pobl ifanc yn gwneud dewisiadau gwell a dyna’r unig ffordd y gallwch ei fesur... A wyddoch chi, pan oeddwn i’n gweithio mewn canolfan ieuenctid, mae’n siwr bod yna ryw 20 o bobl ifanc agored i niwed yn yr ardal honno a ddaeth am y rheswm hwnnw. Ac weithiau byddent yn gwneud ffrindiau ac weithiau doedden nhw ddim, ond mewn gwirionedd, mae rhywle diogel i’w gael gyda phobl sy'n gofalu amdanynt a fydd yn eu cyflwyno i wahanol fathau o weithgareddau sydd yn araf ac yn sicr yn helpu i adeiladu eu cryfderau; nid ydynt yn cael eu mesur yn ôl sut maen nhw'n gwneud yn yr ysgol yn unig.” (Grŵp ffocws 19)*

4.40 Codwyd pwynt tebyg o ran yr angen i ddiweddaru gwybodaeth am rôl yr heddlu ac iechyd. Er enghraifft, yn y canllawiau pennir rôl yr heddlu fel un yn ymwneud ag erlyn, ond bellach mae atal a gweithio i ymateb i nodweddion bregus yn gymaint yn rhan o agenda’r heddlu ag ydyw i asiantaethau eraill. Yn ogystal, fel yr ystyriwyd yn yr adran ar asesu, dylid diweddaru'r wybodaeth am rôl iechyd i adlewyrchu'r cyfraniad y gall yr ymarferwyr hyn ei wneud mewn cyfarfodydd strategaeth a gwaith allgymorth, yn enwedig yng nghyd-destun iechyd rhywiol lle mae ymarferwyr yn cefnogi’n uniongyrchol neu’n gysylltiedig â gwybodaeth am unigolyn ifanc nad oes gan weithwyr proffesiynol eraill fynediad iddi o bosibl. Dylid ystyried y gwaith sydd wedi'i wneud ar y SERAF iechyd, a sut bydd y gwaith hwnnw’n cydweddu ag unrhyw brotocol neu ganllawiau newydd (oherwydd y datblygiad diweddar yn y gwaith hwn nid yw yn y canllawiau cyfredol).

4.41 Mewn nifer o grwpiau ffocws, codwyd yr angen i symud i ffwrdd oddi wrth y syniad mai gwaith gweithwyr arbenigol yw ymateb i gamfanteisio'n rhywiol ar blant, a’r teimlad oedd ei fod yn rhywbeth y mae angen i bob gweithiwr proffesiynol fod yn ymwybodol ohono. Codwyd pwynt hefyd fod angen i rôl Barnardo's gael ei gwahanu oddi wrth y canllawiau a'r protocol. Roedd teimlad ymysg rhai cyfranogwyr nad yw’r berchnogaeth hon ar SERAF yn glir, ac am mai Barnardo's wnaeth ddatblygu’r SERAF, dylid gwneud gwahaniad clir rhwng yr offer a'r canllawiau a rôl Barnardo's. Ar hyn o bryd mae cyfeiriad penodol yn cael ei wneud at Barnardo's yn y canllawiau, a dylid dileu hwn. Yn gysylltiedig â’r pwynt hwn hefyd oedd y farn y dylid ychwanegu camfanteisio'n rhywiol ar blant at bob hyfforddiant diogelu a gynhelir yng Nghymru, yn ogystal â bod angen darparu canllawiau ar gyflawni swyddogaethau diogelu corfforaethol Awdurdodau Lleol.

*Ymyrryd a gweithio i gyflawni newid cadarnhaol*

4.42 Thema arall yn y data oedd yr angen am i’r canllawiau ddweud rhywbeth am sut i ymateb i bobl ifanc y mae pryderon dynodedig ar eu cyfer sy'n ymwneud â chamfanteisio'n rhywiol ar blant. Nododd cyfranogwyr rwystredigaethau bod gormod o ffocws wedi’i roi ar asesu ac nad oes digon o wybodaeth yn cael ei rhoi am y ffordd orau i ymateb neu ymyrryd. Ochr yn ochr â hyn, fodd bynnag, oedd diffyg gwybodaeth am ba ymyriadau allai ‘weithio’. Nododd rhai cyfranogwyr fod yna wybodaeth am ddulliau gweithio, a siaradont am eu profiadau o ganlyniadau cadarnhaol yn cael eu cysylltu â pherthnasoedd cadarnhaol rhwng pobl ifanc a gweithwyr. Siaradodd rhai eraill am y potensial i ddefnyddio’r nodweddion bregus a’r risgiau ar ffurflenni asesu pobl ifanc i lywio eu cynlluniau diogelwch.

4.43 Soniodd rhai cyfranogwyr rheng flaen am bwysigrwydd yr angen i ystyried mewnbwn therapiwtig a dulliau a gaiff eu llywio gan drawma, a nodwyd nad oedd canolbwyntio ar weithio gyda phobl ifanc i’w haddysgu am gydberthnasau cadarnhaol, er eu bod yn bwysig, yn ddigon ar ei ben ei hun. Awgrymwyd bod angen i gyfarwyddyd ar hyn fod ar gael yn y canllawiau[27]. Codwyd cyflwyno dulliau lleihau niwed i waith gyda phobl ifanc hŷn hefyd fel ymateb priodol, ynghyd â phryderon am yr angen i gyflwyno’r dull hwn yn ffurfiol ar gyfer pobl ifanc 17 oed,

[27] Mae hyn yn cysylltu â nodau’r prosiect ‘Gwella’, a ariennir gan Lywodraeth Cymru drwy’r Grant Cynnal Gwasanaethau Cymdeithasol. Mae cynlluniau peilot o’r dull Gwella sy’n seiliedig ar dystiolaeth wrthi’n dechrau ar adeg ysgrifennu, gyda'r gwerthusiad i’w gyhoeddi yn ystod gwanwyn 2019.

cyn iddynt symud i drosglwyddo i'r gwasanaethau i oedolion, fel y nodwyd yn y dyfyniad canlynol o drafodaeth grŵp ffocws:

> Cyfranogwr 1: *Roedd un yn ymwneud â'r newid o ieuenctid i fod yn oedolyn, credaf ein bod yn well o lawer yn adnabod plant erbyn hyn, ond nid ydym yn rhyw dda iawn ar reoli'r newid hwnnw wedyn i fod yn oedolyn lle mae'r cymorth yn diflannu.*
>
> Cyfranogwr 2: *Mae hwnnw'n bwynt da, ydy.*
>
> Cyfranogwr 1: *Dysgais y ffordd galed, rwyf wedi cyflwyno hysbysiadau herwgydio ar blant, neu gariadon plant hyd nes eu bod yn 18 oed, ac wedyn maent yn mynd y tu hwnt i 18 oed ac yna ni allwch wneud hynny mwyach, ac nid oes gennych unrhyw ffordd o'u rheoli, ac efallai'r ffordd y gwnaethom fyfyrio ar yr arfer hwnnw oedd, bod angen i chi mewn gwirionedd ddysgu goddef risg ychydig yn fwy wrth iddyn nhw fynd yn hŷn, ac, wn i ddim, derbyn perthnasoedd na fyddech efallai wedi'u derbyn [pan oeddent] yn iau cyhyd â'ch bod yn gallu asesu risg hynny'n briodol." (Grŵp ffocws 15)*

*Cyfarfodydd strategaeth amlasiantaeth*

4.44 Cynhelir cyfarfodydd strategaeth amlasiantaeth â diben tebyg ond gydag enwau amrywiol (MACE, MASM, MACSE neu gyfarfodydd grŵp llywio camfanteisio'n rhywiol ar blant) ledled Cymru. Mewn rhai rhannau o Gymru mae'r rhain wedi'u sefydlu'n dda bellach (yng Ngwent a Chaerdydd, er enghraifft) ond mewn rhannau eraill dim ond yn ddiweddar y cawsant eu cyflwyno (ym Mhowys er enghraifft), er yr ymddengys bod pob ardal yn gweithredu grwpiau o lefel strategol tebyg.

> *"cymerodd ein bwrdd diogelu rhanbarthol gyfrifoldeb am hynny, rhoddwyd gweithgor camfanteisio'n rhywiol ar blant ar waith, a bellach mae gennym y cyfarfodydd MACE hynny yn cael eu cynnal yn ardal pob awdurdod lleol, a'u cadeirio gan y Gwasanaethau Plant; yr un bobl ag sydd gennych sy'n mynychu, ac maent yn edrych ar y materion trawsbynciol hynny yn ymwneud ag ad-droseddwyr, lleoliadau, dioddefwyr, pethau o'r natur honno, felly dim ond yn ddiweddar, tuag at ddechrau'r flwyddyn hon mewn gwirionedd, y mae hynny wedi'i ymgorffori o ran y math mwy strategol hwnnw o oruchwyliaeth gan fwrdd diogelu, rhyw fath o gyfarfod MACE. Ond mae'n helpu. (Grŵp ffocws 15)*

4.45 Diben y cyfarfodydd hyn yw trafod agweddau mwy strategol ar atal ac ymyrryd, ac maent yn wahanol i gyfarfodydd strategaeth camfanteisio'n rhywiol ar blant ar gyfer plant a phobl ifanc unigol. Yr ymateb cyson gan gyfranogwyr am y cyfarfodydd hyn oedd eu bod yn ddatblygiad cadarnhaol, yn arbennig felly ar gyfer yr heddlu sy'n gweithredu ar draws Awdurdodau Lleol. Fodd bynnag, mae'r ffaith mai'n gymharol ddiweddar y cawsant eu cyflwyno yn golygu nad ydynt i gyd yn gweithredu yn ôl yr un cylch gorchwyl. Nid yw statws llinellau atebolrwydd ar gyfer y cyfarfodydd hyn wedi'i sefydlu ychwaith – caiff rhai grwpiau eu cadeirio gan yr heddlu tra bod rhai eraill yn cael eu cadeirio gan y gwasanaethau cymdeithasol, ac efallai y bydd gan hyn oblygiadau ar gyfer atebolrwydd datganoledig neu annatganoledig neu ar ba safbwynt sector ddylai 'arwain'. Ni chodwyd hyn gan gyfranogwyr gydag unrhyw bryder, er y nodwyd yr anghysondeb a byddent yn croesawu canllawiau ar a yw hyn yn bwysig ai peidio.

*Llywodraethu, atebolrwydd a thryloywder*

4.46 Nodwyd bod angen i'r canllawiau hyn gynnwys gwybodaeth am fecanweithiau ar gyfer atebolrwydd ac ar gyfer sicrhau y caiff y protocol ei ddilyn ledled Cymru, yn ogystal â thrafodaeth am yr angen i sicrhau tryloywder a darparu mecanwaith ar gyfer rhannu arfer gorau ledled Cymru.

> Cyfranogwr 1: *Nid oes unrhyw beth yn y protocol hwnnw sy'n sôn am gyfarfodydd strategol [cenedlaethol] yn ymwneud â chamfanteisio'n rhywiol ar blant, nag oes? Mae ond yn sôn am y cyfarfod strategaeth.*
> Cyfranogwr 2: *Mae angen ichi gael dull haenog, ond oes? Mae gennych y pethau gweithredol ar waith, ac rwy'n credu bod angen y dull haenog hwnnw arnon ni hyd at lefel byrddau diogelu a grwpiau cenedlaethol.*
> Cyfranogwr 3: *Ac mae'n debyg mai dyna'r peth eraill, felly mae'r byrddau diogelu i fod i gael cynlluniau camfanteisio'n rhywiol ar blant ynddynt, ond ydyn nhw? Nid wyf yn gwybod beth yw ansawdd y cynlluniau hynny, sut cânt eu gwirio, sut yr edrychwn am arfer da rhyngddynt, ac nid wyf yn meddwl bod hynny gan y bwrdd cenedlaethol diogelu plant fel darn o waith i'w wneud ychwaith. Felly, rwy'n credu bod risg i ryw fath o ddweud bod gennym rywbeth, ond nid wyf yn gwybod beth yw ei ansawdd na sut mae'n cysylltu â hynny, felly mae'n debyg bod hwnnw'n ddarn arall o waith i'w ddatblygu mewn gwirionedd." (Grŵp ffocws 16)*

4.47 Cododd rhai cyfranogwyr Grŵp Bord Gron y Comisiynydd Plant ar gamfanteisio rhywiol ar blant fel model da, ond codwyd pryderon nad oes unrhyw sicrwydd y gallai hyn barhau, gan fod hwn yn grŵp anghyffredin am nad oes grŵp cyfatebol ar gyfer materion eraill sy'n effeithio ar blant a phobl ifanc (felly roedd pryderon yn ymwneud â pham a beth yw'r symbyliad ar gyfer neilltuo camfanteisio'n rhywiol ar blant yn y fath fodd, a lle mae'r sail dros i'r neilltuo hwn barhau). Codwyd hefyd y cynnydd cyflym mewn datblygiadau ymarfer a chyflwyno prosesau lleol, yn ogystal â'r pryderon a godwyd ynghylch y diffyg cysondeb cynyddol ar gyfer gwaith yn ymwneud â chamfanteisio'n rhywiol ar blant, mewn cysylltiad â'r pwynt hwn ynglŷn â'r angen i gasglu a rhannu arfer da (yn ogystal â phwy sy'n penderfynu beth yw 'arfer da').

*Rheoli lleoliadau y tu allan i'r sir/y wlad*

4.48 Er mai dim ond un agwedd ar ymateb i gamfanteisio'n rhywiol ar blant ydyw, roedd rheoli a sicrhau diogelwch plant a phobl ifanc sy'n cael eu lleoli 'y tu allan i'r sir' – yng Nghymru a thu hwnt, yn ogystal ag o Loegr i Gymru – yn thema amlwg. Codwyd pryderon ynglŷn â hyn ym mhob grŵp ffocws, ym mron pob sector. Mynegodd cyfranogwyr bryderon ynghylch pwy sy'n cymryd cyfrifoldeb dros gefnogi plentyn neu unigolyn ifanc sydd ar leoliad:

> *"rydym yn cael helynt ofnadwy pan fydd ein plant yn cael eu lleoli y tu allan i'r sir lle mae pethau'n digwydd. Felly nid fy nghyfrifoldeb i ydyw i gynnull cyfarfod strategaeth amlasiantaeth lle mae'r plentyn yn cael ei leoli y tu allan i'r sir, cyfrifoldeb yr awdurdod arall ydyw ac mae gennym waith aruthrol i'w wneud hyd yn oed yng Nghymru pan fyddwn ni i gyd yn gweithio i'r un, wyddoch chi". (Grŵp ffocws 11)*

4.49 Codwyd pryderon diogelu hefyd ynglŷn â'r diffyg rhannu gwybodaeth o fewn y broses. Adroddodd yr heddlu am bryderon ynghylch achosion lle na fyddant yn cael gwybod pan fydd plentyn neu unigolyn ifanc, sydd wedi'u symud oherwydd pryderon ynglŷn â chamfanteisio'n rhywiol ar blant, yn cael eu lleoli o fewn ardal heddlu, gan olygu nad ydynt yn gallu bod yn rhagweithiol o ran rheoli ac ymateb i risg bosibl yn ymwneud â'r unigolyn ifanc (a phobl ifanc eraill yn yr ardal). Roedd anawsterau a ddisgrifiwyd gan ymarferwyr yn cynnwys problemau yn rheoli risgiau lle nad oedd atgyfeiriadau'n cynnwys gwybodaeth am bryderon yn ymwneud â

chamfanteisio'n rhywiol, neu lle'r oedd pobl ifanc wedi'u lleoli gyda'i gilydd ac yn peri risg i'w gilydd, ond na chafodd yr wybodaeth ei darparu i'r awdurdod lleol sy'n derbyn/lleoliad.

4.50 Yn yr un modd, codwyd pryderon mewn perthynas â'r fantais o leoli plant a phobl ifanc tu allan i'r sir, gyda chyfranogwyr yn cyfeirio at risgiau cynyddol pobl ifanc yn mynd ar goll ac yn rhedeg i ffwrdd, ymdeimlad cynyddol o ynysu i'r plentyn neu'r unigolyn ifanc, a'r anawsterau o gadw cysondeb o ran cyswllt a gweithwyr o'u hawdurdod cartref oherwydd cyfyngiadau pellter ac amser ar gyfer gweithwyr. Holodd rhai cyfranogwyr p'un a hwn oedd y dull gweithredu iawn ar gyfer plant a phobl ifanc mewn perygl o gamfanteisio rhywiol, a bod penderfyniadau i leoli pobl ifanc yn cael eu hysgogi gan (ddiffyg) adnoddau yn hytrach na phryderon diogelu.

4.51 Lle ystyrir bod angen lleoliadau y tu allan i'r sir/y wlad, rhoddwyd enghreifftiau yn dangos tystiolaeth o arfer da o ran sut i reoli'r rhain:

> *"Mae hyn yn rhywbeth y gall yr awdurdod lleol ei wneud, pan fydd rhaid i ni leoli plentyn y tu allan i'r awdurdod lleol ac mae gennym bryderon ynglŷn â chamfanteisio'n rhywiol ar blant, byddaf yn cysylltu â'r ddarpariaeth breswyl honno ac yn dweud, hoffwn i chi esbonio eich ymateb i bryderon camfanteisio'n rhywiol ar blant i mi, beth fyddwch chi'n ei wneud pan maent yn mynd ar goll?" (Cyfweliad: Rheolwr arweiniol ar gyfer atal camfanteisio'n rhywiol ar blant)*

4.52 Awgrymodd nifer o'r grwpiau ffocws a'r rhai a gyfwelwyd, pan fydd lleoliadau y tu allan i'r sir yn digwydd yng Nghymru, dylai gweithdrefn reoli dda fod yn ofyniad ar gyfer yr holl unedau preswyl (gan gynnwys y sector preifat) a'r awdurdodau lleoli, a dylai'r rheoli hwn fod yn fesur ar gyfer AGGCC.

*Cyfranogiad plant a theuluoedd*

4.53 Thema benodol a drafodwyd gan gyfranogwyr oedd cynnwys plant, pobl ifanc a'u teuluoedd yn y broses asesu ac mewn cyfarfodydd strategaeth, er na chafwyd consensws ynghylch hynny. Fe wnaeth y rhai a gododd hyn fel rhywbeth y dylid ei gyflwyno gyfeirio at yr angen i gynnwys plant a phobl ifanc wrth wneud penderfyniadau ynglŷn â'u gofal, gan nodi sut ddylai ymateb i gamfanteisio'n rhywiol ar blant adlewyrchu'r ymagwedd seiliedig ar gryfderau a anogir gan Ddeddf

Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a'r agenda hawliau plant, yn ogystal â gwaith teulu, fel rhywbeth canolog i ymarfer gwaith cymdeithasol. Cyfeiriodd rhai eraill at y modd y mae diffyg cyfranogiad pobl ifanc wrth wneud penderfyniadau wedi'i nodi fel ffactor risg yn y llenyddiaeth, a gellir cysylltu hyn â'u natur agored i gamfanteisio rhywiol a dylai ffurfio rhan hanfodol o ymatebion. Mae'r rhain hefyd yn themâu cryf o'r llenyddiaeth (gweler adrannau 3.50-3.56).

4.54 Fodd bynnag, nid oedd yr holl gyfranogwyr yn gadarnhaol ynglŷn â chynnwys pobl ifanc yn y broses, gan gyfeirio at bryderon ynghylch rhannu gwybodaeth a chyfrinachedd, bod yn ansicr ynghylch y buddion i bobl ifanc, pryderon ynghylch ymdrin â'u cyfranogiad a hynny, o bosibl, yn ychwanegu at nodweddion bregus, a phryderon ynghylch p'un a fyddai'n arwain at ganlyniadau cadarnhaol ar gyfer plant a phobl ifanc. Rhoddir enghraifft o hyn yn y dyfyniad canlynol o grŵp ffocws:

> Cyfranogwr 1: *byddech chi'n eu llusgo nhw [pobl ifanc] i gyfarfod strategaeth ac yn dweud wrthynt pam maen nhw yma. Rwyf yn ymwybodol y byddant, pan fyddai'n crybwyll hynny, naill ai'n mynd i'w cragen ac yn dweud dim wrthych, neu maent yn mynd i ddweud wrth yr unigolyn [sy'n camfanteisio], felly mae'n anodd iawn, yn wirioneddol anodd, a byddai fy nghydweithwyr yn yr heddlu yn dweud yn syth welwch chi, byddent yn dweud peidiwch â dweud wrthynt oherwydd rydyn ni'n poeni amdano ef neu amdani hi. Felly, mae'n wirioneddol anodd.*
>
> Cyfranogwr 2: Ie, ond yna mae rhai pobl ifanc yn meddwl, amdanaf fi mae hyn, rydw i eisiau mynd, rwyf am wybod beth sy'n mynd ymlaen, rwyf am wybod beth mae pobl yn ei ddweud amdanaf i. Wrth gwrs, ond mae'n golygu hefyd cael y sgwrs honno gyda'r unigolyn ifanc a dweud, wel, rydyn ni'n mynd i gael cyfarfod, oherwydd byddant yn gwybod bod cyfarfod, ac rydych chi'n gwybod y byddwn ni'n cael sgwrs ac yn esbonio pethau.
>
> Cyfranogwr 3: *Mae'n rhyw fath o dynnu ychydig o bethau ynghyd, ac mae un o'r pethau rydym yn ceisio ei wneud fel ysgol o fewn ein fframwaith dulliau adferol, a wyddoch chi, ychydig flynyddoedd roedd gobaith mawr [lleoliad] y byddai pawb yn ei wneud. Ac rwy'n credu bod y math hwnnw o fodel lle caiff llais pawb ei glywed yn beth eithaf da. Ond rwyf hefyd wedi eistedd drwy ormod o gyfarfodydd eithaf anesmwyth sydd wedi cyflawni dim, am fod rhaid i weithwyr proffesiynol fod ychydig yn fwy gofalus ynglŷn â beth rydych yn ei*

*ddweud, oherwydd bod rhieni yno neu fod yr unigolyn ifanc yno, ac yna mae'r unigolyn ifanc yn clywed y pethau hyn amdano/amdani [ei hun], rydych chi'n gwybod nad yw hi'n sefyllfa ddelfrydol" (Grŵp ffocws 18)*

4.55 Mae adborth gan bobl ifanc a gymerodd ran yn yr adolygiad yn crynhoi'r ddwy farn sydd gan y cyfranogwyr proffesiynol:

**Ymgynghori â phobl ifanc a'u cynnwys – safbwyntiau pobl ifanc**

Cododd pobl ifanc yn ein grŵp ffocws bryderon ynghylch peidio ag adrodd am ymddygiad neu ddigwyddiadau oherwydd nad oeddent yn ymddiried yn y gweithwyr neu'r heddlu, neu am nad oedd ganddynt berthynas dda â nhw. Buont hefyd yn trafod cael profiadau gwael o adrodd am rywbeth a chael eu cau allan o'r camau gweithredu a gymerwyd gan weithwyr proffesiynol mewn ymateb i'r datgeliad. Er nad oedd hyn yn benodol i gamfanteisio'n rhywiol ar blant, mae'r neges am ddiffyg adrodd yn berthnasol. Disgrifiodd un cyfranogwr mai'r unig reswm yr oedd yn gwybod am gyfarfod a oedd yn cael ei gynnal amdano oedd bod rhywun wedi ffonio i ofyn am rif ffôn ei weithiwr cymdeithasol. Arweiniodd y digwyddiad hwn at ddiffyg ymddiriedaeth ganddo yn unrhyw un o'i weithwyr a pheidio â'u credu pan oeddent yn ei sicrhau y byddai'r hyn a ddywedodd yn gyfrinachol:

*Cyfranogwr 1 "ry'ch chi'n gwybod beth i'w wneud y tro nesaf ond ydych chi? Dweud diawl o ddim wrthyn nhw!"*

*Cyfranogwr 2 "Ie, wel, stopiais ddweud popeth wrthyn nhw!"*

*Cyfranogwr 1 "rydych chi'n dysgu hynny o oedran ifanc"*

*Cyfranogwr 3 "ie, rydych chi'n dysgu o'ch camgymeriadau"*

Mae'r 'camgymeriad' y mae'r cyfranogwr uchod yn cyfeirio ato yma yn ymwneud â phrofiadau gofal. Nid eu hymddygiad neu'r digwyddiad sy'n gamgymeriad; y camgymeriad oedd dweud wrth weithiwr cymdeithasol am bryderon neu ofidiau. Mae hwn yn bwynt pwysig wrth feddwl am sut i ymateb i blant a phobl ifanc sy'n gysylltiedig â chamfanteisio'n rhywiol ar blant. Dywedodd y bobl ifanc wrthym, er mwyn atal tan-adrodd neu ddiffyg adrodd, bod adeiladu perthynas gyda gweithiwr, gallu dibynnu ar y gweithiwr hwnnw a chynnwys pobl ifanc yn y camau gweithredu a'r ymatebion yn ymwneud â nhw, yn allweddol.

Yn ein grwpiau ffocws, archwiliom gyfarfodydd strategaeth amlasiantaeth, a ph'un a fyddai'n briodol i bobl ifanc fod yn bresennol, neu'n gysylltiedig â nhw. Roedd cytundeb cyffredinol yn y grŵp y dylai unrhyw beth yn ymwneud â thystiolaeth,

cudd-wybodaeth yr heddlu neu wybodaeth am blentyn neu unigolyn ifanc arall gael ei gadw oddi wrth y plentyn neu'r unigolyn ifanc yr oedd y cyfarfod yn cael ei gynnal ynglŷn ag ef/hi. Roeddent yn gadarn iawn y dylid parchu cyfrinachedd unigolyn ifanc arall, wedi teimlo bod eu cyfrinachedd eu hunain wedi'i dorri droeon, mewn llawer o ffyrdd. Teimlai ddau o bobl ifanc na fyddent eisiau bod yn y cyfarfod o gwbl, gan y byddai'r pethau a oedd yn cael eu trafod yn rhy bersonol ac anesmwyth. Fodd bynnag, teimlai llawer o'n cyfranogwyr ei bod yn gwbl briodol iddynt fynychu rhan o'r cyfarfod lle'r oedd y cynllun cymorth a diogelwch ar gyfer yr unigolyn ifanc yn mynd i gael eu trafod a'u penderfynu:

> *"Mae'n fy ngyrru i'n gwbl wallgof o feddwl am y cyfarfodydd hyn sy'n cael eu cynnal ynglŷn ag unigolyn ifanc penodol, ac nad ydyn nhw yno i gael lleisio'u barn. Felly siaredir amdanyn nhw, dydyn nhw ddim yn siarad gyda nhw". (cyfranogwyr 6)*

O ran y cwestiwn o beidio â deall beth oedd yn cael ei ddweud yn y cyfarfod, teimlwyd y gallai gweithiwr cymorth neu eiriolwr fynd i egluro pethau, neu fynd yn lle unigolyn ifanc:

> *"Does dim pwynt dweud nad yw unigolyn ifanc yn ddeall... rydych chi'n dod o hyd i ffordd o gyfathrebu" (cyfranogwr 6)*

Penderfynodd y grŵp y dylid darparu'r opsiwn o gymryd rhan mewn cyfarfod strategaeth amlasiantaeth o tua 14 neu 15 oed. Fel y crynhodd un cyfranogwr: *"Eich busnes chi ydyw, amdanoch chi y mae'r cyfan".* (cyfranogwr 3) a dylid parchu hyn, yn enwedig os yw pobl ifanc yn mynd i ymgysylltu â gwasanaethau cymorth camfanteisio'n rhywiol ar blant neu ymyriadau.

*Troi polisi ac arweiniad yn arfer*

4.56 Gofynnom i gyfranogwyr ar ddiwedd pob grŵp ffocws neu gyfweliad beth yn eu barn nhw fyddai canlyniad da (neu ddim gystal) o'r adolygiad. Roedd y mwyafrif llethol o'r ymatebion yn ymwneud â'r dymuniad i weld newidiadau mewn ymarfer er mwyn llywio ymatebion a chanlyniadau gwell i blant a phobl ifanc yng Nghymru. Cafwyd neges gref bod angen i unrhyw ddiwygiadau, ychwanegiadau neu addasiadau i'r canllawiau, y diffiniad sefydledig a'r protocol yn ymwneud â chamfanteisio'n rhywiol ar blant gael eu troi'n ymarfer – neges a ddangosir yma:

*“Nid wyf yn meddwl bod unrhyw risg na fydd unrhyw un o'r dogfennau yn cael eu hadnewyddu a phethau fel hynny, ond y gweithgarwch sy'n digwydd y tu allan i'w wneud yn real, dyna’r peth sy’n heriol ac y gwyddoch fod angen gweithio arno.” (Cyfweliad grŵp – Diogelu)*

4.57 Soniodd cyfranogwyr am y cyfle ar gyfer ymwybyddiaeth newydd a chynefindra â’r canllawiau, a chynigiwyd syniadau am y ffyrdd y gallai’r dogfennau fod yn fwy rhyngweithiol a hygyrch:

*“Byddai fideo yn dda, fel hyfforddiant E-fideo E neu fel eich bod yn gallu mewngofnodi, a gallai rhywun gyflwyno hynny, a dyma sut ydych yn ei wneud, a chanllaw yn unig ydyw o’r rhif hwn.” (Grŵp ffocws 6)*

4.58 Cyfeiriodd ychydig o gyfranogwyr at y ddogfen canllawiau a gynhyrchwyd yn ddiweddar yn Lloegr a sut yr oedd yn cynnwys cyfeiriadau defnyddiol at arfer da, ac yn darparu gwybodaeth ddefnyddiol, gan awgrymu bod y model hwn yn cael ei fabwysiadu ar gyfer y canllawiau yng Nghymru. Neges allweddol oedd bod cyfranogwyr eisiau sicrhau bod ymdrechion yn cael eu gwneud i godi ymwybyddiaeth o'r canllawiau ar gyfer gweithwyr proffesiynol ar draws pob sector, a sicrhau y gwelir ymateb i gamfanteisio'n rhywiol ar blant fel cyfrifoldeb i'r holl bobl sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc pobl yng Nghymru, neu ar eu rhan.

# 5. Casgliadau

5.1 Mae'r adran hon o'r adroddiad yn crynhoi'r canfyddiadau allweddol o’r ymchwil sylfaenol a’r adolygiad o lenyddiaeth, cyn darparu casgliadau ehangach.

**Gwybodaeth ac ymwybyddiaeth o'r canllawiau**

5.2 Mynegwyd ymwybyddiaeth sylfaenol, gwybodaeth a dealltwriaeth o ganllawiau a phrotocol camfanteisio’n rhywiol ar blant gan yr holl gyfranogwyr ar draws y gwahanol grwpiau proffesiynol. Fodd bynnag, cododd cyfranogwyr bryderon hefyd am y diffyg ymwybyddiaeth neu gynefindra â’r canllawiau camfanteisio'n rhywiol ar blant ymhlith llawer o'u cydweithwyr.

**Diffiniad**

5.3 Nid yw’r diffiniad presennol a ddefnyddir yng nghanllawiau a phrotocol Cymru ar gamfanteisio'n rhywiol ar blant yn cael ei ddefnyddio'n gyson ar draws sectorau a ledled Cymru. Mae’r canfyddiadau yn awgrymu nad yw’r canllawiau yn addas at y diben mwyach o ran diffinio camfanteisio'n rhywiol ar blant, ac mae dal i fod angen darparu eglurder a dealltwriaeth. Fodd bynnag, nid oes unrhyw gonsensws ynghylch a ddylai’r hyn sydd ar waith ar hyn o bryd gael ei ddiwygio neu ei ddisodli. Er i gyfranogwyr gyfeirio at fersiwn a newidiwyd yn Lloegr, nid oedd unrhyw arweiniad clir o’r data ynglŷn â mabwysiadu hyn - mae’r dadansoddiad yn dangos nad yw wedi darparu unrhyw eglurder pellach ar gamfanteisio’n rhywiol ar blant, ac roedd cyfranogwyr yn mynegi anfodlonrwydd ag ef. Caiff y galwadau ar gyfer mabwysiadu hyn eu gyrru’n bennaf gan yr awydd i gael eglurder a chysondeb, ac i geisio lleihau nifer y gwahanol ddiffiniadau a ddefnyddir.

5.4 Ceir diffyg sicrwydd am gamfanteisio’n rhywiol ar blant a ddangosir yn y data, ac mae'r dadansoddiad yn awgrymu bod ymarferwyr yn dal yn ansicr ynghylch beth sy'n gamfanteisio'n rhywiol ar blant, a beth sy’n ‘gwneud’ rhywbeth yn gamfanteisio rhywiol ar blant neu beidio (yn hytrach na cham-drin plant yn rhywiol). Pwynt cyson a godwyd yw bod bechgyn yn debygol iawn o gael eu colli mewn asesiadau o gamfanteisio'n rhywiol ar blant, ac mae hyn yn gysylltiedig â chamddealltwriaeth o beth yw camfanteisio'n rhywiol ar blant a sut y mae'n digwydd. Ceir tystiolaeth gref o'r llenyddiaeth i gefnogi'r canfyddiad hwn. Yn ogystal, codwyd pryderon ynghylch mathau eraill o gamfanteisio nad ydynt o natur rywiol, ond sy'n digwydd i bobl ifanc tebyg sy’n agored i niwed. Mae bechgyn yn

debygol o gael eu defnyddio fel cludwyr cyffuriau, a gall hyn gynnwys rhyw fath o gamfanteisio rhywiol neu beidio, a gall pobl ifanc gael eu defnyddio fel ‘hwyluswyr’ ar gyfer camfanteisio rhywiol (wedi iddynt fod yn destun camfanteisio rhywiol eu hunain). Nid yw’r bobl ifanc hyn yn hawdd eu hadnabod drwy’r diffiniad presennol a phrotocolau cysylltiedig.

5.5 Fel yr ystyriwyd ym mhennod 3, mae'r llenyddiaeth yn awgrymu nad yw’r broblem hon o ddryswch a diffyg eglurder am gamfanteisio’n rhywiol ar blant wedi'i gyfyngu i Gymru. Mae camfanteisio'n rhywiol ar blant wedi bod yn destun pryder amlasiantaeth fel mater diogelu am gyfnod ddigon hir i awgrymu nad esbonnir y broblem gan ddiffyg ymwybyddiaeth o gamfanteisio’n rhywiol ar blant. Nid yw diffiniadau eu hunain yn datrys problemau o ran dealltwriaeth, ond dylent o leiaf lywio dealltwriaeth sylfaenol a rhoi eglurder. Mae hanes penodol camfanteisio’n rhywiol ar blant a’r modd y mae’n gorgyffwrdd â mathau eraill o gam-drin yn awgrymu nad ‘diffiniad’ geiriol o gamfanteisio'n rhywiol ar blant yw’r ffordd fwyaf priodol nac effeithiol o fynd i'r afael â hyn. Yn wir, mae camfanteisio'n rhywiol ar blant yn ffurf o gam-drin plant yn rhywiol – ac mae diffiniad ohono ar gael yn barod. Yn lle hynny, gallai amlinellu nodweddion penodol camfanteisio’n rhywiol ar blant fel math o gam-drin fod y ffordd fwyaf priodol i roi eglurder ynghylch beth yw camfanteisio'n rhywiol ar blant. Mae'n werth tynnu sylw at y llenyddiaeth ar y nodweddion penodol hyn yma:

- Mae camfanteisio'n rhywiol ar blant bellach yn sefydledig fel math o gam-drin rhywiol sy'n digwydd i blant a phobl ifanc hyd at 18 oed (neu 21 yn achos Plant sy'n Derbyn Gofal) – nid oes oed penodol cyfatebol i oedolion o fewn gofal cymdeithasol neu bolisïau sy'n gysylltiedig â lles. Mae'n cynnwys cyfnewid rhyw neu weithgarwch rhywiol (gan gynnwys gweithgarwch ar-lein) am rywbeth (sy'n gallu cynnwys tynnu rhywbeth yn ôl).
- Wrth gydnabod bod camfanteisio'n rhywiol ar blant yn cynnwys cyfnewid, yn aml mae defnyddio’r cysyniad hwn ar gyfer deall camfanteisio'n rhywiol ar blant yn cyfeirio at a yw’r plentyn neu unigolyn ifanc y camfanteisiwyd arno wedi derbyn rhywbeth (a beth yw’r peth hwnnw). Gall hyn fod yn destun dryswch i weithwyr proffesiynol pan fo’r ‘peth’ a gaiff pobl ifanc yn rhywbeth na ellir ei adnabod yn hawdd, nid yw'n bodoli

fel rhywbeth materol, neu mae'n golygu tynnu rhywbeth yn ôl (megis tynnu bygythiadau i gam-drin eraill yn ôl). Er y gall cymhwyso'r cysyniad yn y modd hwn fod yn ddefnyddiol ar gyfer nodi achosion o gamfanteisio'n rhywiol ar blant ac anghenion yr unigolyn ifanc sy'n destun cam-drin, mae'n darparu darlun mwy defnyddiol o ran ymateb. Pwysigrwydd cydnabod yr elfen gyfnewid mewn camfanteisio'n rhywiol ar blant yw cydnabod gweithrediad y plentyn neu'r unigolyn ifanc sy'n cael eu cam-drin felly, a'r achosion o gamddefnyddio grym yn eu herbyn, sy'n golygu y gall yr unigolyn ifanc deimlo neu ddatgan ei fod/bod (i ryw raddau) yn/wedi cymryd rhan yn y cam-drin o'i (g)wirfodd. Y rhain yw'r rhesymau mai'r cyfnewid sy'n digwydd o fewn camfanteisio rhywiol sy'n ei wneud yn benodol fel ffurf ar gam-drin rhywiol. Mae'r agwedd hon ar gamfanteisio'n rhywiol ar blant hefyd yn creu heriau penodol i'r rheiny sy'n ymateb i gamfanteisio'n rhywiol ar blant, ac mae'n ffurfio rhan o'r angen am ymateb penodol y tu allan i'r mesurau presennol i ymateb i gam-drin plant yn rhywiol. Yn unol â'r llenyddiaethau ar 'amodau cydsyniad' a dewisiadau cyfyngedig, gall camfanteisio'n rhywiol ar blant ddigwydd drwy ryw fath o broses meithrin perthynas amhriodol, ond, yn hollbwysig, nid bob amser.

5.6 Mae diffiniadau yn darparu ffiniau i helpu sefydlu pwy sydd a phwy sydd ddim wedi'i gynnwys mewn problem, tra hefyd yn helpu sefydlu ymatebion ymarfer. Yr angen i gyfarwyddo ymatebion priodol sy'n bennaf gyfrifol am yr angen i wahaniaethu rhwng camfanteisio'n rhywiol ar blant a mathau eraill o gam-drin plant. Yn hytrach nag atgynhyrchu'r un problemau a ddaw yn sgil ceisio creu diffiniad cynhwysfawr sydd hefyd yn hylaw ac yn hawdd i'w ddeall, byddai amlygu'r nodweddion allweddol hyn o gamfanteisio'n rhywiol ar blant yn tynnu sylw at, ac yn nodi'n glir beth yw natur y broblem a'r heriau o ymateb i blant y mae risg iddynt fod yn destun camfanteisio rhywiol, a'r rhai sydd wedi'u cam-drin drwy hynny. Byddai hyn yn llywio ein dealltwriaethau o'r mater a sut i ymateb, yn ogystal â llywio technegau amharu.

5.7 Yn ogystal, mae'r canfyddiadau a adroddir yma yn cefnogi'r llenyddiaeth y ceir rhai pobl sydd yn debygol o gael eu 'colli' gan weithwyr proffesiynol sy'n ceisio eu helpu – megis bechgyn, sy'n llai tebygol o ddod ymlaen fel dioddefwyr i weithwyr proffesiynol sy'n dod i gysylltiad â nhw. Mae'r data yn awgrymu y gall bechgyn fod

yn fwy tebygol hefyd o gael eu cam-drin drwy gamfanteisio ar gyffuriau[28], a gall hynny gynnwys camfanteisio rhywiol, neu beidio. Mae'r plant a'r bobl ifanc hynny y gallent fod yn destun camfanteisio i weithredu fel 'hwyluswyr' camfanteisio, ond sydd efallai yn destun camfanteisio rhywiol eu hunain, neu efallai ddim, yn creu problemau tebyg i weithwyr proffesiynol. Er y gallai'r cam-drin rhywiol fod yn absennol, mae'r cyfnewid camdriniol sy'n digwydd drwy gamfanteisio rhywiol yn bresennol yn y ddau fath yma o gam-drin. Maent hefyd yn creu heriau tebyg iawn i ymarferwyr o ran ymyrryd ac amharu. Mae'r adolygiad hwn yn gyfle i Lywodraeth Cymru ystyried adolygu a diwygio'r canllawiau ar gamfanteisio rhywiol yn ganllawiau 'camfanteisio' sy'n ymgorffori ymateb i bob un o'r tri math o gam-drin (camfanteisio rhywiol, cyffuriau a 'hwylusydd'), sydd yn gydgysylltiedig eu hunain. Gallai hyn hwyluso ac arwain y ffordd ar gyfer ymateb i blant a phobl ifanc y mae risg iddynt o'r mathau hyn o gam-drin, a risg iddynt eu dioddef.

**Asesu ac adnabod camfanteisio'n rhywiol ar blant**

5.8 Mae'r canfyddiadau yn awgrymu nad yw'r canllawiau, y protocol a'r broses asesu SERAF sefydledig yn addas at y diben mwyach o ran nodi ac atgyfeirio plant a phobl ifanc y mae risg iddynt ddioddef camfanteisio rhywiol, ac o ran cael cymorth ac ymyriadau ar gyfer pobl ifanc mewn cyd-destun amlasiantaeth.

5.9 Mae dryswch ynglŷn â diben yr asesiad. Fe'i canfyddir naill ai fel offeryn sgrinio neu offeryn asesu, ac mae iddo oblygiadau o ran y modd y mae gweithwyr proffesiynol yn mynd ati i sgorio a'u camau dilynol. Mae'r canfyddiadau yn dangos bod gormod o bwyslais yn cael ei roi ar sgoriau SERAF, ac nad yw'r sgoriau risg yn cael eu hasesu ar y cyd â barn broffesiynol – a cheir goblygiadau yn hyn i ganfyddiadau gweithwyr proffesiynol o risg plant a phobl ifanc, ac ymatebion iddynt, pan na fyddant yn edrych mewn ffordd gyfannol ar y pryderon am y person ifanc. Gall hyn hefyd olygu y gall fod yn anodd blaenoriaethu cymorth a dyrannu adnoddau pan fydd yr holl asesiadau yn arwain at sgôr risg sylweddol.

5.10 Mae rhai gweithwyr proffesiynol yn gweld offeryn SERAF fel rhywbeth i gael ei gwblhau gan 'arbenigwyr camfanteisio'n rhywiol ar blant' yn hytrach na chan yr unigolion sy'n pryderu am blentyn neu unigolyn ifanc. Mae yna amharodrwydd neu

[28] Er bod gwaith 'County Lines' wedi tynnu sylw at y cam-drin sy'n ymwneud â chamfanteisio ar gyffuriau, mae hwn yn dal yn fater o droseddoli i bobl ifanc, eto mae'r cam-drin sy'n gysylltiedig, a'r llwybrau i mewn i gymryd rhan yn adlewyrchu llawer o'r hyn a wyddom am gamfanteisio'n rhywiol ar blant, yn ogystal â'r heriau penodol i ddatgelu ac ymateb i bobl ifanc.

ddiffyg hyder, sy’n golygu nad yw gweithwyr proffesiynol ar draws cyd-destun amlasiantaeth yn cwblhau'r ‘asesiad’ ac felly nid yw pryderon yn cael eu trosglwyddo ymlaen, ac mae hyn yn cyfyngu ar y posibilrwydd i ddod â phryderon ynghyd.

5.11 Mae problemau â’r risgiau a nodweddion bregus ar yr offeryn. Maent naill ai wedi ‘hen ddyddio’ neu nid ydynt yn adlewyrchu gwybodaeth bresennol (o ran graddio sgôr). Hefyd, mae gormod o bwysoliad yn cael ei roi ar ffactorau hanesyddol neu ffactorau mwy sefydlog, gan olygu na fydd rhai plant a phobl ifanc fyth yn lleihau eu risg o dan y trothwy cymedrol ac weithiau'r trothwy sylweddol. Nid yw'r asesiad yn cynnwys unrhyw gryfderau neu ffactorau amddiffynnol, sy'n achosi problemau o ran ethos gwaith gyda phlant a phobl ifanc, ond nid yw’n addas ychwaith ar gyfer asesiad mwy cyfannol o risg.

5.12 Fel y saif, nid yw dull Cymru gyfan yn addas i bob sector. Mae gwaith sylweddol wedi’i wneud yng Nghymru, a gwaith sydd i’w adolygu’n fuan gan gymheiriaid, i ddatblygu ‘offeryn asesu iechyd camfanteisio’n rhywiol ar blant’ â dwy haen, sy’n addas i’w gwblhau gan weithwyr gofal iechyd proffesiynol. Fodd bynnag, mae'r dadansoddiad yn dangos na fyddai uno hyn mewn offeryn Cymru gyfan ‘pob sector’ yn creu rhywbeth addas i asiantaethau eraill. Dylai'r protocol Cymru gyfan ymgorffori’r SERAF Iechyd yn y protocol drwy gyfeirio'n glir at yr adnodd asesu hwn a sut y bydd yn gweithio ochr yn ochr â’r offeryn SERAF diwygiedig.

### Ymateb i gamfanteisio’n rhywiol ar blant[29]

5.13 Mae'r canfyddiadau yn awgrymu nad yw’r canllawiau bellach yn gwbl effeithiol o ran atal ac ymyrryd yn gynnar mewn achosion o gamfanteisio'n rhywiol ar blant; amddiffyn plant a phobl ifanc y mae risg iddynt ddioddef neu y maent yn dioddef camfanteisio rhywiol ac amharu ar y rhai sy’n cyflawni’r math hwn o gam-drin, a’u herlyn.

5.14 Ers cyflwyno’r canllawiau yn 2011, bu cynnydd sylweddol yn y wybodaeth yn ymwneud â chamfanteisio'n rhywiol ar blant, ochr yn ochr â datblygiadau mewn gwaith atal ac ymyrryd gyda phlant a phobl ifanc. Mewn rhai rhannau o Gymru, mae'r dysgu hwn wedi llywio datblygu protocolau lleol i ddarparu ar gyfer y newidiadau mewn arferion lleol. Mae hyn wedi bod o fudd i sectorau ac ardaloedd

[29] Mae'r deunydd a gyflwynir yma yn ymwneud yn benodol â’r casgliadau o'r canfyddiadau ymchwil. Golyga natur y cwestiynau ymchwil bod y casgliadau o'r canfyddiadau yn eithaf cydnaws â’r argymhellion.

daearyddol penodol, ac mae angen i hyn gael ei efelychu ledled Cymru drwy gyfarwyddyd gan y canllawiau.

5.15 Yn ogystal, mae'r dirwedd o ran iechyd a gofal cymdeithasol, a chyd-destunau plismona , deddfwriaeth ac ymarfer, wedi newid, a datblygwyd mentrau ar draws pob sector y dylid eu defnyddio er mwyn gwella a llywio arfer mwy effeithiol ym mhob maes ymateb i gamfanteisio'n rhywiol ar blant.

5.16 Mae angen i atal yn arbennig gael mwy o amlygrwydd yn y canllawiau i adlewyrchu cyd-destun ehangach gweithgarwch ataliol a'r rôl y gall gwasanaethau addysg ac ieuenctid ei chwarae. Nid oes angen i hyn o reidrwydd eistedd o fewn y protocol, ond mae angen i bwyslais ar y rôl sydd gan bob sector o ran atal fod yn fwy amlwg o fewn y canllawiau.

5.17 Mae ymateb i gamfanteisio'n rhywiol ar blant yn gyfrifoldeb pob sector a'r holl weithwyr proffesiynol sy'n gweithio mewn cyd-destun amlasiantaeth gyda phlant. Mae angen pwysleisio hyn o fewn y canllawiau, ac mae angen ail-bwysleisio a diweddaru rôl gweithwyr proffesiynol sy'n gweithio o fewn pob sector.

5.18 Mae angen mwy o ganllawiau ar sut i ymateb i blant a phobl ifanc y mae risg iddynt ddioddef camfanteisio rhywiol, a sut i ymyrryd. Mae angen i'r canllawiau ystyried y dysgu a amlinellir yn yr adolygiad hwn, yn ogystal â dysgu o ymarfer camfanteisio'n rhywiol ar blant ledled Cymru (ac o fannau eraill) er mwyn darparu'r adnoddau a'r wybodaeth i alluogi gweithwyr proffesiynol i gynhyrchu cynlluniau diogelwch da ac effeithiol gyda phobl ifanc.

5.19 Un maes y mae angen ei egluro yw mater camfanteisio'n rhywiol ar blant ar-lein ac all-lein. Mae camfanteisio'n rhywiol ar blant ar-lein (camfanteisio'n rhywiol ar blant sy'n digwydd yn gyfan gwbl drwy lwyfannau ar-lein) yn faes arbennig o gamfanteisio rhywiol, ac mae angen gwneud hynny'n eglur yn y canllawiau. Ymddengys bod llawer o'r pryder ynglŷn â chamfanteisio'n rhywiol ar blant ar-lein ymhlith cyfranogwyr yn wahanol i hyn, ac mae'n ymwneud â defnyddio cyfryngau cymdeithasol ymhlith pobl ifanc. Mae'r gwahaniaeth rhwng bydoedd 'ar-lein' ac 'all-lein' yn fydoedd prin y bydd plant a phobl ifanc yn gwahaniaethu rhyngddynt – gan adlewyrchu trawsnewidiad cymdeithas yn y DU o ran ymgorffori cyfryngau cymdeithasol drwy bron pob math o fywyd cymdeithasol. Dylid ei gwneud yn eglur yn y canllawiau bod yr uno hwn rhwng y bydoedd ar-lein ac all-lein yn cael ei adlewyrchu mewn achosion o gamfanteisio'n rhywiol ar blant: yn anaml y ceir

camfanteisio'n rhywiol ar blant sy’n digwydd heb fod rhyw fath o gyfathrebu ar-lein yn gysylltiedig. Yn hytrach na chanolbwyntio ar gamfanteisio'n rhywiol ar blant ar-lein (pan na fwriedir iddo olygu camfanteisio'n rhywiol ar blant ar-lein fel y disgrifir uchod) a dwysau’r camsyniad hwn o fathau deuol o gamfanteisio'n rhywiol ar blant, byddai deall sut mae pobl ifanc yn ymgysylltu â’r cyfryngau cymdeithasol (a dulliau eraill o gyfathrebu ar y rhyngrwyd) yn gyffredinol yn fwy buddiol i ymarferwyr. Byddai hyn yn ei dro yn llywio dealltwriaeth ac ymwybyddiaeth o sut gall y defnydd hwn groesi drosodd i achosion o gamfanteisio’n rhywiol ar blant. Efallai nad y canllawiau ar gamfanteisio'n rhywiol ar blant yw’r lle mwyaf priodol ar gyfer ystyried y materion hyn yn llawn, er dylai ddarparu gwybodaeth lle bo hynny'n berthnasol.

5.20 Mae angen sicrhau atebolrwydd a thryloywder (gyda rhannu arfer gorau fel ffocws canolog) i sicrhau bod y protocol yn cael ei ddilyn, yn ogystal â darparu modd o fonitro tueddiadau, adrodd ar gynnydd, a rhannu dysgu ac arfer da, gydag amserlenni ar gyfer atebolrwydd. Mae grŵp bord gron y Comisiynydd Plant yn darparu cyfle i hyn, er nad yw’n gysylltiedig â strwythurau presennol ar hyn o bryd.

5.21 Mae’r cyfarfodydd MACE (neu eu cyfwerth dan enw gwahanol) yn gyflwyniad diweddar i ymarfer camfanteisio'n rhywiol ar blant, ac maent wrthi’n cael eu sefydlu ledled Cymru; mae’n ymddangos eu bod yn gweithio'n dda iawn ar lefel strategol ar gyfer atal, ymyrryd ac amharu. Am mai yn ddiweddar y cawsant eu cyflwyno, ni sonnir amdanynt o fewn y canllawiau. Lle mae'r rhain yn dal yn cael eu sefydlu, byddai rhannu cylch gorchwyl ac enghreifftiau o arfer da o fudd i’r grwpiau hyn er mwyn sicrhau cysondeb a dysgu da.

5.22 Mae lleoliadau y tu allan i’r sir yn un agwedd arbennig a phenodol ar ymateb i gamfanteisio'n rhywiol ar blant, ond cyfeiriwyd atynt fel pryder penodol a brys ymhlith cyfranogwyr ar draws pob asiantaeth. Mae angen protocol ar gyfer rheoli hyn, yn ogystal â rhywfaint o strwythur ar gyfer adrodd ac atebolrwydd. Yn ogystal, yn unol â’r llenyddiaeth, dylai'r canllawiau roi ystyriaeth i’r modd y dylai’r rhain gael eu rheoli fel ymatebion ‘pan fetho popeth arall’ ar gyfer pobl ifanc y mae risg iddynt ddioddef camfanteisio rhywiol. Byddai hyn hefyd yn gofyn am ystyriaeth o'r sectorau perthnasol ar sut arall fyddai lleoliadau o'r fath yn cael eu rheoli lle nad oes llety ar gael yn ardal yr awdurdod lleoli.

5.23 Thema benodol ar gyfer ymateb i gamfanteisio'n rhywiol ar blant yw'r angen i gynnwys plant a phobl ifanc wrth wneud penderfyniadau ynglŷn â'u gofal. Mae hon yn thema gref o'r llenyddiaeth, ac mae hefyd yn un sy'n deillio o'r data. Gall peidio â chyfranogi atgyfnerthu nodweddion bregus a risgiau ar gyfer plant a phobl ifanc, tra gwelir cyfranogi ac ymgynghori fel rhan hanfodol o ymatebion da. Dylai'r canllawiau adlewyrchu'r dull seiliedig ar gryfderau yn cael ei annog gan gyd-gynhyrchu a'r agenda hawliau plant. Mae rhieni yn greiddiol yn hyn hefyd, ac mae gwaith teulu eisoes yn ganolog i arferion amddiffyn plant. Er y bydd angen rheoli hyn yn ofalus, yn enwedig yng nghyd-destun cyfarfodydd strategaeth, fel gyda phob cyfranogiad plant a theuluoedd, dylai'r canllawiau ddarparu gwybodaeth am sut i reoli'r cyfranogiad hwn drwy bob agwedd ar y broses a thynnu sylw at egwyddorion arfer da.

**Casgliadau terfynol**

5.24 Y casgliad cyffredinol o'r adolygiad hwn yw nad yw'r canllawiau ar gamfanteisio rhywiol, y diffiniad sefydledig na'r protocol SERAF yn addas at y diben mwyach. Mae tystiolaeth glir sy'n nodi y dylid diweddaru'r canllawiau a'r protocol i gwmpasu dysgu newydd, adlewyrchu newidiadau ehangach diweddar i bolisïau a dysgu oddi wrth ddatblygiadau mewn ymarfer ledled Cymru. Casgliad cysylltiedig yw pwysigrwydd y dogfennau hyn ar gyfer llywio ymarfer rheng flaen ac ymarfer strategol, a'r angen i gynnal dull cyson Cymru Gyfan. Mae'r dadansoddiad o'r data, ar y cyd â'r adolygiad o'r llenyddiaeth, yn awgrymu bod hyn yn gryfder allweddol o ran ymateb i achosion o gamfanteisio'n rhywiol ar blant.

5.25 Mae awydd cryf i adeiladu ar yr arfer rhagorol sy'n bodoli yng Nghymru, ac i gynnwys hynny o fewn canllawiau sy'n dod yn ddogfen 'fyw' – un sy'n hygyrch i weithwyr proffesiynol rheng flaen a strategol sy'n gweithio ym mhob asiantaeth, ac sy'n llywio arfer da a chyson ledled y wlad er mwyn gweithio tuag at drefniadau diogelu gwell a chanlyniadau gwell i blant a phobl ifanc yng Nghymru.

## 6. Argymhellion

6.1 Mae'r adran derfynol hon o'r adroddiad yn tynnu ar y canfyddiadau a'r casgliadau allweddol o'r holl elfennau o'r adolygiad, ac yn cynnig yr argymhellion canlynol i Lywodraeth Cymru eu hystyried. Gan ddechrau gyda'r argymhellion cyffredinol, trefnir y rhain o dan y penawdau canlynol: diffiniad; adnabod ac asesu; ymateb i gamfanteisio'n rhywiol ar blant; ystyriaethau strategol; cynnwys plant, pobl ifanc a'u teuluoedd; cynhyrchu a lansio'r canllawiau a'r protocol newydd.

6.2 Rydym yn nodi yma bod angen i'r holl argymhellion weithio gyda chanllawiau a strategaethau cysylltiedig eraill sy'n bodoli. Mae cyd-destun ehangach camfanteisio'n rhywiol ar blant yn golygu na all y protocol a'r canllawiau fynd ar drywydd popeth y gellir ei wneud o ran gwaith atal a'r ymatebion ehangach i gamfanteisio'n rhywiol ar blant. Mae addysg, iechyd, gwasanaethau cymdeithasol a phlismona i gyd yn sectorau sydd yn ymwneud â gweithgareddau ehangach a fydd yn llywio'r gwaith hwn. Un mater a godwyd yn rhai o'r grwpiau ffocws a'r cyfweliadau oedd cydgysylltiad atal camfanteisio'n rhywiol ar blant a mentrau, cynlluniau ac arferion eraill ehangach y llywodraeth – megis: pryderon ynghylch gofal a'r system gofal a (diffyg) cyfleoedd i blant ymgysylltu'n gadarnhaol â gweithwyr proffesiynol, cyllid ar gyfer darparu gwasanaethau ieuenctid a buddsoddi mewn addysg, ochr yn ochr â'r angen i Lywodraeth Cymru sicrhau bod plant a phobl ifanc yn gallu cael cymorth priodol drwy'r gwasanaethau ieuenctid a mentoriaid. Er bod y rhain yn feysydd pwysig sydd angen ystyriaeth a buddsoddiad gan Lywodraeth Cymru ac y dylid eu cynnwys mewn canllawiau camfanteisio'n rhywiol ar blant, mae ffocws y rhain yn perthyn y tu allan i gamfanteisio'n rhywiol ar blant ac o fewn y ddeddfwriaeth a'r canllawiau perthnasol.

**Argymhelliad cyffredinol**

1. Dylai canllawiau, y diffiniad sefydledig â phrotocol SERAF yng Nghymru gael eu diweddaru i adlewyrchu gwybodaeth sydd wedi dod i'r amlwg ers iddynt gael eu llunio, ynghyd â datblygiadau mewn ymarfer a gwaith amlasiantaeth. Dylai hyn hefyd gyfrannu at ledaenu arfer da ledled Cymru.

**Diffiniad**

2. Rydym yn argymell dileu diffiniad geiriol o gamfanteisio'n rhywiol ar blant, a disodli hwn â dull pwynt bwled yn amlinellu'r ffactorau cytûn sy'n gwneud camfanteisio'n rhywiol ar blant yn arbennig fel ffurf ar gam-drin (gweler Atodiad D fel enghraifft).

3. Mae camfanteisio'n rhywiol ar blant ar-lein (camfanteisio'n rhywiol ar blant sy'n digwydd yn gyfan gwbl drwy lwyfannau ar-lein) yn faes arbennig o gamfanteisio rhywiol, ac mae angen gwneud hynny'n eglur yn y canllawiau. Yn gysylltiedig, byddai llywio dealltwriaeth o'r modd y mae pobl ifanc yn ymgysylltu â chyfryngau cymdeithasol (a dulliau eraill o gyfathrebu ar y rhyngrwyd), a sut mae hyn yn ffurfio rhan o gamfanteisio rhywiol, yn ddefnyddiol i ymarferwyr.

4. Dylai unrhyw ddiffiniad diwygiedig fod ag isadran yn y canllawiau sy'n amlinellu'r camsyniadau cyffredin ynghlwm wrth gamfanteisio rhywiol, ac adran ar amodau cydsynio a ddylai gyfeirio at faterion pŵer, cydsyniad, gweithrediad plant a meithrin perthynas amhriodol.

5. Dylai Llywodraeth Cymru ystyried adolygu a diwygio'r canllawiau i gynnwys ymateb i gamfanteisio rhywiol, camfanteisio yn gysylltiedig â chyffuriau a cham-drin 'hwylusydd', sydd eu hunain yn fathau o gam-drin cydgysylltiedig, yn creu heriau tebyg o ran ymateb i blant a phobl ifanc ac ar gyfer amharu ac erlyn. Byddai hyn yn darparu dull o ymateb i blant a phobl ifanc y mae risg iddynt ddioddef ac sydd yn dioddef y camdriniaethau hyn lle ceir diffyg darpariaeth ffurfiol neu ganllawiau. Hefyd, dylai Llywodraeth Cymru ystyried ail-fframio'r canllawiau i fynd i'r afael â'r tri math cydgysylltiedig hyn o gam-drin, gan ganolbwyntio ar fater y cyfnewid problematig sy'n digwydd o fewn camdriniaethau o'r fath[30].

[30] Er ei fod yn deillio o'r data ac o'r llenyddiaeth yn ymwneud â chamfanteisio'n rhywiol ar blant, rydym yn cydnabod efallai na fydd yr argymhelliad hwn yn cael cefnogaeth gyffredinol. Ni chafodd yr argymhelliad hwn gefnogaeth gan y gweithdy rhanddeiliaid i weithwyr proffesiynol, a gynhaliwyd fel rhan o'r adolygiad. Fe wnaeth y cyfranogwyr hynny a awgrymodd neu a soniodd am y posibilrwydd hwn yn yr adolygiad wneud hynny yn gadarn. Cawsom gefnogaeth gref iawn i hyn gan y gweithdy i randdeiliaid a gynhaliwyd gydag oedolion ifanc.

**Adnabod ac asesu**

6. Dylai unrhyw ganllawiau a phrotocolau newydd sy'n cael eu lansio bwysleisio natur 'sgrinio' asesiadau camfanteisio'n rhywiol ar blant, gan bwysleisio'r rôl bwysig sydd gan farn broffesiynol ochr yn ochr ag unrhyw sgôr wrth asesu risg a nodi pryderon.
7. Dylid diwygio'r offeryn SERAF a'i ailwampio yn ddull asesu dwy-haen: offeryn 'sgrinio' byr, gyda phwyslais ar farn broffesiynol ochr yn ochr â ffactorau risg allweddol a nodwyd, i'w gwblhau gan unrhyw ymarferydd neu weithiwr proffesiynol sydd mewn cysylltiad â phlentyn neu unigolyn ifanc â phryderon. Byddai asesiad sgrinio llawnach camfanteisio'n rhywiol ar blant yn dilyn hyn, i'w gwblhau gan ymarferydd gwasanaethau cymdeithasol. Dylai'r broses asesu ddefnyddio ymchwil berthnasol (gweler adran 3.38 er enghraifft) a bod yn destun gwerthusiad pellach.
8. Efallai na fydd creu offeryn 'pob sector' Cymru Gyfan yn addas ar gyfer gweithwyr iechyd proffesiynol, a datblygwyd y SERAF Iechyd er mwyn sicrhau y manteisir i'r eithaf ar y cyfle i gofnodi pryderon sy'n codi drwy eu gwaith. Dylai protocol Cymru Gyfan ymgorffori'r SERAF Iechyd presennol yn y protocol drwy gyfeirio'n glir at yr offeryn asesu hwn a sut y bydd yn gweithio ochr yn ochr â'r offeryn SERAF diwygiedig.
9. Dylai ymateb penodol camfanteisio'n rhywiol ar blant o fewn y protocol ganolbwyntio ar achosion risg gymedrol a risg sylweddol. Mae angen bod ymateb i'w gael i risg isel a phryderon, ond dylai hwn fod wedi'i ymgorffori, a dylid rhoi sylw iddo, drwy'r prosesau ehangach presennol o fewn y sector gwasanaethau cymdeithasol a'r sector addysg.
10. Dylai unrhyw offeryn asesu newydd gynnwys cryfderau a/neu ffactorau amddiffynnol. Fel yr ystyriwyd ym mhennod 3, roedd yr offeryn SERAF gwreiddiol yn cynnwys ffactorau hyn. Bydd dysgu wedi symud yn ei flaen, ond dylai'r rhai sy'n ail-lunio'r canllawiau camfanteisio'n rhywiol ar blant geisio cael gafael ar gopi o'r fersiynau cynnar hyn o'r SERAF gan yr awduron gwreiddiol Clutton a Coles.

**Ymateb i gamfanteisio'n rhywiol ar blant**

11. Dylai canllawiau diwygiedig bwysleisio bod ymateb i gamfanteisio'n rhywiol ar blant yn gyfrifoldeb pob sector a'r holl weithwyr proffesiynol sy'n gweithio mewn cyd-destun amlasiantaeth gyda phlant, gan ddarparu ar gyfer cyd-destunau a dulliau ymarfer newydd.

12. Mae angen i'r rôl sydd gan atal fod yn fwy amlwg yn y canllawiau diwygiedig, gan gynnwys cyd-destun ehangach gwaith atal, a'r rôl y gall addysg a gwasanaethau ieuenctid ei chwarae yn y cyswllt hwn – yn enwedig y rôl o hwyluso perthnasoedd cadarnhaol gyda gweithwyr proffesiynol oedolion a darparu cyfleoedd ar gyfer trafodaeth ynghylch perthnasoedd, pŵer a chydsyniad.

13. Mae angen mwy o wybodaeth am sut i ymateb i blant a phobl ifanc y mae risg iddynt ddioddef camfanteisio rhywiol, a sut i ymyrryd. Mae angen i'r canllawiau ystyried y dysgu a amlinellir yn llenyddiaeth yr ymchwil a'r dysgu o ymarfer ar gamfanteisio'n rhywiol ar blant sy'n cael ei weithredu yng Nghymru ac mewn mannau eraill, er mwyn darparu'r adnoddau a'r wybodaeth i alluogi gweithwyr proffesiynol i gynhyrchu cynlluniau diogelwch da ac effeithiol. Dylid darparu enghreifftiau o arfer da ac astudiaethau achos i helpu arwain gweithwyr proffesiynol.

14. Dylid diweddaru'r canllawiau a'r protocol i adlewyrchu dysgu newydd o fentrau i wella a llywio arfer mwy effeithiol ym mhob maes sy'n gysylltiedig ag ymateb i gamfanteisio'n rhywiol ar blant, yn cynnwys amharu ac erlyn, gan ystyried prosesau lleol a gwasanaethau ar draws yr holl asiantaethau. Dylai'r canllawiau a'r protocol fynnu protocolau/cynlluniau wedi'u cytuno ar lefel leol, megis cynlluniau amharu, a fydd yn ategu'r canllawiau cenedlaethol a'r protocol ond yn ymgorffori ymarfer lleol.

15. Dylid diweddaru'r canllawiau i adlewyrchu'r newidiadau deddfwriaethol a newidiadau ymarfer mewn iechyd a gofal cymdeithasol a phlismona. (Mae Atodiad E yn rhoi enghraifft o siart llif wedi'i ddiweddaru o'r broses gysylltiedig pan fydd yna bryderon ynghylch camfanteisio'n rhywiol ar blant).

**Ystyriaethau strategol**

16. Dylai cyfarfodydd MACE, neu eu cyfwerth, cael eu cyflwyno ledled Cymru. Fel rhan o'r gwaith o ddatblygu protocol diwygiedig, dylid llunio cylch gorchwyl i hybu cysondeb ac arfer gorau. Dylai'r cylch gorchwyl gynnwys pwy ddylai gadeirio ac is-gadeirio'r cyfarfodydd hyn, rôl a gyflawnir ar hyn o bryd gan gynrychiolwyr yr heddlu neu ofal cymdeithasol plant.

17. Dylai canllawiau diwygiedig gynnwys rôl diogelu corfforaethol o ran atal a phlismona, megis gwaith gyda gyrwyr tacsi, caffael gwasanaethau ac economi'r nos.

18. Mae'n ofynnol tynnu sylw at atebolrwydd a thryloywder (gyda ffocws ar rannu arfer gorau) er mwyn helpu i sicrhau bod y protocol yn cael ei ddilyn ac ar gyfer hyrwyddo rhannu arferion ledled Cymru. Rydym yn argymell strwythur Grŵp Cenedlaethol ar gamfanteisio'n rhywiol ar blant, yn cael ei arwain gan Lywodraeth Cymru ac sydd â chyfrifoldeb gweinidogol ynghlwm wrtho. Byddai hyn yn darparu ffordd o fonitro tueddiadau, adrodd ar gynnydd, a rhannu dysgu ac arfer da, gydag amserlenni ar gyfer atebolrwydd. Gweler Atodiad F fel enghraifft o strwythur ar gyfer rheoli camfanteisio'n rhywiol ar blant yng Nghymru. Gallai grŵp cenedlaethol o'r fath ddisodli grŵp bord gron presennol y Comisiynydd Plant (neu ddatblygu o'r grŵp hwn).

19. Dylai ystyriaeth gael ei rhoi i reoli lleoliadau y tu allan i'r sir, a'r gofynion adrodd cysylltiedig ar eu cyfer, a dylid ychwanegu gwybodaeth am hyn at y canllawiau diwygiedig. Lle mae'r rhain yn digwydd o fewn Cymru, dylai rheolaeth dda ar hyn fod yn ofynnol ar gyfer yr holl unedau preswyl (gan gynnwys y sector preifat) a'r awdurdodau lleoli. Dylai Llywodraeth Cymru ystyried sut y gellir atgynhyrchu'r broses hon i sicrhau bod y bobl ifanc hynny sy'n cael eu lleoli y tu allan i Gymru, a'r rheiny sy'n dod i mewn o Loegr, yn cael eu rheoli yn yr un modd. Dylid rhoi ystyriaeth i'r rôl bosibl ar gyfer AGGCC yn casglu data rheoli ar hyn.

20. Dylid cynnwys camfanteisio'n rhywiol ar blant mewn hyfforddiant diogelu ledled Cymru. Dylid diwygio'r hyfforddiant presennol ar gamfanteisio'n rhywiol ar blant i ymgorffori'r dysgu a ddarperir o fewn unrhyw ddiwygiadau i'r canllawiau a'r protocol.

**Cynnwys plant, pobl ifanc a theuluoedd**

21. Dylai canllawiau diwygiedig ystyried cynnwys plant, pobl ifanc a'u teuluoedd o ran ymateb i gamfanteisio'n rhywiol ar blant mewn achosion unigol – dylai'r neges fod yn glir, y dylid eu cynnwys lle bynnag y bo modd a dylid darparu enghreifftiau o arfer da.

22. Dylai canllawiau diwygiedig ddatgan y dylai gweithiwr gael ei neilltuo i aros gyda'r unigolyn ifanc drwy gydol y broses cynllunio gofal, ac i weithio gydag ef/hi mewn modd cydgynhyrchiol. Bydd yr unigolyn hwn yn arwain o ran pa wybodaeth sy'n ddiogel i'w rhannu gydag unigolyn ifanc (a'r teulu lle y bo'n briodol).

23. Lle y bo'n briodol, dylid gwahodd plant, pobl ifanc a'u teuluoedd i fod yn rhan o'u cyfarfod(ydd) strategaeth camfanteisio'n rhywiol ar blant. Efallai na fydd hyn yn briodol lle mae pryderon diogelu yn deillio o rannu gwybodaeth, neu lle mae'n mynd yn groes i drafodaeth agored ynghylch risgiau a chynlluniau diogelwch. Fodd bynnag, dylid ystyried eu presenoldeb yn rhan o'r cyfarfod, a/neu iddynt gael person enwebedig (fel y nodir uchod) i fynychu ar eu rhan. Dylai'r gofyniad i roi gwybodaeth am bob cyfarfod i bobl ifanc, y cyfle iddynt fwydo i'r rhain a'u mynychu (lle y bo'n briodol) yn ogystal â diweddariadau a'r cyfle am drafodaeth ynghylch camau y cytunwyd arnynt, gael eu cynnwys yn y canllawiau diwygiedig fel arfer gorau yn y broses cynllunio gofal. Dylid darparu'r wybodaeth hon i deuluoedd hefyd lle y bo'n briodol.

**Cynhyrchu a lansio'r canllawiau newydd a'r protocol**

24. Argymhellir y dylai unrhyw waith ail-lunio'r canllawiau a'r protocol gael ei lywio gan grŵp cynghori'n sy'n cynnwys cynrychiolwyr allweddol o bob sector ledled Cymru y mae ganddynt wybodaeth a phrofiad o arfer gorau yn y maes.

25. Dylid rhoi ystyriaeth i'r modd y cynhyrchir canllawiau diwygiedig a'r protocol cysylltiedig, er mwyn eu gwneud yn rhyngweithiol ac yn hawdd i bob ymarferydd fynd atynt.

26. Dylai unrhyw ail-lansiad gynnwys gweithgareddau codi ymwybyddiaeth ymhlith ymarferwyr a gweithwyr proffesiynol er mwyn hyrwyddo'r protocol diwygiedig ac i barhau i fynd i'r afael ag ymarfer anghyson neu ymarfer wedi'i gamarwain.

**Cyfeiriadau**


Atkinson, P.A., a Silverman, D. (1997) 'Kundera's 'immortality': the interview society and the invention of the self'. *Ymchwiliad Ansoddol.* 3, (3), 304-326.

Ayre, P., a Barrett, D. (2000) 'Young people and prostitution: an end to the beginning?'. *Plant a Chymdeithas.* 14, (1), 48-59.

Barnardo's (2012) *Tackling child sexual exploitation: Helping Local Authorities to develop effective responses.* Barkingside: Barnardo's.

Barnardo's (2013) *The tangled web: How child sexual exploitation is becoming more complex.* Barkingside: Barnardo's.

Barnardo's (2014) *Adroddiad yr ymchwiliad Seneddol i effeithiolrwydd deddfwriaeth ar gyfer mynd i'r afael â chamfanteisio'n rhywiol ar blant a masnachu plant yn y DU* Barkingside: Barnardo's.

Barnardo's (2015a) *What is CSE?* Ar gael o http://www.barnardosrealloverocks.org.uk/what-is-cse/ [20 Ebrill 2017].

Barnardo's (2015b) *Unprotected, Overprotected: Meeting the needs of young people with learning disabilities who experience, or are at risk of, child sexual exploitation.* Barkingside: Barnardo's.

Beckett, H. (2011) *Not a World Away: The Sexual Exploitation of Children and Young People in Northern Ireland*. Belfast: Barnardo's Gogledd Iwerddon.

Beckett, H. (2013) 'Looked After Young People and CSE: A View from Northern Ireland', yn Melrose, M. a Pearce, J. (gol.) *Critical Perspectives on Child Sexual Exploitation and Related Trafficking.* Basingstoke: Palgrave MacMillan, tud. 69-82.

Berelowitz, S., Clifton, J., Firmin, C., Gulyurtlu, S. ac Edwards, G. (2013) *'If only someone had listened': Office of the Children's Commissioner Inquiry into Sexual Exploitation in Gangs and Groups.* Llundain: Swyddfa'r Comisiynydd Plant

Bovarnick, S., Scott, S. a Pearce, J. (2017*) Direct Work with Sexually Exploited or At Risk Children and Young People: A Rapid Evidence Assessment.* Barkingside: Barnardo's.

Brown, S., Brady, G., Franklin, A. Bradley, L., Kerrigan, N. a Sealey, C. (2016) *Child Sexual Abuse and Exploitation: Understanding Risk and Vulnerability.* Llundain: Sefydliad Ymyrraeth Gynnar.

Bunn, A. (2013) *Signs of Safety in England: Adroddiad wedi'i gomisiynu gan yr NSPCC ar y model 'Signs of Safety' mewn amddiffyn plant.* Llundain: NSPCC.

Cameron G., Sayer, E.M., Thomson, L. a Wilson, S. (2014) *Child Sexual Exploitation: A Study of International Comparisons. Adolygiad Desg ar gyfer yr Adran Addysg.* Nottingham: The Virtual Staff College.

Bwrdd Lleol Diogelu Plant Caerdydd a'r Fro (2016) *Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant: Fframwaith Ymchwiliad Beirniadol.* Caerdydd: Bwrdd Lleol Diogelu Plant Caerdydd a'r Fro

Canolfan Arbenigedd ar Gam-drin Plant yn Rhywiol (2017) *Our Work* Ar gael o https://www.csacentre.org.uk/our-work/ [29 Mai 2017]

Chandy, J., Blum, R. a Resnick, M. (1997) 'Sexually abused male adolescents: How vulnerable are they?' *Journal of Child Sexual Abuse* 6:2, tud. 1-16.

Cymdeithas y Plant (2014), *Inquiry into effectiveness of legislation for tackling CSE and trafficking within the UK: Written Evidence.* Llundain: Cymdeithas y Plant.

Cyngor Dinas Caerdydd (2017) *Gwasanaethau Plant Caerdydd, Canllawiau i Weithwyr Cymdeithasol: Delio â Phryder ynghylch Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant.* Caerdydd: Dinas Caerdydd.

Bwrdd Diogelu Plant Dinas Caerefrog (2014) *Child Sexual Abuse and Exploitation Guidance.* Caerefrog: Bwrdd Diogelu Plant Dinas Caerefrog

Clutton, S., a Coles, J. (2007) *Fframwaith Asesu Risg Camfanteisio Rhywiol: Astudiaeth Beilot.* Caerdydd: Barnardo's Cymru.

Clutton, S., a Coles, J. (2008) *Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant yng Nghymru: Ar ôl 3 Blynedd.* Caerdydd: Barnardo's Cymru.

Cockbain, E. (2013) 'Grooming and the 'Asian sex gang predator': the construction of a racial crime threat'. *Race and Class* 54:4, 22-32.

Cockbain, E., Brayley, H. ac Ashby, M. (2014) *Not just a girl thing: A large-scale comparison of male and female users of child sexual exploitation services in the UK.* Barkingside: Barnardo's.

Coffey, A., ac Atkinson, P.A. (1996) *Making Sense of Qualitative Data.* Walnut Creek, Califfornia: Gwasg Altamira.

Coles, J. (2005) *Out of Sight, Out of Mind: Child Sexual Exploitation.* Caerdydd: Barnardo's.

Y Coleg Plismona (2016) *Nodyn Briffio: Police action in response to youth produced sexual imagery ('Sexting')* Coventry: Y Coleg Plismona.

Cook, L. (2016) *Gwerthuso gwasanaethau: profiad y 6 mis cyntaf o ddefnyddio'r Holiadur Risg Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant (CSERQ15) mewn clinigau iechyd rhywiol ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan (ABUHB).*

Coy, M. (2016) 'Joining the dots on sexual exploitation of children and women: A way forward for UK policy responses'. *Critical Social Policy* 36:4, 572-591.

Yr Adran Addysg (2011) *Tackling child sexual exploitation: Action plan.* Llundain: Yr Adran Addysg

Yr Adran Iechyd (2000) *Safeguarding Children Involved in Prostitution*. Llundain: Yr Adran Iechyd.

Ennew, J. (1986) *The Sexual Exploitation of Children*. Caergrawnt: Gwasg Polity

Firmin, C. (2013) 'Something Old or Something New: Do Pre-Existing Conceptualisations of Abuse Enable a Sufficient Response to Abuse in Young People's Relationships and Peer-Groups?' yn Melrose, M. a Pearce, J. (gol), *Critical Perspectives on Child Sexual Exploitation.* Hampshire: Palgrave MacMillan (38-52).

Flick, U. (2002) *An Introduction to Qualitative Research.* 2[il] Argraffiad. Llundain: Cyhoeddiadau Sage

Fox, C. (2016) *'It's not on the radar': The hidden diversity of children and young people at risk of sexual exploitation in England.* Barkingside: Barnardo's.

Franklin, A. a Smeaton, E. (2017) 'Recognising and responding to young people with learning disabilities who experience, or are at risk of, child sexual exploitation in the UK'. *Adolygiad Gwasanaethau Plant a Phobl Ifanc* 73, 474-481.

Gilligan, P. (2016). 'Turning It Around: What Do Young Women Say Helps them to Move On from Child Sexual Exploitation?' *Adolygiad Cam-drin Plant* 25, tud. 115-127.
Green, J. (1992) *It's No Game*. Llundain: Asiantaeth Genedlaethol Ieuenctid.

Hallett, S. (2015) '"An Uncomfortable Comfortableness": "care", child protection, and child sexual exploitation'. *British Journal of Social Work* 46:7, 2137-2152**,** 239-248.

Hallett, S (2017) *Making Sense of Child Sexual Exploitation: Exchange, Abuse and Young People*. Bryste: Gwasg Policy.

Harper Z., Scott S. (2005) *Meeting the needs of sexually exploited young people in London*. Barnardo 's: Barkingside:

Hickle, K. a Hallett, S. (2016) 'Mitigating harm: considering harm reduction principles in work with sexually exploited young people'. *Children and Society* 30:4, 302-313.

Llywodraeth EM (2003) *Deddf Troseddau Rhywiol 2003.* Llundain: Y Llyfrfa.

Llywodraeth EM (2015) *Deddf Troseddu Difrifol 2015.* Norwich: Y Llyfrfa.

Llywodraeth EM (2017a) *Child sexual Exploitation: Definition and a guide for practitioners, local leaders and decision makers working to protect children from child sexual exploitation*. Llundain: Yr Adran Addysg.

Llywodraeth EM (2017b) *Definition of child sexual exploitation: Government consultation response.* Llundain: Yr Adran Addysg.

Llywodraeth EM (2017c) *Policy statement: relationships education, relationships and sex education, and personal, social, health and economic education*. Llundain: Yr Adran Addysg
Arolygiaeth Cwnstabliaeth Ei Mawrhydi (2015) *In harm's way: The role of the police in keeping children safe.* Llundain: Arolygiaeth Cwnstabliaeth Ei Mawrhydi

Horvath, M.A.H., Davidson, J., Grove-Hills, J., Gekoski, A. a Choak, C. (2014) *'It's a Lonely Journey' A Rapid Evidence Assessment on intrafamilial child sexual abuse.* Llundain: Swyddfa'r Comisiynydd Plant

Jago, S., Arocha, L., Brodie, I., Melrose, M., Pearce, J. a Warrington, C. (2011) *What's going on to safeguard children and young people from sexual exploitation? How local partnerships respond to child sexual exploitation.* Luton: Prifysgol Swydd Bedford.

James, A., a Prout, A. (gol) (1997) *Constructing and Reconstructing Childhood* (2il argraffiad). Abingdon, Oxon: Routledge.

Lalor, K. a McElvaney, R. (2010) 'Child sexual abuse, links to later sexual exploitation/high risk sexual behavior and prevention/ treatment programmes'. *Trauma, Violence and Abuse* 11, tud. 159-177.

Lilywhite, R. a Skidmore, P. (2006) 'Boys Are Not Sexually Exploited? A Challenge to Practitioners'. *Adolygiad Cam-drin Plant* 15, 351-36.

Mannay, D. (2015) *Visual, narrative and creative research methods: application, reflection and ethics*. Abingdon: Routledge.

Melrose, M. (2013) ‘Young People and Sexual Exploitation: A Critical Discourse Analysis’, yn Melrose, M. a Pearce, J. (gol.) *Critical Perspectives on Child Sexual Exploitation and Related Trafficking.* Basingstoke: Palgrave MacMillan, 9-22.

Y Weinyddiaeth Gyfiawnder (2017) *Cylchlythyr Rhif 2017/01*. Llundain: Y Weinyddiaeth Gyfiawnder.

Munro, C. (2004) *Scratching the Surface: What we Know About the Abuse and Sexual Exploitation of Young People by Adults Targeting Residential and Supported Accommodation Units*. Glasgow: Barnardo’s.

Murray, M. ac Osborne, C. (2009) *Safeguarding disabled children: Practice guidelines*. Llundain: Y Grŵp Plant.

NSPCC (n.d.) *Child Sexual Exploitation.* Ar gael o https://www.nspcc.org.uk/preventing-abuse/child-abuse-and-neglect/child-sexual-exploitation/ [20 Ebrill 2017]

Pearce, J. (2009) *Young People and Sexual Exploitation: ‘It’s not hidden, you just aren’t looking’.* Oxon: Routledge.

Pearce, J. (2013) ‘A Social Model of “Abused Consent”’, yn Melrose, M. a Pearce, J. (gol.) *Critical Perspectives on Child Sexual Exploitation and Related Trafficking.* Basingstoke: Palgrave MacMillan, tud. 52-68

Pearce, J. (2015) *Out of the Box: Young People’s Stories*. Luton: Prifysgol Swydd Bedford.

Plotnikoff, J. a Woolfson, R. (2009) *Measuring Up?: Evaluating the implementation of the government commitment to young witnesses in criminal proceedings.* Llundain: NSPCC.

Roesch-Marsh, A. (2014) “‘Out of control’: making sense of the behaviour of young people referred to secure accommodation”, *British Journal of Social Work*, Cyfrol 44 Rhif 2, tud. 197-213.

Bwrdd Diogelu ar gyfer Gogledd Iwerddon (2014) *Child Sexual Exploitation: Definition and Guidance.* Belfast: Bwrdd Diogelu ar gyfer Gogledd Iwerddon

Schmidt, C. (2004) 'The Analysis of Semi-Structured Interviews' yn Flick, U. von Kardorff, E. a Steinke, I. (gol) *A Companion to Qualitative Research*. Llundain: Cyhoeddiadau Sage (253-258).

Scott, S. a Skidmore, P. (2006) *Reducing the risk: Barnardo's support for sexually exploited young people*. Ilford: Barnardo's.

Llywodraeth yr Alban (2016) *Child Sexual Exploitation: Definition and Summary.* Caeredin: Llywodraeth yr Alban.

Shuker, L. (2013) *Evaluation of Barnardo's Safe Accommodation Project.* Luton: Prifysgol Swydd Bedford.

Smeaton, E. (2013) *Running from Hate to What You Think is Love: The Relationship Between Running Away and Child Sexual Exploitation.* Barnardo's: Barkingside:

Grŵp Prif Swyddogion Ieuenctid Cymru (2015) *Papur safbwynt ar ran Grŵp Prif Swyddogion Ieuenctid Cymru – Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant a Masnachu mewn Plant.* Caerdydd: Grŵp Prif Swyddogion Ieuenctid Cymru.

Walker, D. (2014) *Findings of Scoping Exercise into Practitioners knowledge of Child Sexual Exploitation of LGBT Young People in the North East.* Newcastle upon Tyne: Sefydliad Northern Rock.

Llywodraeth Cynulliad Cymru (LlCC). *(2009) Protocol Cymru Gyfan: Amddiffyn a Hyrwyddo Lles Plant a Phobl Ifanc sydd mewn Perygl o gael eu Cam-drin drwy Gamfanteisio Rhywiol.* Caerdydd: Llywodraeth Cynulliad Cymru.

Llywodraeth Cynulliad Cymru (LlCC). *(2011) Amddiffyn Plant a Phobl Ifanc rhag Camfanteisio Rhywiol: Canllawiau atodol ar Ddiogelu Plant: Gweithio gyda'n Gilydd o dan Ddeddf Plant 2004.* Caerdydd: Llywodraeth Cynulliad Cymru.

Llywodraeth Cymru. *(2016) Cynllun Gweithredu Cenedlaethol i Fynd i'r Afael â Chamfanteisio'n Rhywiol ar Blant (Cymru).* Caerdydd: Llywodraeth Cymru.

Llywodraeth Cymru (2017) *Grŵp arbenigol ar gydberthnasau iach i roi cyngor ar y cwricwlwm.* Ar gael o http://gov.wales/newsroom/educationandskills/2017/new-expert-healthy-relationships-group-to-advise-on-curriculum/?lang=cy [29 Mai 2017].

**Atodiad A – Rhestr o sefydliadau cysylltiedig a grwpiau ffocws a gynhaliwyd**

(Mae'r rhestr hon yn cynnwys grwpiau a gafodd eu cynnull yn arbennig at ddibenion yr adolygiad hwn)

Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg

Grŵp Diogelu mewn Addysg Cymru Gyfan

Grŵp Diogelu Rheolwyr Cymru Gyfan

Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan

Cyfarwyddwyr Cynorthwyol Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru

Cymdeithas Prif Swyddogion yr Heddlu (ACPO)

Cymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru (CCAC)

Barnardo’s Cymru: Prosiect Dyfodol Gwell

Barnardo’s Cymru: Polisi ac Ymchwil

Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr

Gwasanaethau Plant Caerdydd

Bwrdd Rhanbarthol Diogelu Plant Caerdydd a'r Fro

Bwrdd Iechyd Caerdydd a'r Fro

Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro

Gwasanaethau Plant Cyngor Sir Caerfyrddin

Cyngor Sir Ceredigion

Cyfiawnder Ieuenctid ac Atal Ceredigion

Comisiynydd Plant Cymru (hefyd yn ei rôl fel cadeirydd Grŵp Bord Gron Cymru Gyfan ar Gamfanteisio’n rhywiol ar blant)

Gwasanaethau Plant Conwy

Grŵp Ffocws Amlasiantaeth Conwy

Gwasanaethau Cymdeithasol Conwy

BRhDP Cwm Taf

Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf

Gwasanaethau Troseddau Ieuenctid Cwm Taf

Gwasanaethau Plant Sir Ddinbych

Heddlu Dyfed Powys

Gwasanaeth Gwaith Cymdeithasol Addysgol, Conwy

Tîm Cymorth Ieuenctid Ethnig

Ysgol Fitzalan

Gwasanaethau Plant Sir Ddinbych

Canolfan Plant ar Goll Gwent

Heddlu Gwent

Gwasanaeth Plant Gwynedd

Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda

Llamau

Gwasanaethau Plant Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful

BRhDP Canolbarth a Gorllewin Cymru

Cyngor Bwrdeistref Sirol Sir Fynwy

Grŵp Ymarferwyr Amlasiantaeth Sir Fynwy

Y Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol (NISW)

Y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol

Y Gymdeithas Genedlaethol er Atal Creulondeb i Blant (NSPCC)

Tîm plant ar goll Cyngor Sir Casnewydd.Gwent

Gwasanaethau Cymdeithasol Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot

Gwasanaethau Plant Casnewydd

Iechyd y Cyhoedd GIG

Heddlu Gogledd Cymru

Uned Amddiffyn Pobl Agored i Niwed Heddlu Gogledd Cymru

BRhDP Gogledd Cymru

Gwasanaethau Plant Cyngor Sir Penfro

Grŵp PING, Caerdydd

Grŵp Plismona Bygythiad Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant

Cyngor Sir Powys

Bwrdd Iechyd Addysgu Powys

Iechyd Cyhoeddus Cymru

Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf

Grŵp Diogelu mewn Addysg

Cymru Ddiogelach

BRhDP De Ddwyrain Cymru

Heddlu De Cymru

Ymddiriedolaeth St Giles

Gwasanaethau Cymdeithasol Dinas a Sir Abertawe

Prifysgol De Cymru

Cyfarwyddiaeth Dysgu a Sgiliau Bro Morgannwg

Lleisiau dros Ofal Cymru

Bwrdd Diogelu Bae’r Gorllewin, Dinas a Sir Abertawe

Tîm Troseddau Ieuenctid Bae’r Gorllewin

Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru

Llywodraeth Cymru

BRhDP Bae'r Gorllewin

Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam

YMCA

Adran Addysg Ynys Môn

Gwasanaethau Troseddau Ieuenctid

**Atodiad B - Amserlen cyfweliadau ar gyfer grwpiau ffocws a chyfweliadau**

**Gwybodaeth ddemograffig**

Asiantaeth a swydd:

Hyd profiad o ran gweithio ym maes camfanteisio'n rhywiol ar blant:

A allwch chi ddweud ychydig wrthym am eich rôl (neu rôl y bwrdd/sefydliad) o ran gweithio ym maes camfanteisio'n rhywiol ar blant?

**Y Canllawiau (Cyffredinol)**

*Mae'r rhain yn gwestiynau strwythuredig cyflym yn chwilio am ateb ie/na neu ymateb byr gan yr ymdrinnir â'r manylion yn ddiweddarach yn y grŵp ffocws/cyfweliad.*

- A ydych chi'n gyfarwydd â'r Canllawiau Statudol ar Amddiffyn Plant a Phobl Ifanc rhag Camfanteisio Rhywiol?
- A allwch chi ddweud wrthym sut ydych yn defnyddio'r Canllawiau yn eich gwaith?
- A oes ymwybyddiaeth dda o'r canllawiau (yn eich barn chi) yn eich asiantaeth? Mewn asiantaethau yr ydych yn gweithio â nhw? E.e. yr heddlu, gwasanaethau cymdeithasol, addysg, y trydydd sector.
- A ydych chi wedi bod yn gysylltiedig â galw am adolygiad o'r Canllawiau Statudol yn y misoedd/ blynyddoedd diwethaf? Os do, eglurwch y rhesymau pam rydych chi'n meddwl fod angen adolygu'r Canllawiau.

**Diffinio camfanteisio'n rhywiol ar blant**

Byddwn yn mynd at y materion yn ymwneud ag adnabod camfanteisio'n rhywiol ar blant ymhen ychydig, ond yn gyntaf, roeddem am ganolbwyntio'n benodol ar y diffiniad o gamfanteisio'n rhywiol ar blant yn y canllawiau. *(Dangoswch y cerdyn â'r diffiniad iddynt):*

- A oeddech i gyd yn ymwybodol o'r diffiniad, fyddech chi'n dweud bod gennych wybodaeth amdano?

- A oes unrhyw broblemau o ran y diffiniad?

  Awgrymiadau: A yw'r diffiniad yn cyfateb â'ch gwybodaeth a'ch profiad o weithio ym maes camfanteisio'n rhywiol ar blant?

  Awgrymiadau: A oes unrhyw broblemau y dowch ar eu traws o ran deall camfanteisio'n rhywiol ar blant? (Naill ai rhai eich hun, neu gydweithwyr y dewch i gysylltiad â nhw.)

  Awgrymiadau: A ydyw'n adlewyrchu ac yn cynnwys y mathau o achosion y gallech chi a'ch cydweithwyr eu gweld?

Awgrymiadau: A ydyw'n gweithio, er enghraifft, os nad oes unrhyw un amlwg yn meithrin perthynas amhriodol, neu mewn achosion ar-lein?

- Yn y diffiniad yn addas i'r diben?
  - Awgrymiadau: A allwch egluro pam neu pam ddim?
  - Awgrymiadau: Pa newidiadau dylid eu gwneud iddo, os o gwbl? A oes unrhyw ddiffiniadau eraill y mae'n well gennych, pam?

- Beth sy'n gwahaniaethu camfanteisio'n rhywiol ar blant oddi wrth fathau eraill o gam-drin rhywiol yn eich barn chi? Ydych chi'n teimlo'n hyderus yn gwahaniaethu rhyngddynt?
- A oes unrhyw beth arall yr hoffech dynnu ein sylw ato o ran y diffiniad?

**Adnabod ac atgyfeirio**

- Pa mor dda y mae'r canllawiau (a SERAF) yn gweithio o ran nodi a'ch helpu chi / eich asiantaeth (ac asiantaethau perthnasol eraill) i weithio gyda chamfanteisio'n rhywiol ar blant, yn enwedig o ran y risgiau a'r nodweddion bregus sy'n dod i'r amlwg yn yr asesiad?
  - Awgrymiadau: A oes unrhyw beth ar goll, neu yn anodd ei gipio yn y SERAF presennol, y credwch y byddai wedi bod yn ddefnyddiol eu cynnwys?
  - Awgrymiadau: A yw'r categorïau risg yn iawn neu o gymorth ar gyfer mesur y lefel gywir o ran pryder?
  - Awgrymiadau: A yw'r sgoriau cysylltiedig yn ddefnyddiol ar gyfer pennu lefel y risg i blant a phobl ifanc?

- A fyddech chi'n dweud bod y SERAF (canllawiau a diffiniad) yn effeithiol ac yn 'addas at y diben' o ran adnabod pobl ifanc y mae risg iddynt ddioddef camfanteisio rhywiol? Pam?

  - Ac a fyddech chi'n dweud ei fod yn effeithiol ac yn 'addas at y diben' o ran atgyfeirio plant a phobl ifanc? Pam?

  - A oes gennych unrhyw enghreifftiau da neu ddim cystal i'w defnyddio a fyddai'n helpu i ddangos y pwyntiau hyn?

- Pa newidiadau ddylid eu gwneud i SERAF neu'r Canllawiau o ran adnabod ac atgyfeirio, os o gwbl?

**Atal/ymyrryd/erlyn**

- Pa mor dda mae'r canllawiau (SERAF a diffiniad) yn gweithio o ran cefnogi gwaith amlasiantaeth yn y maes hwn?
  - A oes unrhyw gryfderau allweddol a/neu rwystrau yn hyn o beth?

- Pa mor dda mae SERAF a'r canllawiau yn gweithio o ran atal ac ymyrryd yn gynnar mewn achosion o gamfanteisio'n rhywiol ar blant?
    - A oes gennych unrhyw enghreifftiau o arfer da neu arfer problemus y gallech eu rhannu?

- Pa mor dda mae’r Canllawiau a SERAF yn gweithio o ran cefnogi a gweithio gyda phlant a phobl ifanc y mae risg iddynt ddioddef, neu fod yn gysylltiedig â, chamfanteisio’n rhywiol ar blant (yn enwedig i ddarparu cymorth tymor hwy)? h.y. ymhellach nag asesiad o risg, a yw’r canllawiau yn hwyluso gweithio gyda’r plentyn neu’r unigolyn ifanc tuag at newid cadarnhaol.

    Awgrymiadau: ymwybyddiaeth o'r angen am gymorth ychwanegol ar gyfer y rheiny sy’n fwy agored i niwed fel:
    - y rhai sy'n mynd ar goll, sy’n bobl ifanc NEET, yn blant sy'n derbyn gofal, plant a phobl ifanc anabl
    - o gefndir pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig (e.e. llai tebygol o ddod ymlaen – oherwydd parch/cywilydd)

    Awgrymiadau: ynglŷn â’r sefyllfa ar gyfer bechgyn a dynion ifanc (yn ogystal ag i ferched/menywod ifanc)

    - Beth fyddai'n llwyddiant yn hyn o beth?

    - A oes gennych unrhyw enghreifftiau da neu ddim cystal i’w defnyddio a fyddai'n helpu i ddangos hyn?

- Pa mor dda y mae'r canllawiau yn galluogi neu’n hwyluso gwaith ymarferwyr a gweithwyr proffesiynol i weithio i amharu ar ac erlyn y rhai sy'n cyflawni camfanteisio rhywiol ar blant?
    - A oes unrhyw enghreifftiau y gallech eu defnyddio i helpu i ddangos hyn?

- Beth gredwch chi y mae angen ei newid er mwyn gwella ymatebion amlasiantaeth (a gwasanaeth unigol) i achosion o gamfanteisio'n rhywiol ar blant yn eich ardal?
    - A oes unrhyw rwystrau penodol y mae angen rhoi sylw iddynt?
    - A oes gennych unrhyw enghreifftiau o arfer da neu lwyddiannau?

- A fyddech chi’n dweud bod y Canllawiau a SERAF yn 'addas at y diben' o ran ymateb i gamfanteisio'n rhywiol ar blant?

- A oes unrhyw beth y gellid ei gynnwys yn y canllawiau neu SERAF a fyddai'n eich helpu fel asiantaeth neu ymarferydd/gweithiwr proffesiynol i: atal, ymyrryd, neu i ddiogelu plant a phobl ifanc rhag camfanteisio rhywiol?

- A yw’r Canllawiau yn cael eu defnyddio ar lefel strategol, e.e. i fonitro achosion o gamfanteisio'n rhywiol ar blant, i lywio'r gwaith o ddatblygu’r Cynllun Gweithredu ar gyfer camfanteisio'n rhywiol ar blant. Disgrifiwch sut.
    - A ydych chi o’r farn fod y Canllawiau yn 'addas at y diben ' yn hyn o beth?
    - Beth yw'r anawsterau o weithredu'r Canllawiau ar lefel strategol? Beth fyddai'n hwyluso hyn?
      Awgrymiad: Gofynion ar fyrddau diogelu rhanbarthol i lunio cynlluniau gweithredu

**Cwestiynau i gloi:**

- A ydym ni wedi trafod popeth – a oes yna unrhyw beth yr hoffech ei dynnu i’n sylw (o ran yr adolygiad hwn) nad ydym wedi rhoi’r cyfle i chi ei rannu?

    - Yn benodol, a oes angen unrhyw newidiadau i'r canllawiau nad ydynt wedi’u codi a’u trafod eisoes yr hoffech eu rhannu?

- Yn olaf, beth dybiwch chi fyddai'n ganlyniad da o'r Adolygiad hwn?

**Atodiad C – diffiniadau'r DU o Gamfanteisio'n rhywiol ar blant**

**Cymru:**

Mae camfanteisio'n rhywiol ar blant yn golygu gorfodi plant a phobl ifanc, neu ddylanwadu arnynt, i gymryd rhan mewn gweithgareddau rhywiol. Mae'n fath o gam-drin rhywiol lle mae rhyw fath o daliad yn cael ei gyfnewid a all gynnwys arian, ffonau symudol ac eitemau eraill, cyffuriau, alcohol, lle i aros, 'amddiffyniad' neu anwyldeb. Mae natur agored i niwed yr unigolyn ifanc a'r broses o feithrin perthynas amhriodol a ddefnyddir gan y rhai sy'n cyflawni'r troseddau yn eu gwneud yn ddi-rym i adnabod natur gamfanteisiol perthnasoedd ac i roi cydsyniad ar sail penderfyniad cytbwys (LlCC 2009:3).

**Lloegr:**

Mae camfanteisio'n rhywiol ar blant yn ffurf o gam-drin plant yn rhywiol. Mae'n digwydd pan fydd unigolyn neu grŵp yn cymryd mantais ar anghydbwysedd mewn pŵer i orfodi, twyllo neu ddylanwadu ar blentyn neu unigolyn ifanc o dan 18 oed i ymgymryd â gweithgarwch rhywiol (a) yn gyfnewid am rywbeth mae'r dioddefwr ei angen neu ei eisiau, a/neu (b) am y fantais ariannol neu statws uwch y cyflawnwr neu'r hwylusydd. Gellid fod wedi camfanteisio'n rhywiol ar y dioddefwr hyd yn oed os yw'n ymddangos bod y gweithgarwch rhywiol yn gydsyniol. Nid yw camfanteisio'n rhywiol ar blant bob amser yn golygu cyswllt corfforol; gall ddigwydd hefyd drwy ddefnyddio technoleg (Llywodraeth EM, 2017a:5)

**Yr Alban:**

Mae camfanteisio'n rhywiol ar blant yn ffurf o gam-drin plant yn rhywiol pan fydd unigolyn (unigolion) o unrhyw oed, yn manteisio ar anghydbwysedd mewn pŵer i orfodi neu hudo plentyn i ymgymryd â gweithgarwch rhywiol yn gyfnewid am rywbeth a dderbynnir gan y plentyn a/neu'r rhai sy'n cyflawni neu'n hwyluso'r cam-drin. Fel gyda mathau eraill o gam-drin plant yn rhywiol, nid yw cydsyniad tybiedig yn tanseilio'r cam-drin (Llywodraeth yr Alban 2016:1).

**Gogledd Iwerddon:**

Mae camfanteisio'n rhywiol ar blant yn fath o gam-drin rhywiol pan fydd unigolyn (unigolion) yn camfanteisio ar, yn gorfodi a/neu'n dylanwadu ar blentyn neu unigolyn ifanc, i ymgymryd â rhyw fath o weithgarwch rhywiol yn gyfnewid am rywbeth mae'r plentyn ei angen neu ei eisiau, a/neu er mantais y sawl sy'n cyflawni neu'n hwyluso'r cam-drin (Bwrdd Diogelu ar gyfer Gogledd Iwerddon 2014:1).

**Atodiad D – Enghraifft o'r diffiniad newydd**


Ar ei symlaf, gellir disgrifio camfanteisio'n rhywiol ar blant fel cam-drin plant a phobl ifanc yn rhywiol drwy gyfnewid rhyw neu weithgarwch rhywiol am rywbeth. Nid oes un diffiniad cytunedig o gamfanteisio'n rhywiol ar blant yn y DU, na'n fyd-eang. Fodd bynnag, mae tri o 'elfennau' hanfodol yn yr holl ddiffiniadau:

1. Mae'n ffurf o gam-drin rhywiol a all gynnwys:
    a. rhyw neu unrhyw fath o weithgarwch rhywiol â phlentyn; cynhyrchu delweddau anweddus a/neu unrhyw ddeunydd anweddus eraill sy'n cynnwys plant, boed yn ffotograffau, ffilmiau neu dechnolegau eraill.


2. Mae'n digwydd i'r rheiny hyd at 18 oed (neu 21 yn achos y rhai sydd â hawl i wasanaethau ôl-ofal);

3. Mae'n golygu rhyw fath o gyfnewid:
    a. Gall y cyfnewid gynnwys tynnu rhywbeth yn ôl (yn hytrach na rhoi rhywbeth); megis atal trais neu fygythiadau i gam-drin unigolyn arall.
    b. Efallai y bydd gan unigolion gyfranogiad trydydd parti yn y cam-drin rhywiol; gallant, er enghraifft, dderbyn nwyddau neu arian ar ran y plentyn neu'r unigolyn ifanc.
    c. **Ni ddylid canolbwyntio ar hyn a dderbyniwyd ond yn hytrach ar weithrediad y plentyn neu'r unigolyn ifanc a gamdriniwyd felly, a'r achosion o gamddefnyddio grym yn eu herbyn, sy'n golygu y gallant deimlo neu ddatgan eu bod (i ryw raddau) wedi cyfranogi yn cam-drin o'u gwirfodd.**

**Atodiad E – Siart llif: Gweithredu pan fo pryderon ynghylch camfanteisio'n rhywiol ar blant**



**Atodiad F – Strwythur cenedlaethol awgrymedig ar gyfer ymateb i gamfanteisio'n rhywiol ar blant**



**Atodiad G – Cydnabyddiaethau**

Hoffai'r awduron ddiolch i'r holl weithwyr proffesiynol hynny a gymerodd ran yn yr ymchwil hon. Roedd yr ymateb gan gydweithwyr ledled Cymru, o bob sector, yn gydweithredol, yn frwdfrydig ac yn galonogol, ac rydym yn ddiolchgar iawn i bawb a roddodd amser o'u hymrwymiadau sylweddol, gyda byr rybudd yn aml, i gymryd rhan a chyfrannu at yr adolygiad hwn.

Sonnir yn benodol am y canlynol, am fynd allan o'u ffordd i anfon dogfennau ac i ddarparu gwybodaeth ychwanegol i gyfrannu at yr adolygiad hwn: Jan Coles, Sam Clutton, Heather Heaney, Alison Mott, Matthew Sedgebeer a Kerry Wade.

Rydym hefyd yn ddiolchgar iawn i'r 11 gweithiwr proffesiynol a gymerodd ran yn ein gweithdy rhanddeiliaid, roedd eich trafodaeth feirniadol a'ch mewnbwn yn werthfawr iawn.

Diolch yn fawr i'r bobl ifanc a'r oedolion ifanc a gymerodd ran yn yr adolygiad hwn. Mae eich trafodaeth a'ch sylwadau meddylgar wedi helpu i lywio'r adolygiad hwn a'n hargymhellion, mae'n well oherwydd hynny, ac rydym yn ddiolchgar.

Diolch arbennig hefyd i Lleisiau o Ofal am hwyluso ein grwpiau ffocws i oedolion ifanc.

Hoffem sôn yn arbennig hefyd am Adam Kaps, am eich cyfraniad at yr adolygiad hwn.